Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council



# Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

## Cynllun Datblygu Lleol

## 2018-2033

# Adroddiad Monitro Blynyddol

Hydref 2025

# Cynnwys

**1.0 Crynodeb Gweithredol** ..... **1**

Cyflenwi a Dosbarthu Tai ..... 1
Safleoedd Strategol ..... 1
Newid Hinsawdd, Risg Llifogydd ac Ynni ..... 1
Llety Sipsiwn a Theithwyr ..... 1
Cyfleusterau Cymunedol ..... 2
Cyflogaeth a Datblygu Economaidd ..... 2
Manwerthu a Chanol Trefi ..... 2
Mwynau a Gwastraff ..... 2
Twristiaeth a Hamdden ..... 2
Cefn Gwlad, Tirwedd a Bioamrywiaeth ..... 2
Casgliadau Cyffredinol ..... 3

**2.0 Prif Ganfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol** ..... **3**

Cyflenwi a Dosbarthu Tai ..... 3
Safleoedd Strategol ..... 4
Newid Hinsawdd, Risg Llifogydd ac Ynni ..... 4
Llety Sipsiwn a Theithwyr ..... 5
Cyfleusterau Cymunedol ..... 5
Cyflogaeth a Datblygu Economaidd ..... 5
Manwerthu a Chanol Trefi ..... 6
Mwynau a Gwastraff ..... 6
Twristiaeth a Hamdden ..... 6
Cefn Gwlad, Tirwedd a Bioamrywiaeth ..... 6

**3.0 Cyflwyniad** ..... **8**

**4.0 Methodoleg / Fframwaith Monitro CDLlN** ..... **10**

Dangosyddion Monitro ........ 10
Targedau ........ 10
Pwyntiau Sbardun ........ 10
Camau Monitro ........ 10

**5.0 Newidiadau Cyd-destunol ........ 12**

Polisi a deddfwriaeth ........ 12
Amodau Allanol ........ 14
Cyd-destun Datblygu Lleol ........ 15

**6.0 Dadansoddiad o Ddangosyddion Craidd ........ 17**

Cymariaethau Data Taflwybrau Tai ........ 55
Cyfradd Adeiladu Flynyddol Disgwyliedig – Cymharu'r Data ........ 57

**7.0 Monitro Arfarniad Cynaliadwyedd ........ 91**

**8.0 Casgliadau ac Argymhellion ........ 101**

**Atodiad A. Amseriad a Chyfnodau Dyraniadau a Safleoedd â Chaniatâd Cynllunio (2018-203, Diweddarwyd 2024/25) ........ 102**

## 1.0 Crynodeb Gweithredol

1.1 Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) yn adolygu cynnydd wrth weithredu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) yn ystod y cyfnod **1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025**. Mae'n ystyried darpariaeth tai, cynnydd safleoedd strategol, datblygiad economaidd, canlyniadau amgylcheddol ac effeithiolrwydd cyffredinol y cynllun o ran siapio twf cynaliadwy.

Cyflenwi a Dosbarthu Tai

1.2 Roedd nifer y tai a gwblhawyd yn is na'r gofyniad blynyddol o 505 o anheddau ac mae'r ffigur yn dal i fod yn is na'r taflwybr a fabwysiadwyd. Mae darpariaeth tai fforddiadwy wedi deillio'n bennaf o'r banc tir presennol hyd yma, ond disgwylir i'r tai a gwblheir yn y dyfodol gyd-fynd yn agosach â pholisïau tai a fabwysiadwyd yn ddiweddar wrth i ddyraniadau fynd rhagddynt.

Safleoedd Strategol

1.3 Bu cynnydd ar draws yr holl safleoedd strategol a nodwyd yn y CDLIN, gyda cheisiadau eisoes wedi'u cyflwyno ar gyfer dau safle strategol a'r gweddill yn mynd rhagddynt drwy'r camau cyn-ymgeisio. Mae'r safleoedd hyn yn parhau i fod yn ganolog er mwyn cyflawni'r strategaeth twf, a bydd adeiladu arnynt yn dyngedfennol er mwyn cyflawni'r taflwybr tai.

Newid Hinsawdd, Risg Llifogydd ac Ynni

1.4 Mae'r flwyddyn fonitro yn dangos cydymffurfiaeth gref â pholisi o ran gwrthsefyll yr hinsawdd a datblygu cynaliadwy. Ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiad amhriodol mewn ardaloedd â pherygl o lifogydd, a chyflwynwyd prif gynlluniau ynni i gyd-fynd â'r holl geisiadau cynllunio mawr a gyflwynwyd ar ôl mabwysiadu'r CDLIN.

Llety Sipsiwn a Theithwyr

1.5 Mae'r angen a nodwyd yn yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) 2020 wedi'i fodloni'n llawn ar gyfer cyfnod y cynllun. Nid oedd unrhyw angen heb ei fodloni yn codi yn ystod y flwyddyn fonitro.

Cyfleusterau Cymunedol

1.6 Mae cyfleusterau cymunedol wedi cael eu diogelu'n llwyddiannus drwy gymhwyso polisi, heb unrhyw golledion wedi'u cofnodi mewn ardaloedd o angen.

Cyflogaeth a Datblygu Economaidd

1.7 Gwelir cynnydd cyson yn y defnydd o dir cyflogaeth ac o ran creu swyddi. Disgwylir i'r nifer gynyddu yn y blynyddoedd i ddod wrth i ddyraniadau ddod yn eu blaen, wrth i'r llafurlu lleol ehangu ac wrth i fusnesau ehangu a/neu gael eu denu i'r ardal mewn ymateb i hynny. Mae darparu cyfleoedd cyflogaeth newydd yn dal i fod yn rhan bwysig o strategaeth twf cytbwys y CDLl.

Manwerthu a Chanol Trefi

1.8 Mae canol trefi yn parhau i fod yn gymharol iach, gyda chyfraddau gwag ar lefelau amrywiol ym mhob un o'r tair prif dref – Pen-y-bont ar Ogwr, Porthcawl a Maesteg. Mae angen gwelliant ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Maesteg, yn benodol, a disgwylir i hynny ddigwydd wrth i'r dyraniadau strategol ddod yn eu blaen i'w datblygu, gan gynyddu nifer yr ymwelwyr â'r canol trefi hyn. Rydym yn cadw at strategaeth manwerthu'r CDLlN, heb ganiatáu unrhyw ddatblygiadau mawr y tu allan i'r canol trefi.

Mwynau a Gwastraff

1.9 Mae cronfeydd mwynau yn parhau i fod yn uwch na'r cyflenwad 10 mlynedd gofynnol, ac mae'r capasiti rheoli gwastraff yn ddigonol i fodloni anghenion y Fwrdeistref Sirol.

Twristiaeth a Hamdden

1.10 Mae gweithgarwch twristiaeth wedi aros yn sefydlog, heb golli unrhyw gyfleusterau hamdden nac adloniant yn ddigyfiawnhad.

Cefn Gwlad, Tirwedd a Bioamrywiaeth

1.11 Mae cefn gwlad, tirweddau a bioamrywiaeth wedi parhau i gael ei amddiffyn yn gryf. Ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiad a oedd yn groes i bolisïau perthnasol sy'n diogelu cynefinoedd, rhywogaethau a chymeriad tirwedd gwerthfawr.

Casgliadau Cyffredinol

1.12 Ystyriwyd diweddariadau diweddar i'r polisi cynllunio cenedlaethol, gan gynnwys diwygiadau i Bolisi Cynllunio Cymru a'r Nodiadau Cyngor Technegol cysylltiedig, yn rhan o'r broses fonitro. Nid yw'r newidiadau hyn yn tanseilio strategaeth y CDLIN, sy'n parhau i fod yn berthnasol ac yn briodol wrth alluogi twf cynaliadwy.

## 2.0 Prif Ganfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol

2.1 Mae'r adran hon yn crynhoi prif ganfyddiadau'r broses fonitro ar gyfer y cyfnod **1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025**, wedi'u trefnu yn ôl meysydd pwnc allweddol. Mae'n darparu'r sail dystiolaeth sy'n tanategu'r casgliadau a nodir yn y Crynodeb Gweithredol.

2.2 Rydym yng nghyfnod cynnar gweithredu'r CDLIN, a fabwysiadwyd ym mis Mawrth 2024, ac mae'n dangos cynnydd calonogol yn erbyn ei amcanion. Er bod darpariaeth tai hyd yma wedi bod yn is na'r taflwybr a ragwelwyd, nid yw hyn yn destun pryder mawr. Mae sawl dyraniad strategol yn mynd rhagddo'n dda drwy'r broses gynllunio a disgwylir iddynt ddarparu nifer sylweddol o dai wedi'u cwblhau yn y blynyddoedd nesaf, a fydd o gymorth i ddal i adennill tir wedi'r arafwch ar y dechrau.

Cyflenwi a Dosbarthu Tai

2.3 Dyma'r prif ganfyddiadau yn gysylltiedig â chyflenwi a dosbarthu tai:

- **Strategaeth Ofodol:** Roedd cyfraddau cwblhau tai yn ystod y cyfnod monitro braidd yn anghyson â hierarchaeth yr aneddiadau (Dangosydd 1), ond mae hyn oherwydd tai a gwblhawyd a oedd yn deillio o ymrwymiadau a fodolai eisoes (a gymeradwywyd o dan y CDLl blaenorol). Bydd y broblem hon yn ei chywiro ei hun wrth i ddyraniadau newydd ddechrau cyflenwi tai.
- **Cyfraddau adeiladu:** Cwblhawyd cyfanswm o 124 o anheddau yn ystod y flwyddyn fonitro, o gymharu â'r gyfradd adeiladu flynyddol ddisgwyliedig (CAFDd) o 505 o anheddau (Dangosydd 11). Mae hyn yn cynrychioli amrywiad o -75.44% yn is na'r targed.

- **Taflwybr Tai:** Roedd y niferoedd a gwblhawyd yn flynyddol yn is na'r CAFDd a nodwyd yn y Taflwybr Tai a fabwysiadwyd (Dangosydd 12), ac mae'r nifer cronnus a gwblhawyd hefyd yn dal i fod yn is na'r cyfanswm cronnus disgwyliedig (Dangosydd 13). Mae'r ddwy flynedd ddiwethaf o fonitro yn dangos tuedd o dan-ddarparu, ond disgwylir i hyn wella'n sylweddol wrth i ymrwymiadau presennol a safleoedd a ddyrannwyd ddod yn eu blaen i'w datblygu (mae'r safleoedd hynny oll naill ai'n mynd rhagddynt drwy'r system gynllunio neu'n destun gwaith cyn-ymgeisio dwys).
- **Tai Fforddiadwy:**
    - Darparwyd cyfanswm o 49 o anheddau fforddiadwy drwy'r system gynllunio, sydd yn is na tharged cyffredinol y CDLlN o 114 y flwyddyn (Dangosydd 14).
    - Rhaniad y ddeiliadaeth oedd 39 ar rent cymdeithasol a 10 o anheddau canolraddol, a gyfrannodd tuag at yr angen a nodwyd yn fersiwn ddiweddaraf yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (Dangosydd 15).
    - Er bod safleoedd a gyflenwyd (yn y cyfnod monitro hwn) wedi cael caniatâd o dan y CDLl blaenorol, roedd nifer y tai fforddiadwy a gwblhawyd yn cyd-fynd yn dda gan amlaf â'r trothwyon tai fforddiadwy newydd a fabwysiadwyd a'r targedau a nodir ym mholisïau COM3 a PLA1-5 (Dangosydd 16).

<u>Safleoedd Strategol</u>

2.4 Nid yw pob safle datblygu strategol (Polisïau PLA1-5) wedi dod ymlaen i'w datblygu eto, ond mae dau gais eisoes wedi cael eu cyflwyno eisoes a'r gweddill yn symud ymlaen drwy'r cyfnod cyn-ymgeisio. Disgwylir i safleoedd strategol gael eu cwblhau maes o law.

<u>Newid Hinsawdd, Risg Llifogydd ac Ynni</u>

2.5 Dyma'r prif ganfyddiadau yn gysylltiedig â newid hinsawdd, risg llifogydd ac ynni:

- Ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau yn groes i ofynion TAN 15 o fewn ardaloedd risg llifogydd C1 neu C2 (Dangosyddion 8 a 9).

- Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau yn groes i Bolisi creu lleoedd cynaliadwy (SP3) na Pholisi trafnidiaeth gynaliadwy a hygyrchedd SP5 (Dangosyddion 2 a 10).
- Cafodd uwchgynllun ynni ei gynnwys gyda phob cais cynllunio mawr a gyflwynwyd ar ôl mabwysiadu'r CDLlN (Dangosydd 26).
- Mae'r capasiti rheoli gwastraff yn parhau i fodloni gofyniad TAN 21 (Dangosydd  30).

Llety Sipsiwn a Theithwyr

2.6 Dyma'r prif ganfyddiadau yn gysylltiedig â llety sipsiwn a theithwyr:

- Mae'r angen a nodwyd yn Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr 2020 wedi'i fodloni'n llawn ar gyfer cyfnod y cynllun (Dangosydd 18).
- Ni chofnodwyd unrhyw anghenion heb eu bodloni yn ystod y flwyddyn fonitro, sy'n gyson â gofynion COM8 a Chylchlythyr 005/2018 (Dangosydd 19).

Cyfleusterau Cymunedol

2.7 Dyma'r prif ganfyddiadau yn gysylltiedig â chyfleusterau cymunedol:

- Ni roddwyd unrhyw ganiatâd a oedd yn groes i Bolisi SP9 a fyddai wedi arwain at golli cyfleusterau cymunedol mewn ardaloedd o angen i raddau annerbyniol (Dangosydd 20).

Cyflogaeth a Datblygu Economaidd

2.8 Dyma'r prif ganfyddiadau yn gysylltiedig â chyflogaeth a datblygu economaidd:

- Roedd 0.71 hectar o dir cyflogaeth wedi'i ddefnyddio yn y flwyddyn fonitro, yn unol â gofynion Polisi SP11 (Dangosydd 21).
- Nid yw'r union ffigurau ar gyfer twf cyflogaeth yn y Fwrdeistref Sirol ar gael, er bod data Llywodraeth Cymru yn dangos bod nifer y bobl mewn cyflogaeth wedi cynyddu 10,200 (11.3%) (Dangosydd 22). Fodd bynnag, dylid nodi y bydd y ffigurau hyn yn cynnwys y rhai sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol ond sy'n cael eu cyflogi mewn mannau eraill. Bydd setiau data sydd newydd eu rhyddhau yn cael eu monitro mewn AMBau yn y dyfodol.

Manwerthu a Chanol Trefi

2.9 Dyma'r prif ganfyddiadau yn gysylltiedig â manwerthu a chanol trefi:

- Ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiadau manwerthu mawr y tu allan i ffiniau trefi a chanolfannau lleol (Dangosydd 23).
- Roedd cyfraddau gwacter yn sylweddol is na'r trothwy o 15% ar gyfer Canol Tref Porthcawl, ond ychydig yn uwch yng nghanol trefi Maesteg (16.2%) a Phen-y-bont ar Ogwr (19.2%) (Dangosydd 24).
- O fewn prif ardaloedd siopa, mae dros 60% o unedau'n parhau i fod yn ddefnydd A1 yng nghanol trefi Pen-y-bont ar Ogwr a Porthcawl, sy'n cyd-fynd â'r targed o 60%, er bod y ganran yn is yng nghanol tref Maesteg ar 53% (Dangosydd 25).

Mwynau a Gwastraff

2.10 Dyma'r prif ganfyddiadau yn gysylltiedig â mwynau a gwastraff:

- Mae cronfeydd agregau yn parhau i fod ymhell uwchlaw'r cyflenwad isafswm gofynnol o 10 mlynedd (Dangosydd 28).
- Ni roddwyd unrhyw ganiatâd ar gyfer datblygu o fewn ardaloedd mwynau gwarchodedig yn groes i Bolisi ENT12 (Dangosydd 29).
- Mae capasiti rheoli gwastraff yn parhau i fod yn ddigonol i fodloni gofynion y Fwrdeistref Sirol (Dangosydd 30).

Twristiaeth a Hamdden

2.11 Dyma'r prif ganfyddiadau yn gysylltiedig â thwristiaeth a hamdden:

- Er nad oes data cywir ar gael eto sy'n cwmpasu'r flwyddyn fonitro gyfan, amcangyfrifwyd mai nifer yr ymwelwyr â'r Fwrdeistref Sirol yn 2024 oedd 3,421,439, sy'n ostyngiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (2023) (Dangosydd 31).
- Ni roddwyd unrhyw ganiatâd yn groes i ENT17 a fyddai wedi arwain at golli cyfleusterau twristiaeth neu hamdden i raddau annerbyniol (Dangosydd 32).

Cefn Gwlad, Tirwedd a Bioamrywiaeth

2.12 Dyma'r prif ganfyddiadau yn gysylltiedig â chefn gwlad, tirwedd a bioamrywiaeth:

- Ni chollwyd unrhyw dir yng nghefn gwlad i ddatblygiad drwy geisiadau i wyro oddi wrth Bolisi DNP1 (Dangosydd 33).
- Ni roddwyd unrhyw ganiatâd yn groes i Bolisi DNP4 a fyddai wedi achosi niwed annerbyniol i Ardaloedd Tirwedd Arbennig (Dangosydd 34).
- Ni roddwyd unrhyw ganiatâd yn groes i Bolisi DNP5, sy'n gwarchod Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur, Safleoedd Geoamrywiaeth Pwysig y Rhanbarth a Gwarchodfeydd Natur Lleol (Dangosydd 35).
- Ni roddwyd unrhyw ganiatâd yn groes i Bolisi DNP6, sy'n sicrhau na cheir unrhyw niwed i gynefinoedd a rhywogaethau a warchodir (Dangosydd 36).

2.13 Ar y cyfan, mae'r cynllun yn perfformio'n dda yn y cyfnod cynnar hwn, gyda thystiolaeth yn dangos cynnydd yn erbyn targedau allweddol a chyflenwad cryf o ddatblygiadau i gefnogi darpariaeth yn y dyfodol.

## 3.0 Cyflwyniad

3.1 Ar 13 Mawrth 2024, mabwysiadodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr y CDLIN 2018-2033 ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae Adran 76 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (PCPA, fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol baratoi AMB. Mae'n ofynnol cyflwyno'r AMB cyntaf i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref yn y flwyddyn ar ôl mabwysiadu'r CDLIN (2025), felly mae'r AMB hwn bellach wedi'i baratoi i gyflawni'r gofyniad hwn.

3.2 Mae Atodiad 4 y CDLIN yn nodi'r Fframwaith Monitro a ddefnyddir yn sail i adolygu'r Cynllun. Mae monitro ac adolygu yn swyddogaeth barhaus ac yn agwedd hanfodol ar lunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob Cynllun Datblygu Lleol gynnwys fframwaith monitro, felly mae'r fframwaith hwn wedi'i ddatblygu yn unol â'r gofynion canlynol:

- Mae PCPA 2004 (Adran 61) yn nodi bod yn rhaid i ACLl **barhau i adolygu'r** materion y gellid disgwyl iddynt effeithio ar ddatblygiad ei ardal neu'r broses o gynllunio ei ddatblygiad.
- Yn ôl PCPA 2004 (Adran 76) a Rheoliad 37 y CDLl, rhaid i ACLl gyhoeddi a chyflwyno AMB i Lywodraeth Cymru yn esbonio sut mae amcanion y cynllun yn cael eu cyflawni, neu ddim (erbyn 31 Hydref bob blwyddyn);
- Mae PCPA 2004 (Adran 69(1)) a Rheoliad 41(1) y CDLl, y naill a'r llall, yn nodi bod yn **rhaid i ACLl adolygu ei CDLl cyn pen 4 blynedd** ar ôl dyddiad mabwysiadu'r Cynllun.
- Yn ôl Rheoliad 41 y CDLl, rhaid i'r ACLl gymeradwyo drwy benderfyniad adroddiad ar adolygiad a baratowyd yn unol ag Adran 69(1) a chyn iddo gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru yn unol ag Adran 69(2). Dylid cyflwyno'r '**Adroddiad Adolygu**' (AA) i Lywodraeth Cymru, cyn pen chwe mis ar ôl sbarduno'r broses adolygu; ac
- Mae Rheoliad 17 o'r **Rheoliadau AAS** yn mynnu bod cynlluniau penodol yn cael eu monitro i nodi effeithiau andwyol nas rhagwelwyd a galluogi camau unioni priodol.

3.3 Bydd y fframwaith monitro yn galluogi asesiad parhaus i ganfod a yw amcanion sylfaenol y CDLIN yn parhau i fod yn ddilys, neu a yw'r amgylchiadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol wedi newid yn sylweddol ers paratoi'r cynllun. Yn ei hanfod, bydd y fframwaith monitro yn caniatáu asesiad o weithrediad strategaeth, polisïau a chynigion y CDLIN. Bydd y gwaith monitro yn porthi'r AMB hwn ac yn helpu i lywio adolygiad dilynol o'r cynllun, a gynhelir cyn pen 4 blynedd ar ôl mabwysiadu'r CDLIN.

3.4 Mae'r AMB yn hanfodol i asesu cynnydd y CDLIN a gall gynorthwyo'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) i:

- Nodi polisïau penodol nad ydynt yn llwyddo i gyflawni'r amcan a fwriadwyd;
- Nodi bylchau yn y sylfaen dystiolaeth, efallai drwy newid yn yr economi, y mae angen mynd i'r afael â nhw a'u hadlewyrchu yn y CDLlN;
- Nodi meysydd llwyddiant; ac
- Nodi'r camau y mae'r ACLl yn bwriadu eu cymryd i unioni unrhyw broblemau, er mwyn sicrhau bod y polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus neu unrhyw ddiwygio angenrheidiol.

3.5 Mae'r ACLl wedi cytuno ar set o dargedau a dangosyddion sy'n gweithredu fel meincnod y gellir mesur perfformiad yn ei erbyn. Gall targedau ymwneud â chyflawni lefelau penodol o ddatblygiad a gellir eu gosod yn flynyddol neu ar bwynt interim o fewn cyfnod y cynllun. Y targed ar gyfer y cynllun cyfan yw cyflawni gweithrediad strategaeth y CDLIN.

## 4.0 Methodoleg / Fframwaith Monitro CDLIN

Dangosyddion Monitro

4.1 Mae'r fframwaith monitro yn nodi nifer o ddangosyddion sy'n sail i asesu perfformiad y cynllun. Mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar bolisïau allweddol sy'n hanfodol i gyflawni'r cynllun, fel y tai a gyflenwir, darpariaeth tai fforddiadwy, y defnydd o dir cyflogaeth a darpariaeth Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r fframwaith monitro yn esbonio'n glir pa amcanion, polisïau a chynigion o fewn y cynllun sy'n berthnasol i bob un o'r dangosyddion. Bydd hyn yn golygu bod modd monitro strategaeth gyffredinol y cynllun a'i bolisïau allweddol, lle bo angen.

Targedau

4.2 Ceir targed i gyd-fynd â'r dangosyddion, naill ai ar ffurf targed rhifiadol neu drywydd neilltuol. Ym mhob achos, dyluniwyd y targedau i fod yn benodol, yn fesuradwy ac yn realistig. Yn gyffredinol, cyflwynir y targedau fel rhai rhifiadol (e.e. cartrefi i'w darparu), gofodol (e.e. % twf i haenau anheddiad neilltuol) neu gyd-destunol (e.e. tueddiadau demograffig).

Pwyntiau Sbardun

4.3 Mae'r dangosyddion a'r targedau'n cynnwys pwyntiau sbardun i amlygu sefyllfaoedd lle nad yw'r cynllun yn sicrhau'r canlyniad(au) a ddymunir. Os caiff y sbardunau hyn eu hysgogi, bydd yr AMB yn ystyried y camau sydd angen eu cymryd yn sgil hynny. Ceir nifer o ganlyniadau y gallai'r ACLI weithredu arnynt a byddant yn dibynnu ar y graddau yr ymddengys nad yw'r targed wedi'i gyrraedd a'r angen i weithredu ar agwedd neilltuol ar strategaeth y cynllun, neu bolisi. Bydd pwyntiau sbardun sy'n rhifiadol yn cael eu mesur dros ddwy flynedd yn olynol i sefydlu tueddiadau. Bydd gwybodaeth gyd-destunol hefyd yn cael ei defnyddio yn yr AMB i werthuso ai'r cynllun sydd heb fod yn cyrraedd y targedau, neu a oes ffactorau allanol (fel yr economi neu newidiadau i ffynonellau ariannu, ac ati.) sydd y tu hwnt i reolaeth y system gynllunio.

Camau Monitro

4.4 Os caiff pwyntiau sbardun eu hysgogi, bydd angen ymchwilio i'r rhesymau pam nad yw polisïau neu gynigion yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd ac/neu

pam nad yw'r amcanion yn cael eu cyflawni. Mae'r opsiynau canlynol ar gael i'r ACLI mewn cysylltiad â phob un o'r dangosyddion a'u sbardunau. Bydd yr AMB yn asesu difrifoldeb y sefyllfa sy'n gysylltiedig â phob dangosydd ac yn argymell ymateb priodol. Mae'n debygol y bydd camau cychwynnol dangosol wedi'u cynnwys yn y fframwaith monitro rhwyddineb wrth gyfeirio.

| **Parhau i Fonitro** |
| --- |
| Mae polisïau'r Cynllun Datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol. |
| **Angen Hyfforddiant** |
| Mae polisïau'r Cynllun Datblygu yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd ac mae angen hyfforddiant i Swyddogion neu Aelodau. |
| **Angen Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)** |
| Nid yw polisïau'r Cynllun Datblygu yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd ac mae angen canllawiau pellach, a pharatoi CCA ychwanegol o bosib. |
| **Angen Ymchwiliad / Ymchwil Pellach** |
| Nid yw polisïau'r Cynllun Datblygu yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd ac mae angen ymchwil a/neu ymchwiliad pellach. |
| **Angen Adolygu Polisi** |
| Nid yw polisïau'r Cynllun Datblygu yn cael eu gweithredu ac maent yn methu â chyflawni; efallai y bydd angen adolygiad o'r polisi penodol. |
| **Adolygu'r Cynllun** |
| Nid yw polisïau'r Cynllun Datblygu yn cael eu gweithredu, ac nid yw strategaeth y cynllun yn cael ei chyflawni, gan sbarduno adolygiad ffurfiol cyn yr adolygiad statudol 4 blynedd. |

## 5.0 Newidiadau Cyd-destunol

5.1 Mae canfyddiadau Fframwaith Monitro'r AMB yn hanfodol wrth benderfynu sut mae'r broses o weithredu a chyflawni'r CDLl yn mynd rhagddi. Fodd bynnag, mae hi yr un mor bwysig deall sut mae ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ar raddfa leol, ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol wedi effeithio ar weithrediad y CDLlN. Drwy geisio deall sut mae gwahanol ffactorau wedi effeithio ar gyflawni'r CDLlN, bydd yr ACLl yn cael gwell dealltwriaeth o'r hyn y gall ei wneud i gefnogi gweithrediad y Cynllun. Wrth ganolbwyntio ar y ffactorau hynny, gall ddylanwadu ar gyflawniad ei amcanion a siapio unrhyw strategaeth i'r dyfodol, a chefnogi hynny'n well.

5.2 Mae'r adran ganlynol yn edrych yn benodol ar y ffactorau allanol sydd wedi cael, neu a allai gael, dylanwad ar weithrediad y cynllun, a thrwy hynny, ar ddatblygiad ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau i'r canlynol:

- Polisi a deddfwriaeth;
- Amodau allanol; a'r
- Cyd-destun datblygu lleol.

<u>Polisi a deddfwriaeth</u>

5.3 Drwy'r AMB, mae angen i'r ACLl ystyried a oes unrhyw oblygiadau i'r CDLl yn sgil newidiadau i bolisi cynllunio cenedlaethol. Os yw'r goblygiadau'n sylweddol, bydd angen i'r ACLl benderfynu sut fynd i'r afael â'r materion dan sylw.

- **Bil Cynllunio (Cymru)**:
  - Dogfen dechnegol yw Bil Cynllunio (Cymru) sy'n cydgyfnerthu deddfwriaeth cynllunio bresennol - yn cyfuno Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn un statud dwyieithog ac ynddo strwythur wedi'i foderneiddio a iaith gliriach, sy'n adlewyrchu system gynllunio unedol Cymru. Mae'r effeithiau cyfreithiol yn parhau heb eu newid – nid diwygio polisi yw hwn, ond ymdrech i wneud cyfraith gynllunio yn fwy hygyrch ac yn haws i'w defnyddio.
- **Cynllun Datblygu Strategol (CDS) ar gyfer De-ddwyrain Cymru**:

    - Gwnaed Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) (SI 2021/360) (Rheoliadau 2021) ar 18 Mawrth 2021 a daethant i rym ar y 28 Chwefror 2022. Mae Rheoliadau 2021 yn nodi'r weithdrefn ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu strategol (CDSau). Bwriad y polisi yw cyflwyno dull mwy strategol o greu cynlluniau ar raddfa fwy na CDLlau unigol. O 30 Mehefin 2022 ymlaen, rhoddwyd y cyfrifoldeb i Gydbwyllgor Corfforedig De-ddwyrain Cymru baratoi CDSau Rhanbarthol a Chynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, ac i wneud beth bynnag a dybir yn angenrheidiol i wella neu hyrwyddo llesiant economaidd yr ardal. Er bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi mabwysiadu CDLlN yn ddiweddar, ar yr un pryd bydd yn cydweithio ag awdurdodau cyfagos a Chydbwyllgor Corfforedig De-ddwyrain Cymru i baratoi CDS. I'r perwyl hwn, bydd sylfaen o dystiolaeth ar y cyd hefyd yn cael ei rhannu lle bynnag y bo modd.
- **Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15: Datblygu a Risg Llifogydd:**
    - Mae TAN 15 yn egluro'r polisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru o ran rheoli datblygu mewn perthynas â risg llifogydd. Ei nod craidd yw llywio defnyddiau bregus iawn i ffwrdd oddi wrth ardaloedd lle ceir risg llifogydd, a sicrhau, lle bo angen datblygu, bod risgiau i bobl, eiddo a'r amgylchedd yn cael eu rheoli i raddau derbyniol. Mae TAN 15 yn cymhwyso dull rhagofalus sy'n seiliedig ar risg, gan ddefnyddio parthau risg llifogydd a lwfansau newid hinsawdd, gan fynnu bod awdurdodau lleol yn ymwreiddio ystyriaethau risg llifogydd wrth greu cynlluniau a gwneud penderfyniadau, i gefnogi cymunedau cydnerth a chynaliadwy.
- **Diweddariadau wedi'u targedu i Bolisi Cynllunio Cymru (PCC)**:
    - Mae diweddariadau diweddar i PCC yn cryfhau'r trefniadau i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth mewn datblygiadau newydd. Mae newidiadau allweddol yn cynnwys gofyniad i bob cynnig ddangos budd net i fioamrywiaeth gan ddefnyddio dull cam wrth gam (osgoi, lleihau, lliniaru, gwneud iawn), mesurau diogelwch cryfach ar gyfer safleoedd dynodedig fel SoDdGAau, ac integreiddio seilwaith

gwyrdd, coed a choetiroedd i ddyluniad datblygiadau. Mae'r diweddariadau hefyd yn annog atebion sy'n seiliedig ar natur i gefnogi cydnerthedd ecosystemau, i alinio datblygiad â blaenoriaethau bioamrywiaeth lleol, ac i sicrhau rheolaeth ecolegol hirdymor.

Amodau Allanol

5.4 Dyma'r amodau allanol a fydd yn effeithio ar gyflawni amcanion y CDLIN:

- **Yr Economi**:
    - Mae Adroddiad Economaidd diweddaraf yr OECD (Mehefin 2025) yn nodi y rhagwelir y bydd twf Cynnyrch Domestig Gros (GDP) yn cyrraedd 1.3% yn hanner olaf 2025 cyn arafu i 1.0% yn 2026, wedi'i leddfu gan densiynau masnachu uwch, amodau ariannol llymach, a'r lefel uwch o ansicrwydd. Tyfodd yr economi yn chwarter cyntaf 2025 gan gyrraedd 0.7%, i fyny o 0.1% yn chwarter olaf 2024. Fodd bynnag, mae'r momentwm bellach yn gwanhau. Mae hyder defnyddwyr yn parhau i fod yn isel ac wedi gostwng ers ail hanner 2024, tra bu maint gwerthiannau manwerthu yn anwadal, gyda chynnydd bach ym mis Mawrth. Mae arenillion gilt wedi codi'n sylweddol yn y misoedd diwethaf, sy'n adlewyrchiad rhannol o ddatblygiadau byd-eang. Mae'r farchnad lafur yn parhau i oeri, gan fod y gostyngiad mewn swyddi gwag yn dychwelyd y gymhareb swyddi gwag i ddiweithdra i lefelau cyn y pandemig. Yn sgil cynnydd i'r isafswm cyflog cenedlaethol, i gyfraniadau nawdd cymdeithasol cyflogwyr, ac i filiau cyfleustodau, cadwyd chwyddiant prisiau gwasanaethau yn uchel, ar 5.4% yn y flwyddyn hyd at fis Ebrill, gan gynnal pwysau sylweddol ar brisiau domestig, gyda chwyddiant CPI ar 3.5% dros yr un cyfnod.
- **Yr Argyfwng Newid Hinsawdd a'r Argyfwng Natur:**
    - Mae'r argyfwng newid hinsawdd a'r argyfwng natur yn parhau i fod yn ffactorau cyd-destunol pwysig. Mae Asesiad Risg Newid Hinsawdd diweddaraf y DU yn amlygu cynnydd mewn llifogydd, pwysau ar

adnoddau dŵr, colli bioamrywiaeth, a risg i seilwaith hanfodol a chadwyni cyflenwi fel heriau allweddol sy'n wynebu Cymru a'r DU ehangach.

- Mae potensial hefyd i bolisi a deddfwriaeth genedlaethol sy'n esblygu ar addasu i'r hinsawdd orfodi gofynion llymach neu, mewn rhai achosion, orfodi cyfyngiadau ar ddatblygiad mewn lleoliadau sensitif.
- Fodd bynnag, yr hyn sy'n greiddiol i'r CDLlN yw cydnerthedd. Cafodd y dyraniadau eu profi yn erbyn y Map Llifogydd a gyfer Cynllunio drwy Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol. Mae addasu i'r hinsawdd wedi'i ymgorffori drwy'r holl strategaeth. Mae polisïau'n ceisio creu lleoedd mewn modd cynaliadwy, sicrhau effeithlonrwydd ynni, gwella bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd, gan alinio â TAN 15 i ddiogelu rhag datblygu amhriodol mewn parthau llifogydd risg uchel.
- Er bod risgiau allanol sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd yn cynyddu, ystyrir bod ymagwedd y CDLlN at gydnerthedd ac addasu yn gadarn. Bydd yr ACLl yn parhau i fonitro tystiolaeth amgylcheddol, tueddiadau cadwynau cyflenwi, a newidiadau deddfwriaethol i sicrhau bod dyraniadau'n parhau i fod yn gyflawnadwy, a bod y strategaeth yn cyfrannu at amcanion hinsawdd a natur ehangach.

<u>Cyd-destun Datblygu Lleol</u>

5.5 Nodweddir y cyd-destun datblygu lleol gan y ffactorau canlynol:

- **Statws y Cynllun Datblygu Lleol:**
  - Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ym mis Mawrth 2024. Mae'r Cynllun felly'n seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gymharol ddiweddar, ac mewn sefyllfa gref i gefnogi darpariaeth y gofyniad tai a gyfiawnhawyd dros y cyfnod y mae'n berthnasol iddo.
- **Canllawiau Cynllunio Atodol:**
  - Cafod y *Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) Tai Fforddiadwy* eu mabwysiadu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 25 Mehefin 2025. Pwrpas y canllawiau yw cefnogi a rhoi cyfarwyddyd

pellach ynghylch gweithredu'r polisïau tai fforddiadwy a geir yn y CDLlN mabwysiedig. Maent yn esbonio sut y dylid darparu tai fforddiadwy drwy'r system gynllunio ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd hyn yn rhoi mwy o eglurder i ymgeiswyr cynllunio ac i swyddogion a dylent felly gynorthwyo i gyflawni'r CDLlN.

- Mae drafft y *Canllawiau Cynllunio Atodol Datblygiadau Manwerthu a Masnachol* bellach yn y cyfnod ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus, ac fe'u cyflwynir gerbron y Cyngor i geisio'u mabwysiadu ar 28 Medi 2025. Pwrpas y CCA hyn yw cefnogi a rhoi cyfarwyddyd pellach ynghylch gweithredu'r polisïau datblygu manwerthu a masnachol a geir yn y CDLlN mabwysiedig. Mae'r ddogfen yn rhoi canllawiau pellach ar ddatblygiadau manwerthu a masnachol er mwyn gwarchod bywiogrwydd, atyniad a hyfywedd y canolfannau manwerthu dynodedig, yn unol â'r ymagwedd a amlinellir mewn polisi cynllunio cenedlaethol.
- Mae *drafft y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Gyfleusterau Hamdden Awyr Agored* hefyd yn y cyfnod ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus, a bydd ymgais i'w mabwysiadu erbyn diwedd 2025. Pwrpas y ddogfen yw cefnogi a rhoi cyfarwyddyd pellach ynghylch gweithredu'r polisïau ar gyfer Cyfleusterau Hamdden Awyr Agored a geir yn y CDLl mabwysiedig. Mae'n esbonio sut y dylid darparu cyfleusterau o'r fath drwy'r system gynllunio ledled y Fwrdeistref Sirol.
- Mae *drafft y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Dai Amlfeddiannaeth* yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i ymgeiswyr a swyddogion cynllunio ynghylch sut i ddehongli a chymhwyso Polisi COM7. Mae'r ddogfen yn rhoi mwy o eglurder ynghylch sut i gymhwyso polisi'r CDLlN mabwysiedig ynghylch Tai Amlfeddiannaeth. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, mae'r ddogfen yn y cyfnod cyn ymgynghori â'r cyhoedd, a disgwylir bwrw ymlaen i'w mabwysiadu yn fuan yn 2026.

## 6.0 Dadansoddiad o Ddangosyddion Craidd

6.1 (**Dangosydd 1**) - Mae'r CDLlN yn nodi ac yn gwahaniaethu rhwng cynaliadwyedd lleoedd drwy ddiffinio Hierarchaeth Aneddiadau. Mae maint math y twf a ddosrennir i aneddiadau yn ddibynnol ar eu rolau, eu swyddogaethau a'u safleoedd unigol o fewn yr Hierarchaeth Aneddiadau, er mwyn sicrhau bod mwyafrif y twf wedi'i gyfeirio at ardaloedd sydd eisoes yn elwa ar seilwaith, gwasanaethau a chyfleusterau da, neu lle gellir darparu capasiti ychwanegol. Bydd datblygiad yn cael ei gyfeirio at amgylchoedd sy'n ffafriol i greu lleoedd cynaliadwy, ac sy'n hwyluso cydbwysedd o nodweddion sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, yn economaidd fywiog, ac yn gynhwysol yn gymdeithasol, gyda'r nod o greu budd i drigolion presennol a chenedlaethau'r dyfodol fel ei gilydd. Felly mae creu lleoedd cynaliadwy yn gysyniad cyffredinol sy'n sail i'r CDLlN.  Mae SP2 yn diffinio cyfres o Ddyraniadau Strategol lle cyfeirir twf yn bennaf. Mae lleoliad a graddfa'r safleoedd hyn yn cynnig cyfleoedd am ddatblygiadau newydd sylweddol dros gyfnod y cynllun er mwyn helpu i gyflawni gweledigaeth ac amcanion y CDLlN a sicrhau bod y Strategaeth Adfywio a Thwf Cynaliadwy yn cael ei gweithredu. Bydd datblygu'r safleoedd hyn gyda'i gilydd yn arwain at ddarparu datblygiad preswyl, cyflogaeth a masnachol cynhwysfawr, wrth ddarparu cyfleusterau trafnidiaeth newydd, tai fforddiadwy, cyfleusterau cymunedol, addysg a hamdden newydd i wasanaethu'r safleoedd perthynol a'r cymunedau presennol.

| Amcan: Pob Amcan Strategol (Fframwaith Strategol, Strategaeth Adfywio a Thwf) | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod Polisi: SF1, SP1, SP2** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun** |
| 1: Dosbarthiad gofodol datblygiadau tai | Nifer y tai a gwblheir yn flynyddol i gyd-fynd â'r strategaeth twf a'r hierarchaeth aneddiadau fel y nodir yn Nhabl 7 (Pennod 5). | Amrywiad o 10% o'r dosbarthiad disgwyliedig am o leiaf ddwy flynedd yn olynol. |

| Canlyniad Perfformiad: | |
|---|---|
| **Y flwyddyn flaenorol** | **AMB 2024/25** |
| Amh. | Gweler y tabl a'r dadansoddiad isod |

**Dadansoddiad:**

Er mwyn helpu i greu lleoedd cynaliadwy o ansawdd uchel, mae Polisïau SF1, SP1 ac SP2 yn nodi fframwaith twf strategol yn seiliedig ar hierarchaeth aneddiadau. Mae'r dull hwn yn cyfeirio datblygiad at leoliadau sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu ar gyfer twf – gan flaenoriaethu'r aneddiadau mwyaf sydd â'r mynediad gorau at wasanaethau, cyfleoedd cyflogaeth a chysylltiadau â thrafnidiaeth gynaliadwy. Mae'r polisïau wedi'u cynllunio i sicrhau bod seilwaith a chyfleusterau angenrheidiol i gynnal tai newydd, gan helpu i greu cymunedau cydnerth â chysylltiadau da.

Er mwyn asesu pa mor effeithiol yw'r CDLIN wrth weithredu ei strategaeth gyffredinol, mae'r dangosydd uchod wedi'i ddylunio gan yr ACLI i fesur 'dosbarthiad gofodol' datblygiadau tai. Mae Dangosydd 1 yn monitro dosbarthiad gofodol twf tai yn erbyn yr hierarchaeth aneddiadau a'r strategaeth twf strategol a nodir yn y CDLIN. Y targed yw i nifer y tai a gwblheir yn flynyddol gyd-fynd â'r strategaeth hon, fel yr amlinellir yn Nhabl 7

(Pennod 5), gan sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at y lleoliadau mwyaf cynaliadwy yn unol ag amcanion y cynllun.

| **Ardaloedd Twf** | **Cyfanswm y Ddarpariaeth Tai a Ragwelwyd (2018/19 – 2032/33)** | | **Niferoedd Cronnus a Gwblhawyd (2018/19 – 2024/25)** | | **Cwblhawyd 2023/2024** | | **Cwblhawyd 2024/2025** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **%** | **Rhif** | **%** | **Rhif** | **%** | **Rhif** | **%** | **Rhif** |
| **Ardal Twf Cynaliadwy Pen-y-bont ar Ogwr** | 40.3 | 3,481 | 63.6 | 1,435 | 33.3 | 45 | 19.4 | 24 |
| **Ardal Twf Adfywio Maesteg a Chwm Llynfi** | 11.1 | 954 | 4.7 | 105 | 1.5 | 2 | 1.6 | 2 |
| **Ardal Twf Adfywio Porthcawl** | 13.3 | 1,149 | 11.4 | 257 | 24.4 | 33 | 18.5 | 23 |
| **Ardal Twf Cynaliadwy Pencoed** | 10.3 | 890 | 4.3 | 98 | 8.9 | 12 | 20.2 | 25 |
| **Ardal Twf Cynaliadwy Y Pîl, Mynydd Cynffig a Gogledd Corneli** | 12.8 | 1,102 | 2.9 | 65 | 3.7 | 5 | 0 | 0 |
| **Porth y Cymoedd** | 8.3 | 712 | 11.5 | 260 | 25.2 | 34 | 37.9 | 47 |
| **Aneddiadau Lleol (Y Tu Allan i Ardaloedd Twf)** | 3.9 | 340 | 1.6 | 37 | 3 | 4 | 2.4 | 3 |

Mae'r tabl uchod yn dangos dosbarthiad gofodol y ddarpariaeth tai a ragwelir, ynghyd â'r dosbarthiad gofodol cronnus gwirioneddol ar gyfer cyfnod y cynllun hyd at 31 Mawrth 2025 a ffigurau tebyg ar gyfer 2023/2024 a 2024/2025. Hyd yma, mae'r cyflenwad tai wedi deillio'n bennaf o'r banc tir presennol, sy'n egluro pam mae rhai anghysondebau rhwng y cyflenwad hyd yma a'r dosbarthiad disgwyliedig dros holl gyfnod y CDLl.

| | |
|---|---|
| Disgwylir i'r broblem hon ei datrys ei hun wrth i safleoedd newydd wedi'u dyrannu yn y CDLl ddod yn eu blaen yn y blynyddoedd i ddod. | |
| **Perfformiad:** | |
| **Gweithredu:** | Parhau i fonitro. |

6.2 **(Dangosydd 2, 3a/b-7a/b)** - Yn ôl Polisi SP3, rhaid i bob datblygiad gyfrannu at greu lleoedd cynaliadwy, deniadol o ansawdd uchel sy'n cefnogi bywydau egnïol ac iach ac yn gwella'r gymuned y maent wedi'u lleoli ynddi, gan roi ystyriaeth lawn i'r amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig, drwy ddangos cydymffurfiaeth ag egwyddorion dylunio da, a dangos ymagwedd gynaliadwy at greu lleoedd o ran eu lleoliad, eu dyluniad, eu hadeiladwaith a'u gweithrediad. Mae PLA1 i PLA5 yn manylu ar y gofynion penodol i'r safle ar gyfer y safleoedd datblygu strategol defnydd cymysg mewn Ardaloedd Twf Adfywio ac Ardaloedd Twf Cynaliadwy. Bydd cyflenwi'r safleoedd strategol hyn yn hanfodol er mwyn gwireddu gweledigaeth ac amcanion y CDLlN ar gyfer y fwrdeistref sirol.

| **Amcan: Amcan Strategol 1, 'Creu Lleoedd Cynaliadwy o Ansawdd Uchel (Creu Lleoedd)** | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod Polisi: SP3** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun** |
| 2: Ceisiadau a ganiatawyd yn groes i Bolisi *SP3: Dylunio Da a Chreu Lleoedd Cynaliadwy* | Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau'n groes i Bolisi SP3. | 1 cais wedi'i ganiatáu yn groes i Bolisi SP3 o fewn dwy flynedd yn olynol. |
| **Canlyniad Perfformiad:** | | |

| **Y flwyddyn flaenorol** | **AMB 2024/25** |
|---|---|
| Amh. | 0 |
| **Dadansoddiad:** | |

| | |
|---|---|
| Mae dylunio da yn hanfodol i greu lleoedd cynaliadwy y mae pobl eisiau byw, gweithio a chymdeithasu ynddynt. Fel y pwysleisir yn PCC, 'mae mwy i ddylunio na phensaernïaeth adeilad; mae'n golygu'r berthynas rhwng holl elfennau'r amgylchedd naturiol ac adeiledig a rhwng pobl a lleoedd hefyd'. Wrth gyflawni datblygu cynaliadwy, mae'r CDLIN yn ceisio sicrhau dylunio sy'n mynd y tu hwnt i estheteg i gynnwys agweddau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol datblygu. Felly, er mwyn cyflawni dyluniad da, rhaid i ddatblygiad ystyried sut mae gofod yn cael ei ddefnyddio, sut y gall adeiladau a'r parth cyhoeddus gefnogi'r defnydd hwn a'r berthynas â'r ardal gyfagos.<br><br>Er mwyn monitro a yw datblygiad yn bodloni meini prawf creu lleoedd cynaliadwy o ansawdd uchel, fel y nodir ym Mholisi SP3, mae'r ACLl yn ystyried Dangosydd 2 i sicrhau bod pob datblygiad yn cael ei adeiladu i safon dda sy'n cefnogi iechyd a lles pobl. Ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiadau yn groes i Bolisi SP3 o y CDLIN yn ystod y cyfnod monitro 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025. | |
| **Perfformiad:** | |
| **Gweithredu:** | Parhau i fonitro. |

<table>
<tr><td colspan="3">Amcan: Amcan Strategol 1, 'Creu Lleoedd Cynaliadwy o Ansawdd Uchel (Creu Lleoedd)</td></tr>
<tr><td colspan="3">Cyfeirnod Polisi: SP3</td></tr>
<tr><td colspan="3">PLA1: Ardal Adfywio Glannau Porthcawl, Ardal Twf Adfywio Porthcawl</td></tr>
<tr><td>Dangosydd</td><td>Targed</td><td>Sbardun</td></tr>
<tr><td>3a: Nifer yr anheddau a ddarparwyd.</td><td>Nifer yr anheddau a gwblhawyd yn unol â'r taflwybr tai graddol.</td><td>Nifer yr anheddau a gwblhawyd yn flynyddol yn gostwng islaw'r taflwybr disgwyliedig am ddwy flynedd yn olynol.</td></tr>
<tr><td colspan="3">Canlyniad Perfformiad:</td></tr>
<tr><td>Y flwyddyn flaenorol</td><td colspan="2">AMB 2024/25</td></tr>
<tr><td>Amh.</td><td colspan="2">0</td></tr>
<tr><td colspan="3">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="3">Mae tir ym ar Lannau Porthcawl yn safle datblygu strategol wedi'i ddyrannu yn y CDLIN ar gyfer oddeutu 1,100 o anheddau, y bydd 30% ohonynt yn fforddiadwy. Fe'i dyrannwyd ar gyfer datblygiad defnydd cymysg cynhwysfawr wedi'i arwain gan strategaeth adfywio.<br><br>Ni chwblhawyd unrhyw anheddau newydd yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2025, sy'n cyd-fynd â'r taflwybr tai. Mae uwchgynllun wedi cael ei greu ar gyfer y safle, a'r broses cyn ymgeisio bellach ar y gweill. Disgwylir cais cynllunio yn fuan yn 2026, gyda'r nod o'i gyflwyno i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu ym mis Ebrill 2026. Er nad oes unrhyw anheddau wedi cael eu hadeiladu hyd yma, mae hyn yn dangos cynnydd parhaus o ran dod â'r safle ymlaen i'w ddatblygu.</td></tr>
<tr><td>Perfformiad:</td><td colspan="2"></td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| **Gweithredu:** | Parhau i fonitro |

| | | |
|---|---|---|
| **Amcan: Amcan Strategol 1, 'Creu Lleoedd Cynaliadwy o Ansawdd Uchel (Creu Lleoedd)** | | |
| **Cyfeirnod Polisi: SP3** | | |
| **PLA1: Ardal Adfywio Glannau Porthcawl, Ardal Twf Adfywio Porthcawl** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun** |
| 3b: Gofynion seilwaith ac egwyddorion Creu Lleoedd wedi'u cyflawni. | Gofynion seilwaith ac egwyddorion Creu Lleoedd wedi'u cyflawni yn unol â PLA1. | Seilwaith heb ei gyflawni yn unol â Pholisi PLA1. |

| | |
|---|---|
| **Canlyniad Perfformiad:** | |
| **Y flwyddyn flaenorol** | **AMB 2024/25** |
| Amh. | 0 |

**Dadansoddiad:**

Mae tir yng Nglannau Porthcawl wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygiad defnydd cymysg cynhwysfawr, a arweinir gan strategaeth adfywio. Bydd yn cynnwys ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd un dosbarth mynediad, estyniad bloc pedair ystafell ddosbarth yn yr ysgol gynradd cyfrwng Saesneg bresennol, siop fwyd newydd, cyfleusterau hamdden, terfynfa fysiau, cyfleusterau hamdden, man agored cyhoeddus, ynghyd â chyfleusterau cymunedol a defnyddiau masnachol priodol.

Mae Polisi PLA1 yn nodi nifer o 'egwyddorion creu lleoedd' i lywio datblygiad y safle, gan gynnwys yr angen i greu datblygiad cymysg cynaliadwy sydd wedi'i gysylltu'n dda ac a fydd yn adfywio Porthcawl; anelu am ddatblygiad sy'n canolbwyntio ar drafnidiaeth gyhoeddus sy'n blaenoriaethu cerdded, beicio a defnydd o drafnidiaeth

| | |
|---|---|
| gyhoeddus; creu rhwydwaith o seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol o fewn y safle sy'n hwyluso teithio llesol, yn gwella bioamrywiaeth, yn darparu systemau draenio cynaliadwy ac yn meithrin cymunedau iach; sicrhau bod dyluniad a chynllun y safle yn ystyried y dirwedd o'i amgylch, gan ystyried y rhyngwyneb rhwng y safle, y glannau ac anheddiad ehangach Porthcawl; trefnu adeiladau fel eu bod yn blaenu ar fannau agored a strydoedd, er mwyn gwella cydlyniant, meithrin ymdeimlad cryf o le a sicrhau diogelwch cymunedol; darparu cymysgedd o ddwyseddau uwch ar bwyntiau allweddol yn y cynllun a dwyseddau is ar yr ymylon sensitif; a chydymffurfio â'r egwyddorion a amlinellir yn Strategaeth Creu Lleoedd Porthcawl a briffiau datblygu yn y dyfodol wedi'u cyhoeddi gan y Cyngor.<br><br>Er na chafodd unrhyw anheddau eu darparu, mae terfynfa bysiau'r metro yn ogystal â'r siop fwyd newydd wedi'u cwblhau yn rhan o'r amcanion adfywio ehangach yng nghyffiniau'r safle yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2025. | |
| **Perfformiad:** | |
| **Gweithredu:** | Parhau i fonitro |

<table>
<tr><th colspan="3">Amcan: Amcan Strategol 1, 'Creu Lleoedd Cynaliadwy o Ansawdd Uchel (Creu Lleoedd)</th></tr>
<tr><td colspan="3">Cyfeirnod Polisi: SP3</td></tr>
<tr><td colspan="3">PLA2: Tir i'r De o Ben y bont ar Ogwr (Fferm yr Ynys), Ardal Twf Cynaliadwy Pen y bont ar Ogwr</td></tr>
<tr><td>Dangosydd</td><td>Targed</td><td>Sbardun</td></tr>
<tr><td>4a: Nifer yr anheddau a ddarparwyd.</td><td>Nifer yr anheddau a gwblhawyd yn unol â'r taflwybr tai graddol.</td><td>Nifer yr anheddau a gwblhawyd yn flynyddol yn gostwng islaw'r taflwybr disgwyliedig am ddwy flynedd yn olynol.</td></tr>
<tr><td colspan="3">Canlyniad Perfformiad:</td></tr>
</table>

| Y flwyddyn flaenorol | AMB 2024/25 |
|---|---|
| Amh. | 0 |

<table>
<tr><td colspan="2">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mae tir i'r de o Ben-y-bont ar Ogwr (Fferm yr Ynys) yn safle datblygu strategol wedi'i ddyrannu yn y CDLlN ar gyfer tua 788 o anheddau, y bydd 20% (158) ohonynt yn fforddiadwy. Mae'r safle wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygiad defnydd cymysg a arweinir gan seilwaith gwyrdd.<br><br>Ni chwblhawyd unrhyw anheddau newydd yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2025, sy'n cyd-fynd â'r taflwybr tai. Daeth y safle datblygu hwn i'r farchnad yn chwarter 4 2024/25 a disgwylir cais cynllunio yn ddiweddarach yn 2025/26.</td></tr>
<tr><td>Perfformiad</td><td></td></tr>
<tr><td>Gweithredu:</td><td>Parhau i Fonitro</td></tr>
</table>

| Amcan: Amcan Strategol 1, 'Creu Lleoedd Cynaliadwy o Ansawdd Uchel (Creu Lleoedd) | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod Polisi: SP3** | | |
| **PLA2: Tir i'r De o Ben y bont ar Ogwr (Fferm yr Ynys), Ardal Twf Cynaliadwy Pen y bont ar Ogwr** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun** |
| 4b: Gofynion seilwaith ac egwyddorion Creu Lleoedd wedi'u cyflawni. | Gofynion seilwaith ac egwyddorion Creu Lleoedd wedi'u cyflawni yn unol â PLA1. | Seilwaith heb ei gyflawni yn unol â Pholisi PLA1. |

| Canlyniad Perfformiad: | |
|---|---|
| **Y flwyddyn flaenorol** | **AMB 2024/25** |
| Amh. | 0 |

**Dadansoddiad:**

Mae tir i'r de o Ben-y-bont ar Ogwr (Fferm yr Ynys) wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygiad defnydd cymysg cynhwysfawr a arweinir gan seilwaith gwyrdd, a bydd yn cynnwys un ysgol gynradd newydd un dosbarth mynediad gyda meithrinfa ar yr un safle, adleoli Ysgol Arbennig Heronsbridge, cyfleusterau hamdden, cyfleusterau adloniant, man agored cyhoeddus, ynghyd â chyfleusterau cymunedol priodol, cyflogaeth a defnyddiau masnachol.

Mae Polisi PLA2 yn nodi nifer o 'egwyddorion datblygu uwchgynllun' i lywio datblygiad y safle, gan gynnwys yr angen i greu estyniad trefol defnydd cymysg cynaliadwy, â chysylltiadau da, i Ben-y-bont ar Ogwr, sy'n cynnwys nifer o ardaloedd cymeriad sy'n integreiddio mewn modd cadarnhaol i'r dirwedd bresennol, SINC, plasty cyfagos Merthyr Mawr sydd wedi'i restru'n Radd II*, clystyrau

| | |
|---|---|
| presennol o dai, cyfleusterau cymunedol, rhwydweithiau teithio llesol a chyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus. mynd ar drywydd datblygiad sy'n seiliedig ar systemau trafnidiaeth ac sy'n rhoi'r flaenoriaeth i gerdded, beicio a defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, gan leihau'r ddibyniaeth ar gerbyd modur preifat. creu rhwydwaith seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol o fewn y safle sy'n hwyluso teithio llesol, yn gwella bioamrywiaeth, yn darparu systemau draenio cynaliadwy ac yn meithrin cymunedau iach; mynd ar drywydd datblygiad o ansawdd uchel, wedi'i gynllunio'n dda, yng nghyffiniau'r llinellau trydan uwchben, gan sicrhau bod y tir sydd o dan ac yn agos at lwybr y llinellau'n cael ei ddefnyddio i wneud cyfraniad sylweddol a chadarnhaol at rhwydwaith seilwaith gwyrdd y datblygiad; ymestyn rhwydwaith seilwaith gwyrdd y safle i Gaeau Bontnewydd, gan fanteisio ar lwybr teithio llesol arfaethedig INM-BR-49 a sefydlu 'ysgyfaint gwyrdd' sy'n cysylltu'r safle â Chanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Mawr; sicrhau bod dyluniad a chynllun y safle yn ystyried y dirwedd oddi amgylch, gan leihau'r effaith weledol drwy gynnwys mesurau lliniaru sy'n darparu cysylltiadau â'r dirwedd bresennol a nodweddion mynediad; gosod adeiladau fel eu bod yn blaenu ar fannau agored a strydoedd, er mwyn gwella cydlyniant, meithrin ymdeimlad cryf o le a sicrhau diogelwch cymunedol; a darparu cymysgedd o ddwyseddau uwch mewn mannau allweddol yn y cynllun a dwyseddau is ar yr ymylon gwledig/sensitif.<br><br>Ni ddarparwyd unrhyw anheddau yn ystod cyfnod 1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2025, felly nid oes seilwaith newydd wedi'i osod eto ar gyfer y safle hwn. | |
| **Perfformiad:** | |
| **Gweithredu:** | Parhau i fonitro |

| **Amcan: Amcan Strategol 1, 'Creu Lleoedd Cynaliadwy o Ansawdd Uchel (Creu Lleoedd)** | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod Polisi: SP3** | | |
| **PLA3: Tir i'r Gorllewin o Ben y bont ar Ogwr, Ardal Twf Cynaliadwy Pen y bont ar Ogwr** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun** |
| 5a: Nifer yr anheddau a ddarparwyd. | Nifer yr anheddau a gwblhawyd yn unol â'r taflwybr tai graddol. | Nifer yr anheddau a gwblhawyd yn flynyddol yn gostwng islaw'r taflwybr disgwyliedig am ddwy flynedd yn olynol. |

| **Canlyniad Perfformiad:** | |
|---|---|
| **Y flwyddyn flaenorol** | **AMB 2024/25** |
| Amh. | 0 |
| **Dadansoddiad:** | |

Mae tir i'r gorllewin o Ben-y-bont ar Ogwr yn safle datblygu strategol wedi'i ddyrannu yn y CDLIN ar gyfer tua 850 o anheddau, y bydd 20% (170) ohonynt yn fforddiadwy. Mae'r safle wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygiad preswyl cynhwysfawr a arweinir gan seilwaith gwyrdd.

Ni chwblhawyd unrhyw anheddau newydd yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2025, sy'n cyd-fynd â'r taflwybr tai. Bu ymgysylltu cyn-ymgeisio sylweddol â'r datblygwr, a chynhaliwyd proses Ymgynghori ar Gais Cynllunio yng nghanol 2025. Cyflwynwyd cais cynllunio hybrid ar 13/08/2025 (P/25/507/HYB).

| **Perfformiad:** | |
|---|---|
| **Gweithredu:** | Parhau i fonitro |

| **Amcan: Amcan Strategol 1, 'Creu Lleoedd Cynaliadwy o Ansawdd Uchel (Creu Lleoedd)** | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod Polisi: SP3** | | |
| **PLA3: Tir i'r Gorllewin o Ben y bont ar Ogwr, Ardal Twf Cynaliadwy Pen y bont ar Ogwr** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun** |
| 5b: Gofynion seilwaith ac egwyddorion Creu Lleoedd wedi'u cyflawni. | Gofynion seilwaith ac egwyddorion Creu Lleoedd wedi'u cyflawni yn unol â PLA1. | Seilwaith heb ei gyflawni yn unol â Pholisi PLA1. |
| **Canlyniad Perfformiad:** | | |

| **Y flwyddyn flaenorol** | **AMB 2024/25** |
|---|---|
| Amh. | 0 |

**Dadansoddiad:**

Mae tir i'r gorllewin o Ben-y-bont ar Ogwr wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygiad preswyl cynhwysfawr a arweinir gan seilwaith gwyrdd. Bydd yn cynnwys ysgol gynradd newydd un dosbarth mynediad a hanner, cyfleusterau hamdden, man agored cyhoeddus, ynghyd â chyfleusterau cymunedol priodol, oll wedi'u lleoli o fewn ardaloedd cymeriad arbennig.

Mae Polisi PLA3 yn nodi nifer o 'egwyddorion datblygu uwchgynllun' i lywio datblygiad y safle, gan gynnwys yr angen i greu estyniad trefol defnydd cymysg cynaliadawy, â chysylltiadau da, i Ben-y-bont ar Ogwr, sy'n cynnwys nifer o ardaloedd cymeriad sy'n integreiddio mewn modd cadarnhaol i'r dirwedd bresennol, SINC, Heneb Gofrestredig, clystyrau presennol o dai, cyfleusterau cymunedol, rhwydweithiau teithio llesol a chyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus; mynd ar drywydd datblygiad sy'n seiliedig ar systemau trafnidiaeth ac sy'n rhoi'r flaenoriaeth i gerdded, beicio a defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus,

| |
|---|
| gan leihau'r ddibyniaeth ar gerbyd modur preifat. creu rhwydwaith seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol o fewn y safle sy'n hwyluso teithio llesol, yn gwella bioamrywiaeth, yn darparu systemau draenio cynaliadwy ac yn meithrin cymunedau iach; sicrhau bod dyluniad a chynllun y safle yn ystyried y dirwedd o'i amgylch, gan ystyried y rhyngwyneb rhwng y safle, Pen-y-bont ar Ogwr a Threlales cynnal coridor gwyrdd strategol rhwng y safle a Threlales i gadw hunaniaeth a chymeriad gwahanol yr aneddiadau hyn a'u hatal rhag cyfuno; gosod adeiladau fel eu bod yn blaenu ar fannau agored a creu ffryntiau stryd gweithredol, er mwyn gwella cydlyniant, meithrin ymdeimlad cryf o le a sicrhau diogelwch cymunedol; a darparu cymysgedd o ddwyseddau uwch mewn mannau allweddol yn y cynllun a dwyseddau is ar yr ymylon gwledig/sensitif.<br><br>Ni ddarparwyd unrhyw anheddau yn ystod cyfnod 1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2025, felly nid oes seilwaith newydd wedi'i osod eto ar gyfer y safle hwn. |

| | |
|---|---|
| **Perfformiad:** | |
| **Gweithredu:** | Parhau i fonitro |

| | | |
|---|---|---|
| **Amcan: Amcan Strategol 1, 'Creu Lleoedd Cynaliadwy o Ansawdd Uchel (Creu Lleoedd)** | | |
| **Cyfeirnod Polisi: SP3** | | |
| **PLA4: Tir i'r Dwyrain o Bencoed, Ardal Twf Cynaliadwy Pencoed** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun** |
| 6a: Nifer yr anheddau a ddarparwyd. | Nifer yr anheddau a gwblhawyd yn unol â'r taflwybr tai graddol. | Nifer yr anheddau a gwblhawyd yn flynyddol yn gostwng islaw'r taflwybr disgwyliedig am ddwy flynedd yn olynol. |
| **Canlyniad Perfformiad:** | | |
| **Y flwyddyn flaenorol** | **AMB 2024/25** | |

| | |
|---|---|
| Amh. | 0 |

**Dadansoddiad:**

Mae tir i'r dwyrain o Bencoed wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygiad defnydd cymysg cynhwysfawr. Bydd y safle’n darparu tua 804 o anheddau dros gyfnod y Cynllun, y bydd 20% ohonynt yn fforddiadwy. Wedi'i leoli i'r gogledd-ddwyrain o Ben-y-bont ar Ogwr ac i'r gogledd o draffordd yr M4, mae'r safle'n yn union wrth ymyl y terfyn â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Ni chwblhawyd unrhyw anheddau newydd yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2025, sy'n cyd-fynd â'r taflwybr tai. Bu ymgysylltu helaeth cyn-ymgeisio â'r asiant, mae'r broses Ymgynghori Cyn Ymgeisio wedi'i chwblhau ar gyfer y safle, a chyflwynwyd cais cynllunio amlinellol ar 11/04/2025 (P/25/230/OUT).

| | |
|---|---|
| **Perfformiad:** | |
| **Gweithredu:** | Parhau i fonitro |

**Amcan: Amcan Strategol 1, 'Creu Lleoedd Cynaliadwy o Ansawdd Uchel (Creu Lleoedd)**

**Cyfeirnod Polisi: SP3**

**PLA4: Tir i'r Dwyrain o Bencoed, Ardal Twf Cynaliadwy Pencoed**

| Dangosydd | Targed | Sbardun |
|---|---|---|
| 6b: Gofynion seilwaith ac egwyddorion Creu Lleoedd wedi'u cyflawni. | Gofynion seilwaith ac egwyddorion Creu Lleoedd wedi'u cyflawni yn unol â PLA1. | Seilwaith heb ei gyflawni yn unol â Pholisi PLA1. |

**Canlyniad Perfformiad:**

| Y flwyddyn flaenorol | AMB 2024/25 |
|---|---|
| Amh. | 0 |
| **Dadansoddiad:** | |
| Mae'r Tir i'r dwyrain o Bencoed wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygiad defnydd cymysg cynhwysfawr. Bydd yn cynnwys ysgol gynradd newydd un dosbarth mynediad a hanner, cyfleusterau hamdden, mannau agored cyhoeddus, ynghyd â chyfleusterau cymunedol priodol a defnyddiau masnachol.<br><br>Mae Polisi PLA4 yn nodi nifer o 'egwyddorion datblygu uwchgynllun' i lywio datblygiad y safle, gan gynnwys yr angen i greu estyniad trefol defnydd cymysg cynaliadawy, â chysylltiadau da, i Ben-y-bont ar Ogwr, sy'n cynnwys nifer o ardaloedd cymeriad sy'n integreiddio mewn modd cadarnhaol i'r canol tref presennol, clystyrau presennol o dai, cyfleusterau cymunedol, rhwydweithiau teithio llesol, Parc Technoleg Pencoed, Ysgol Gyfun Pencoed a chyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus; creu rhwydwaith seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol o fewn y safle sy'n hwyluso teithio llesol, gan roi ystyriaeth i'r angen i greu cymunedau iach; mynd ar drywydd datblygiad sy'n seiliedig ar systemau trafnidiaeth ac sy'n rhoi'r flaenoriaeth i gerdded, beicio a defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, gan leihau'r ddibyniaeth ar gerbyd modur preifat. gosod adeiladau fel eu bod yn blaenu ar fannau agored a strydoedd, er mwyn gwella cydlyniant, meithrin ymdeimlad cryf o le a sicrhau diogelwch cymunedol; a darparu cymysgedd o ddwyseddau uwch mewn mannau allweddol yn y cynllun a dwyseddau is ar yr ymylon gwledig/sensitif.<br><br>Ni ddarparwyd unrhyw anheddau yn ystod cyfnod 1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2025, felly nid oes seilwaith newydd wedi'i osod eto ar gyfer y safle hwn. | |
| **Perfformiad:** | |
| **Gweithredu:** | Parhau i fonitro |

| Amcan: Amcan Strategol 1, 'Creu Lleoedd Cynaliadwy o Ansawdd Uchel (Creu Lleoedd) | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod Polisi: SP3** | | |
| **PLA5: Tir i'r Dwyrain o'r Pîl, Ardal Twf Cynaliadwy Y Pîl, Mynydd Cynffig a Gogledd Corneli** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun** |
| 7a: Nifer yr anheddau a ddarparwyd. | Nifer yr anheddau a gwblhawyd yn unol â'r taflwybr tai graddol. | Nifer yr anheddau a gwblhawyd yn flynyddol yn gostwng islaw'r taflwybr disgwyliedig am ddwy flynedd yn olynol. |
| **Canlyniad Perfformiad:** | | |

| Y flwyddyn flaenorol | AMB 2024/25 |
|---|---|
| Amh. | 0 |

**Dadansoddiad:**

Mae'r tir i'r dwyrain o'r Pîl wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygiad defnydd cymysg cynhwysfawr a arweinir gan ddefnydd preswyl. Bydd y safle'n darparu tua 2,003 o anheddau, y bydd 15% (300) ohonynt yn fforddiadwy. Disgwylir i oddeutu hanner y safle ddod yn ei flaen dros gyfnod y Cynllun.

Ni chwblhawyd unrhyw anheddau newydd yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2025, sy'n cyd-fynd â'r taflwybr tai. Mae datblygwr bellach wedi cael ei ddewis yn dilyn ymarfer marchnata trwyadl. Mae trafodaethau cyn ymgeisio wedi cael eu cynnal a disgwylir cais cynllunio yn ddiweddarach yn 2025/26.

| **Perfformiad:** | |
|---|---|
| **Gweithredu:** | Parhau i fonitro |

| **Amcan: Amcan Strategol 1, 'Creu Lleoedd Cynaliadwy o Ansawdd Uchel (Creu Lleoedd)** | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod Polisi: SP3** | | |
| **PLA5: Tir i'r Dwyrain o'r Pîl, Ardal Twf Cynaliadwy Y Pîl, Mynydd Cynffig a Gogledd Corneli** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun** |
| 7b: Gofynion seilwaith ac egwyddorion Creu Lleoedd wedi'u cyflawni. | Gofynion seilwaith ac egwyddorion Creu Lleoedd wedi'u cyflawni yn unol â PLA1. | Seilwaith heb ei gyflawni yn unol â Pholisi PLA1. |

| **Canlyniad Perfformiad:** | |
|---|---|
| **Y flwyddyn flaenorol** | **AMB 2024/25** |
| Amh. | 0 |

**Dadansoddiad:**

Mae'r tir i'r Dwyrain o'r Pîl wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygiad defnydd cymysg cynhwysfawr a arweinir gan ddatblygiad preswyl. Mae'n cynnwys dwy ysgol gynradd 2 ddosbarth mynediad, cyfleusterau hamdden ac adloniant, mannau agored cyhoeddus, ynghyd â chyfleusterau cymunedol priodol a defnyddiau masnachol.

Mae Polisi PLA5 yn nodi nifer o 'egwyddorion datblygu uwchgynllun' i lywio datblygiad y safle, gan gynnwys yr angen i greu estyniad trefol cynaliadawy, â chysylltiadau da, i'r Pîl, Gogledd Corneli a Mynydd Cynffig, sy'n cynnwys nifer o ardaloedd cymeriad sy'n integreiddio mewn modd cadarnhaol i'r canol trefi presennol, clystyrau presennol o dai, cyfleusterau cymunedol, rhwydweithiau teithio llesol, a chyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus; creu rhwydwaith seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol o fewn y safle sy'n

| | |
|---|---|
| hwyluso teithio llesol, gan roi ystyriaeth i'r angen i greu cymunedau iach; sicrhau bod dyluniad a chynllun y safle yn ystyried y dirwedd o'i amgylch, gan ystyried y rhyngwyneb rhwng y safle, ac anheddiad grŵp ehangach y Pîl, Mynydd Cynffig a Gogledd Corneli; mynd ar drywydd datblygiad sy'n seiliedig ar systemau trafnidiaeth ac sy'n rhoi'r flaenoriaeth i gerdded, beicio a defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, gan leihau'r ddibyniaeth ar gerbyd modur preifat. gosod adeiladau fel eu bod yn blaenu ar fannau agored a strydoedd, er mwyn gwella cydlyniant, meithrin ymdeimlad cryf o le a sicrhau diogelwch cymunedol; a darparu cymysgedd o ddwyseddau uwch mewn mannau allweddol yn y cynllun a dwyseddau is ar yr ymylon gwledig/sensitif.<br><br>Ni ddarparwyd unrhyw anheddau yn ystod cyfnod 1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2025, felly nid oes seilwaith newydd wedi'i osod eto ar gyfer y safle hwn. | |
| **Perfformiad:** | |
| **Gweithredu:** | Parhau i fonitro |

6.3 **Dangosydd 8/9 -** Mae Polisi SP4 yn nodi bod yn rhaid i bob cynnig datblygu wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at ymdrin ag achosion y newid hinsawdd, ac ymaddasu i'w effeithiau. Dylid cyfeirio datblygiadau, yn enwedig rhai bregus iawn, oddi wrth ardaloedd risg llifogydd, drwy osgoi datblygiad sy'n cynyddu'r risg o lifogydd ac erydu arfordirol, gan gynnwys drwy ddefnyddio systemau draenio trefol cynaliadwy lle bo'n berthnasol.

| **Amcan: Amcan Strategol 1, 'Creu Lleoedd Cynaliadwy o Ansawdd Uchel (Creu Lleoedd)** | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod Polisi: SP4** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun** |
| 8. Nifer y datblygiadau a ganiateir o fewn ardaloedd Gorlifdir C1 nad ydynt yn bodloni holl brofion TAN 15. | Ni chymeradwyir unrhyw geisiadau o fewn ardaloedd Gorlifdir C1 oni fodlonir holl brofion TAN15. | 1 neu fwy o geisiadau wedi'u caniatáu ar gyfer datblygiad nad yw'n bodloni holl brofion TAN 15 mewn unrhyw flwyddyn. |
| **Canlyniad Perfformiad:** | | |
| **Y flwyddyn flaenorol** | **AMB 2024/25** | |
| Amh. | 0 | |
| **Dadansoddiad:** | | |
| Mae Polisi SP4 yn cydnabod bod llifogydd yn risg sylweddol sy'n gysylltiedig â'r newid hinsawdd, ac yn ceisio sicrhau nad yw datblygiadau newydd yn gwaethygu'r risg honno. Mae maen prawf 7 yn benodol yn cyfeirio datblygiad i ffwrdd o ardaloedd sy'n dueddol o gael llifogydd ac yn mynnu cydymffurfiaeth lem â phrofion risg llifogydd cenedlaethol lle cynigir datblygu o fewn parthau llifogydd C1.<br><br>Ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiadau o fewn ardaloedd gorlifdir C1 yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025. | | |
| **Perfformiad:** | | |
| **Gweithredu:** | Parhau i fonitro | |

<table>
<tr><th colspan="3">Amcan: Amcan Strategol 1, 'Creu Lleoedd Cynaliadwy o Ansawdd Uchel (Creu Lleoedd)</th></tr>
<tr><th colspan="3">Cyfeirnod Polisi: SP4</th></tr>
<tr><th>Dangosydd</th><th>Targed</th><th>Sbardun</th></tr>
<tr><td>9. Graddfa/math o ddatblygiad bregus iawn a ganiateir o fewn ardaloedd risg llifogydd C2.</td><td>Dim ceisiadau perthnasol wedi'u cymeradwyo o fewn ardaloedd risg llifogydd C2.</td><td>1 cais wedi'i ganiatáu am ddatblygiad bregus iawn o fewn Gorlifdir C2 mewn unrhyw flwyddyn.</td></tr>
<tr><th colspan="3">Canlyniad Perfformiad:</th></tr>
<tr><th>Y flwyddyn flaenorol</th><th colspan="2">AMB 2024/25</th></tr>
<tr><td>Amh.</td><td colspan="2">0</td></tr>
<tr><th colspan="3">Dadansoddiad:</th></tr>
<tr><td colspan="3">Yn achos risg llifogydd, bydd y Cyngor yn mabwysiadu dull cynaliadwy o ymdrin â llifogydd drwy geisio osgoi datblygu o fewn ardaloedd risg llifogydd yn unol â Pholisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol.<br><br>Ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiadau o fewn ardaloedd gorlifdir C2 yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025.</td></tr>
<tr><th>Perfformiad:</th><td colspan="2"></td></tr>
<tr><th>Gweithredu:</th><td colspan="2">Parhau i fonitro</td></tr>
</table>

6.4 **Dangosydd 10** – Mae Polisi SP5 yn annog pob datblygiad i ystyried rhwydweithiau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus er mwyn cyfrannu at ddatgarboneiddio a chefnogi twf economaidd. Rhaid lleoli a dylunio pob datblygiad mewn ffordd sy'n lleihau'r angen i deithio, yn lleihau dibyniaeth ar gar preifat ac yn galluogi mynediad cynaliadwy at gyflogaeth, addysg,

gwasanaethau lleol a chyfleusterau cymunedol. Rhaid ystyried lleoliad, graddfa, dwysedd, cymysgedd o ddefnyddiau a dyluniad pob datblygiad mewn modd sy'n lleihau'r galw am drafnidiaeth ac yn cynyddu'r posibilrwydd am opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy.

| **Amcan: Amcan Strategol 1, 'Creu Lleoedd Cynaliadwy o Ansawdd Uchel (Creu Lleoedd)** | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod Polisi: SP5** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun** |
| 10. Ceisiadau a ganiatawyd yn groes i Bolisi *SP5: Trafnidiaeth Gynaliadwy a Hygyrchedd.* | Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau'n groes i Bolisi SP5. | 1 cais wedi'i ganiatáu yn groes i Bolisi SP5 mewn unrhyw flwyddyn. |
| **Canlyniad Perfformiad:** | | |
| **Y flwyddyn flaenorol** | **AMB 2024/25** | |
| Amh. | 0 | |
| **Dadansoddiad:** | | |
| Mae SP5 yn pwysleisio bod symudiad, cysylltedd ac eglurder cysylltiadau trafnidiaeth yn elfennau hanfodol wrth greu lle llwyddiannus a chynaliadwy. Mae rhwydwaith trafnidiaeth effeithlon, integredig sy'n blaenoriaethu trafnidiaeth gynaliadwy yn hanfodol i wneud cyfraniad at ddatgarboneiddio a chefnogi twf economaidd. Mae SP5 yn ei gwneud yn ofynnol i bob cynnig datblygu ystyried gwella a/neu ehangu rhwydweithiau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus cyfatebol.<br><br>Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau cynllunio yn groes i Bolisi SP5 yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025. | | |

| | |
|---|---|
| **Perfformiad:** | |
| **Gweithredu:** | Parhau i fonitro |

6.5 Drwy Bolisi SP6, rhaid i'r CDLl ddarparu cyflenwad o dir priodol a chynaliadwy ar gyfer tai er mwyn sicrhau tai fforddiadwy o ansawdd da, sy'n hanfodol er llesiant ac er mwyn gwella cymunedau'r presennol a'r dyfodol. Mae cyfanswm o 8,628 o gartrefi wedi cael eu nodi i'r diben hwn. Bydd hyn yn cael ei fonitro drwy gydol cyfnod y cynllun gan ddefnyddio'r taflwybr tai i ddangos cyfradd ddisgwyliedig y ddarpariaeth tai ar gyfer y farchnad a thai fforddiadwy, er mwyn sicrhau bod cyflenwa o dir yn cael ei gadw drwy gydol cyfnod y cynllun. Mae Polisi COM2 yn nodi 1,711 o anheddau fforddiadwy dros gyfnod y cynllun. Rhaid i bob datblygiad tai gynnwys cymysgedd o fathau, meintiau a deiliadaethau sy'n cyd-fynd â'r anghenion a nodwyd yn lleol. Nid y CDLlN yw'r unig fecanwaith i fynd i'r afael â'r holl anghenion tai fforddiadwy a nodir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA). Bydd yr angen sy'n weddill yn cael ei fodloni drwy ystod o fecanweithiau eraill, sy'n cynnwys cyllid grant cyfalaf (Grant Tai Cymdeithasol neu fel arall), datblygiadau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wedi'u hunanariannu, cynlluniau prydlesu'r sector preifat, ailddefnyddio cartrefi gwag ac ailgyflunio'r stoc bresennol. Mae Polisi COM3 yn ceisio sicrhau bod datblygiadau preswyl newydd yn darparu lefel briodol o dai fforddiadwy ar y safle er mwyn cyfrannu at y gofyniad tai fforddiadwy a nodir ym Mholisïau SP6 a COM2. Mae strategaeth ofodol wedi cael ei datblygu i gynyddu darpariaeth tai fforddiadwy hyd yr eithaf mewn ardaloedd lle ceir angen mawr am dai.

| **Amcan: Amcan Strategol 2, 'Creu Cymunedau Egnïol, Iach, Cydlynol, Cynhwysol a Chymdeithasol'** | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod Polisi: SP6** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun** |
| 11: Nifer yr anheddau fforddiadwy net ac anheddau'r farchnad a adeiledir yn ardal yr ACLl. | Cyfanswm y gyfradd adeiladu flynyddol o 505 o anheddau y flwyddyn, y mae 114 ohonynt yn unedau tai fforddiadwy. | Darpariaeth sy'n is na chyfradd adeiladu flynyddol/targed adeiladu blynyddol y Cynllun am ddwy flynedd yn olynol o leiaf. |
| **Canlyniad Perfformiad:** | | |

| **Y flwyddyn flaenorol** | **AMB 2024/25** |
|---|---|
| 135 | 124 |

**Dadansoddiad:**

Un o swyddogaethau allweddol Polisi SP6 yw darparu cyflenwad priodol a chynaliadwy o dir ar gyfer tai er mwyn darparu cymunedau rhyng-gysylltiedig a chytbwys sy'n creu sylfaen i unigolion a theuluoedd ffynnu ym mhob agwedd ar eu bywydau. Bydd hyn yn cael ei fonitro drwy daflwybr tai, sy'n offeryn allweddol i ddangos y gyfradd ddisgwyliedig o dai a ddarperir, fel tai'r farchnad a thai fforddiadwy, dros gyfnod y CDLIN. Bydd hyn yn sicrhau bod cyflenwad cyflawnadwy o dir yn cael ei sicrhau a'i gadw i fodloni'r angen am dai.

<u>2023/24</u>:

- 24 o anheddau fforddiadwy wedi'u darparu (cyfradd ddisgwyliedig o 114 y flwyddyn). Yn y flwyddyn hon, roedd nifer yr anheddau a gwblhawyd -90 o anheddau yn is na'r hyn a ragwelwyd (**114 yn ddisgwyliedig vs 24 wedi'u cwblhau**) (-78.95%).

- 111 o anheddau'r farchnad wedi'u darparu (cyfradd ddisgwyliedig o 391 y flwyddyn). Yn y flwyddyn hon,  roedd nifer yr anheddau a gwblhawyd -280 o anheddau yn is na'r hyn a ragwelwyd (**391 yn ddisgwyliedig vs 111 wedi'u cwblhau**) (-71.61%).

- Cyfanswm o 135 o anheddau wedi'u darparu (cyfradd adeiladu ddisgwyliedig o 505 y flwyddyn). Yn y flwyddyn hon, roedd cyfanswm yr anheddau a gwblhawyd mewn gwirionedd -370 o anheddau yn is na'r disgwyl (**505 yn ddisgwyliedig vs 135 wedi'u cwblhau**) (-73.27%).

<u>2024/25</u>:

- 49 o anheddau fforddiadwy wedi'u darparu (cyfradd ddisgwyliedig o 114 y flwyddyn). Yn y flwyddyn hon, roedd nifer yr anheddau a gwblhawyd -65 o anheddau yn is na'r hyn a ragwelwyd (**114 yn ddisgwyliedig vs 49 wedi'u cwblhau**) (-57.02%).

- 75 o anheddau'r farchnad wedi'u darparu (cyfradd ddisgwyliedig o 391 y flwyddyn). Yn y flwyddyn hon,  roedd nifer yr anheddau a gwblhawyd -316 o anheddau yn is na'r hyn a ragwelwyd (**391 yn ddisgwyliedig vs 75 wedi'u cwblhau**) (-80.82%).

- Cyfanswm o 124 o anheddau wedi'u darparu (cyfradd adeiladu ddisgwyliedig o 505 y flwyddyn). Yn y flwyddyn hon, roedd cyfanswm yr anheddau a gwblhawyd mewn gwirionedd -381 o anheddau yn is na'r disgwyl (**505 yn ddisgwyliedig vs 124 wedi'u cwblhau**) (-75.44%).

Mae'r gyfradd darparu tai (ar gyfer anheddau'r farchnad ac anheddau fforddiadwy) ar gyfer y cyfnod monitro yn sylweddol is na'r gyfradd adeiladu flynyddol, fel y dangosir yn y ffigurau a amlinellir uchod. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad bod rhai safleoedd o fewn y banc tir presennol a rhai dyraniadau tai o fewn y CDLIN heb gwblhau tai ar y gyfradd ddisgwyliedig. Mae'r ddarpariaeth felly'n is na'r taflwybr ar hyn o bryd, ond disgwylir i'r sefyllfa hon ei hunioni ei hun yn y blynyddoedd i ddod wrth adeiladu ar safleoedd banc tir presennol ac wrth i ddyraniadau fynd drwy'r camau cynllunio a chyflawni. Mae nifer o'r safleoedd a ddyrannwyd eisoes yn gwneud cynnydd da, gyda cheisiadau cynllunio wedi'u cyflwyno ar gyfer dau safle strategol a chynnydd sylweddol drwy'r broses cyn-ymgeisio ar

| |
|---|
| gyfer y tri safle arall. Yn ogystal, mae ceisiadau wedi cael eu cyflwyno ar gyfer dau ddyraniad tai ym Mhont Rhyd-y-Cyff, mae caniatâd amlinellol wedi'i roi ar Heol Ewenni, Maesteg (gyda chais bellach wedi'i gyflwyno ar gyfer materion a gadwyd yn ôl tan yn ddiweddarach) ac mae trafodaethau cyn-ymgeisio wedi'u cynnal mewn perthynas â Chraig y Parcau, Pen-y-bont ar Ogwr. |

| | |
|---|---|
| **Perfformiad:** | |
| **Gweithredu:** | Parhau i fonitro |

| | | |
|---|---|---|
| **Amcan: Amcan Strategol 2, 'Creu Cymunedau Egnïol, Iach, Cydlynol, Cynhwysol a Chymdeithasol'** | | |
| **Cyfeirnod Polisi: SP6** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun** |
| 12. Monitro lefel flynyddol y tai a gwblheir yn erbyn y Gyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyliedig. | Nifer y tai a gwblhawyd yn flynyddol yn unol â'r CAFDd o fewn y taflwybr tai mabwysiedig. | Y ddarpariaeth yn is na'r CAFDd am ddwy flynedd yn olynol o leiaf. |

| | |
|---|---|
| **Canlyniad Perfformiad:** | |
| **Y flwyddyn flaenorol** | **AMB 2024/25** |
| 135 | 124 |
| **Dadansoddiad:** | |
| Mae'r CAFDd yn cyfeirio at nifer y cartrefi newydd a adeiladir bob blwyddyn, ar ffurf cyfartaledd dros gyfnod y CDLlN. Fe'i defnyddir i asesu a yw'r ddarpariaeth tai yn cadw'n gyson â'r targedau a nodwyd ac yn sail wrth gyfrifo cyflenwadau tir i'r dyfodol.<br><br><u>2023/24 (395 o anheddau oedd yr CAFDd)</u>: | |

- Roedd 135 o anheddau yn cael eu cwblhau'n flynyddol.
- Ceir diffyg blynyddol yn erbyn yr CAFDd yn 2023/2024. Yn y flwyddyn hon mae'r niferoedd a gwblhawyd -260 o anheddau yn is na'r disgwyl (**395 CAFDd vs 135 cwblhau gwirioneddol**) (-65.82%).

2024/25 (219 o anheddau oedd yr CAFDd):

- Roedd 124 o anheddau yn cael eu cwblhau'n flynyddol.
- Ceir diffyg blynyddol yn erbyn yr CAFDd yn 2024/2025. Yn y flwyddyn hon mae'r niferoedd a gwblhawyd -95 o anheddau yn is na'r disgwyl (**219 CAFDd vs 124 wedi'u cwblhau mewn gwirionedd**).

Mae lefel flynyddol y tai a gwblhawyd ar gyfer y cyfnod monitro yn sylweddol is na'r CAFDd, fel y dangosir yn y ffigurau a amlinellir uchod. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith y tai a gwblheir o'r banc tir presennol yn is nag a ddisgwyliwyd hyd yma, a bod nifer o safleoedd a ddyrannwyd yn y CDLIN heb ddod ymlaen i'r datblygu eto. Mae'r ddarpariaeth felly'n is na'r taflwybr ar hyn o bryd, ond disgwylir i'r sefyllfa hon ei hunioni ei hun yn y blynyddoedd i ddod wrth adeiladu ar safleoedd banc tir presennol ac wrth i ddyraniadau fynd drwy'r camau cynllunio a chyflawni. Mae nifer o'r dyraniadau safle eisoes yn gwneud cynnydd da a disgwylir iddynt ddechrau cael eu cyflawni'n fuan.

| | |
|---|---|
| **Perfformiad:** | |
| **Gweithredu:** | Parhau i fonitro |

<table>
<tr><th colspan="6">Amcan: Amcan Strategol 2, 'Creu Cymunedau Egnïol, Iach, Cydlynol, Cynhwysol a Chymdeithasol’</th></tr>
<tr><th colspan="6">Cyfeirnod Polisi: SP6</th></tr>
<tr><th colspan="2">Dangosydd</th><th colspan="2">Targed</th><th colspan="2">Sbardun</th></tr>
<tr><td colspan="2">13: Cyfanswm y niferoedd cronnus a gwblhawyd a gafodd eu monitro yn erbyn y gyfradd gwblhau gronnus ddisgwyliedig.</td><td colspan="2">Cyfanswm y niferoedd cronnus a gwblhawyd yn unol â'r gyfradd gwblhau gronnus ddisgwyliedig o fewn y llwybr tai mabwysiedig.</td><td colspan="2">Cyfanswm y niferoedd cronnus a gwblhawyd yn is na'r gyfradd gwblhau gronnus ddisgwyliedig am ddwy flynedd yn olynol o leiaf.</td></tr>
<tr><th colspan="6">Canlyniad Perfformiad:</th></tr>
<tr><th colspan="3">Y flwyddyn flaenorol</th><th colspan="3">AMB 2024/25</th></tr>
<tr><td colspan="3">2,133</td><td colspan="3">2,257</td></tr>
<tr><th colspan="6">Dadansoddiad:</th></tr>
<tr><td colspan="6">Mae'r niferoedd cronnus a gwblheir yn cyfeirio at gyfanswm yr anheddau a ddarparwyd dros gyfnod y cynllun hyd at 31 Mawrth 2025 (h.y. rhwng 1 Ebrill 2023 - 31 Mawrth 2025).<br><br><u>2023/24</u>:<br>Erbyn 31 Mawrth 2024, rhagwelwyd y byddai'r niferoedd cronnus a gwblhawyd ar 2,393 o anheddau.<br>Erbyn 2023/24, roedd y niferoedd cronnus a gwblhawyd mewn gwirionedd ar 2,133 o anheddau.<br>Yn y flwyddyn hon mae'r niferoedd a gwblhawyd -260 o anheddau yn is na'r disgwyl (2,393 o gwblhadau disgwyliedig vs 2,133 o gwblhadau gwirioneddol) (-10.87%).<br><br><u>2024/25</u>:<br>Erbyn 31 Mawrth 2025, rhagwelwyd y byddai'r niferoedd cronnus a gwblhawyd ar 2,612.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| Erbyn 2024/25, roedd y niferoedd cronnus a gwblhawyd mewn gwirionedd ar 2,257.<br>Yn y flwyddyn hon mae'r niferoedd a gwblhawyd -355 o anheddau yn is na'r disgwyl (**2,612 o gwblhadau disgwyliedig vs 2,257 o gwblhadau gwirioneddol**) (-13.59%).<br><br>Mae cyfanswm cronnus y tai a gwblhawyd yn ystod y cyfnod monitro yn is na'r gyfradd gwblhau gronnus ddisgwyliedig, fel y dangosir yn y ffigurau a amlinellir uchod. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith y tai a gwblheir o'r banc tir presennol yn is nag a ddisgwyliwyd hyd yma, a bod nifer o safleoedd a ddyrannwyd yn y CDLIN heb ddod ymlaen i'r datblygu eto. Mae'r ddarpariaeth felly'n is na'r taflwybr ar hyn o bryd, ond disgwylir i'r sefyllfa hon ei hunioni ei hun yn y blynyddoedd i ddod wrth adeiladu ar safleoedd banc tir presennol ac wrth i ddyraniadau fynd drwy'r camau cynllunio a chyflawni. Mae nifer o'r dyraniadau safle eisoes yn gwneud cynnydd da a disgwylir iddynt ddechrau cael eu cyflawni'n fuan. | |
| **Perfformiad:** | |
| **Gweithredu:** | Parhau i fonitro |

| **Amcan: Amcan Strategol 2, 'Creu Cymunedau Egnïol, Iach, Cydlynol, Cynhwysol a Chymdeithasol'** | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod Polisi: SP6** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun** |
| 14: Lefel y tai fforddiadwy a gwblhawyd wedi'i monitro yn erbyn targed cyffredinol y cynllun. | Nifer y tai fforddiadwy a gwblhawyd bob blwyddyn, a ddarparwyd drwy'r system gynllunio yn unol â'r targed a osodwyd yn SP6 a COM2. | Amrywiad o 10% o'r targed disgwyliedig am o leiaf ddwy flynedd yn olynol, onid yw asesiadau hyfywedd safle-benodol yn dangos tystiolaeth gref o'r angen i wyro o'r polisi fel bo modd darparu'r safle. |

**Canlyniad Perfformiad:**

| **Y flwyddyn flaenorol** | **AMB 2024/25** |
|---|---|
| 24 | 49 |

**Dadansoddiad:**

Y targed cyffredinol ar gyfer darparu tai fforddiadwy dros gyfnod y cynllun yw 1,711 (114 y flwyddyn) o anheddau fforddiadwy fel y nodir ym Mholisïau SP6 a COM2 o'r CDLIN. Mae Polisi SP6 yn cefnogi'r ddarpariaeth hon o dai fforddiadwy fel rhan o'r gofyniad tai cyffredinol, gan gydnabod bod tai fforddiadwy yn hanfodol i greu cymunedau cytbwys a chynaliadwy. Mae'n cynnwys tai rhent cymdeithasol a thai canolradd.

2023/24:
Darparwyd 24 o anheddau fforddiadwy yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2024. Yn y flwyddyn hon, roedd nifer y tai fforddiadwy a gwblhawyd -90 yn is na'r disgwyl (**24 wedi'u cwblhau vs y 114 disgwyliedig**) (-78.95%).

2024/25:

Darparwyd 49 o anheddau fforddiadwy yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025. Yn y flwyddyn hon, roedd nifer y tai fforddiadwy a gwblhawyd -65 yn is na'r disgwyl (**49 wedi'u cwblhau vs y 114 disgwyliedig**) (-57.02%).

Cyfanswm y tai fforddiadwy a gwblhawyd ar gyfer cyfnod y cynllun:
Ar hyn o bryd, mae cyfanswm o 536 o anheddau fforddiadwy wedi cael eu cwblhau yn ystod y saith mlynedd cyntaf yng nghyfnod y cynllun o gymharu â rhagamcan o 798 o anheddau. Mae hyn yn gadael diffyg o -262 (**536 wedi'u cwblhau vs y 798 disgwyliedig**) (-32.8%).

Mae lefel y tai fforddiadwy a gwblhawyd yn is na'r nifer disgwyliedig a gyflawnwyd ar 31 Mawrth 2025, fel y dangosir yn y ffigurau a amlinellir uchod. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith y tai a gwblheir o'r banc tir presennol yn is nag a ddisgwyliwyd hyd yma, a bod nifer o safleoedd a ddyrannwyd yn y CDLIN heb ddod ymlaen i'r datblygu eto. Felly mae'r ddarpariaeth ar hyn o bryd yn is na'r taflwybr, ond disgwylir i'r sefyllfa hon ei hunioni ei hun yn y blynyddoedd i ddod wrth adeiladu ar safleoedd banc tir presennol ac wrth i'r dyraniadau hyn fynd drwy'r camau cynllunio a chyflawni. Mae nifer o'r dyraniadau safle eisoes yn gwneud cynnydd da a disgwylir iddynt ddechrau cael eu cyflawni'n fuan.

| | |
|---|---|
| **Perfformiad:** | |
| **Gweithredu:** | Parhau i fonitro |

| **Amcan: Amcan Strategol 2, 'Creu Cymunedau Egnïol, Iach, Cydlynol, Cynhwysol a Chymdeithasol'** | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod Polisi: SP6, COM2** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun** |
| 15: Deiliadaeth y tai fforddiadwy a gwblheir | Bydd deiliadaeth y tai fforddiadwy a gwblheir yn flynyddol yn unol â'r angen a nodwyd yn fersiwn ddiweddaraf yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol | Mae'r tai fforddiadwy a gwblhawyd yn gwyro oddi wrth yr ymraniad deiliadaethau a nodwyd yn fersiwn ddiweddaraf yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol am ddwy flynedd yn olynol o leiaf. |
| **Canlyniad Perfformiad:** | | |
| **Y flwyddyn flaenorol** | **AMB 2024/25** | |
| Cymdeithasol = 24<br>Canolradd = 0 | Cymdeithasol = 39<br>Canolradd = 10 | |
| **Dadansoddiad:** | | |

Mae Polisi SP6 yn gosod targed ar gyfer nifer y tai fforddiadwy sydd i'w darparu dros gyfnod y CDLl. Mae darpariaeth tai fforddiadwy yn rhan annatod o'r gofyniad tai cyffredinol, sy'n cynnwys cyfanswm o 1,711 o anheddau fforddiadwy. Mae sicrhau cydbwysedd priodol ac integredig o ddeiliadaethau yn hanfodol er mwyn meithrin cymunedau cynaliadwy ac mae'r CDLlN yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi teuluoedd sy'n gallu ac yn methu â chael mynediad at dai drwy'r farchnad. Mae tai fforddiadwy yn cynnwys tai **rhent cymdeithasol** a ddarperir gan awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn unol â Safon Rhent Llywodraeth Cymru, a thai **canolradd**, sydd wedi'u prisio rhwng rhent cymdeithasol a thai'r farchnad.

Mae'r Cyngor wedi paratoi fersiwn wedi'i diweddaru o'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA), a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2024. Cyfrifodd yr

LHMA hwn fod angen cyfanswm o 2,834 o gartrefi fforddiadwy dros 15 mlynedd yr LHMA, gan gynnwys 1,548 o anheddau rhent cymdeithasol a 1,286 o anheddau canolradd. Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio na ddylid ystyried yr angen hwn a nodwyd fel targed o ran darparu, nac ychwaith fel yr ateb i broblemau fforddiadwyedd o fewn y fwrdeistref sirol. Yn hytrach, mae'r ffigur yn dangos maint yr angen am dai o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, a bydd y Cyngor yn ceisio mynd i'r afael â hyn drwy ystod o ymyriadau'r farchnad, hyd y bo'n ymarferol bosib. Mae'r CDLIN yn un ffynhonnell i gyflenwi tai, ond nid dyma'r unig ateb. Mae ffynonellau cyflenwi eraill yn cynnwys Grant Tai Cymdeithasol a chyllid grant cyfalaf arall, cyfraniadau cynllunio, cynlluniau a ariennir gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, ailgyflunio stoc, asiantaethau gosod tai cymdeithasol, cynlluniau prydlesu'r sector preifat ac ailddefnyddio cartrefi gwag, ymhlith eraill. Dangosir y tai fforddiadwy a ddarparwyd drwy'r system gynllunio ar gyfer cyfnod monitro CDLIN yn y tabl isod, yn ôl deiliadaeth:

| Deiliadaeth | 2023-2024 | 2024-2025 | 2018-2025 (Cyfanswm cronnus, holl gyfnod y cynllun) |
|---|---|---|---|
| **Rhent cymdeithasol** | 24 | 39 | 501 |
| **Canolradd** | 0 | 10 | 35 |
| **Cyfanswm (pob deiliadaeth)** | 24 | 49 | 536 |

O ran deiliadaeth, mae'r tai fforddiadwy a gwblhawyd yn flynyddol yn 2023/24, 2024/25 ac yn gronnus hyd yma wedi tueddu i fod yn dai rhent cymdeithasol. Disgwylir i fwy o dai fforddiadwy a chydbwysedd mwy cyfartal o ddeiliadaethau ddod yn eu blaen wrth i ddyraniadau fynd rhagddynt mewn ymateb i dystiolaeth ddiweddaraf yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol ar y pryd.

Fel cyfanswm, mae'r ddarpariaeth gyffredinol yn adlewyrchu tan-ddarpariaeth gyffredinol o dai yn ystod cyfnod y cynllun cyfredol hyd yma, ac mae'n gyson â thueddiadau a welwyd mewn mannau eraill, ac yn dangos dylanwad heriau economaidd ehangach. Fodd bynnag, wrth i ddyraniadau safleoedd fynd rhagddynt a datblygiadau mwy ddod yn eu blaen,

| | |
|---|---|
| disgwylir i gyfraddau cyflawni gynyddu'n sylweddol. O ganlyniad i hynny, rhagwelir y bydd yr ystod ddeiliadaethau'r tai fforddiadwy a ddarperir yn cyd-fynd yn agosach â'r anghenion a nodwyd yn y blynyddoedd i ddod. | |
| **Perfformiad:** | |
| **Gweithredu:** | Parhau i fonitro |

| | | |
|---|---|---|
| **Amcan: Amcan Strategol 2, 'Creu Cymunedau Egnïol, Iach, Cydlynol, Cynhwysol a Chymdeithasol'** | | |
| **Cyfeirnod Polisi: SP6, COM2, COM3** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun** |
| 16: Cyflawni'r polisi tai fforddiadwy - trothwyon a thargedau canrannol ar gyfer pob ardal is-farchnad. | Nifer y tai fforddiadwy a gwblheir yn flynyddol y cyd-fynd â thargedau a throthwyon polisi a ddiffinnir yn COM3 a PLA1-5. | Amrywiad o 10% o'r targed disgwyliedig am o leiaf ddwy flynedd yn olynol, onid yw asesiadau hyfywedd safle-benodol yn dangos tystiolaeth gref o'r angen i wyro o'r polisi fel bo modd darparu'r safle. |
| **Canlyniad Perfformiad:** | | |

| | |
|---|---|
| **Y flwyddyn flaenorol** | **AMB 2024/25** |
| Gweler isod | Gweler isod |
| **Dadansoddiad:** | |
| Mae Polisi COM3 yn nodi'r gofynion tai fforddiadwy ar-safle ar draws y fwrdeistref sirol. Mae'n sefydlu trothwyon canrannol targed ar gyfer darparu tai fforddiadwy. Mae'r polisi'n berthnasol i gynigion o fewn ffiniau aneddiadau sy'n arwain at enillion net o ddeg annedd neu fwy, gan gynnwys lle bo datblygiadau cyfagos gyda'i gilydd yn bodloni'r trothwy hwn. | |

Mae COM3 yn ceisio darparu tai rhent cymdeithasol a thai canolradd, wedi'u llywio gan yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA), er mwyn sicrhau bod math, maint a deiliadaeth tai fforddiadwy yn diwallu anghenion a nodwyd yn lleol. Mae'r polisi'n chwarae rhan allweddol er mwyn cynyddu darpariaeth tai fforddiadwy hyd yr eithaf lle bo hynny'n ddichonadwy, ar safleoedd wedi'u dyrannu a hefyd ar hap-safleoedd.

Nodir y targedau canrannol ar gyfer pob ardal marchnad dai ym Mholisi *COM3: Darparu Tai FfoFforddiadwy-safle* fel a ganlyn:

- Porthcawl – **30%** o gyfraniad tai fforddiadwy
- Pencoed –**15%** o gyfraniad tai fforddiadwy
- Pen-y-bont ar Ogwr –**15%** cyfraniad tai fforddiadwy
- Y Pîl, Mynydd Cynffig a Gogledd Corneli – **0%** o gyfraniad tai fforddiadwy
- Porth y Cymoedd –**10%** o gyfraniad tai fforddiadwy
- Maesteg a Chwm Llynfi –**0%** o gyfraniad tai fforddiadwy
- Cymoedd Ogwr a Garw –**0%** o gyfraniad tai fforddiadwy

Ym mhob achos, targedau polisi gofynnol yw'r rhain a gellir cynyddu'r ddarpariaeth tai fforddiadwy ar y safle os ceir cyllid grant i gefnogi hynny, er enghraifft. Ceir targedau polisi safle-benodol ar gyfer safleoedd strategol a dyraniadau tai hefyd, a ddadansoddir mewn AMBau yn y dyfodol pan ddaw'r dyraniadau hyn yn eu blaenau.

Dadansoddiad

Mae'r tabl yn dangos yr holl safleoedd sy'n gymwys i ddarparu tai fforddiadwy yr adeiladwyd arnynt yn ystod y cyfnod monitro. Mae'n manylu hefyd ar ganran y tai fforddiadwy a sicrhawyd drwy a106 mewn perthynas â gofynion Polisi COM3, ac a yw'r anheddau fforddiadwy hynny wedi'u darparu'n llawn.

Safleoedd a adeiladwyd yn llawn yn 2023/24 a 2024/25:

| Rhif y Cais | Enw'r Safle | Ardal Marchnad Dai | Gofyniad Polisi Fforddiadwy yn unol â Pholisi COM3 (%) | Tai Fforddiadwy wedi'u Sicrhau (drwy adran 106)<br><br>(% a nifer) | Tai Fforddiadwy a Ddarparwyd (ar ôl adeiladu ar y safle, % a nifer) |
|---|---|---|---|---|---|
| P/20/263/FUL | Hen Ysgol Sant Ioan, Y Drenewydd yn Notais, Porthcawl | Porthcawl | 30% | 30% (8 ar y safle a 9 drwy swm cymudedig) | 8 ar y safle a thalu am 9 drwy swm cymudedig (30%) |
| P/18/1006/FUL | Ysgol Bryn Castell (Cam 2) | Pen-y-bont ar Ogwr | 15% | 20% (swm cymudedig sy'n hafal i 25 o anheddau) | 25 o anheddau drwy swm cymudedig (20%) |
| P/20/214/FUL | Hen Glwb Cymdeithasol RAOB Pencoed | Pencoed | 15% | 20% (o leiaf 5 annedd ar y safle) | 24 (100%) |
| P/96/752/OUT | Tir i'r De o Heol Hendre | Pencoed | 15% | 0% (annichonadwy) | 0 (0%) |
| P/22/115/FUL | Hen Iard yr Orsaf, Hen Garej MOT | Porthcawl | 30% | 30% (o leiaf 6 annedd ar y safle) | 20 (100%) |
| P/04/252/FUL | Cwrt Ty Mawr, Heol y Gogledd, Cwm Ogwr | Cwm Ogwr | 0% | 0% | 0 (0%) |
| P/20/99/FUL | Capel y Drindod, Heol | Pencoed | 15% | 20% (o leiaf 2 uned ar y safle) | 12 (100%) |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Penybont, Pencoed | | | | |
| P/78/0125 (adnewyddwyd fel 80/180) | Heol Dewi Sant (y tu ôl i), Betws | Cwm Garw | 0% | 0% | 0 (0%) |

Roedd pob safle ond un (ar sail tystiolaeth wedi'i gwirio ynghylch hyfywedd) wedi bodloni neu ragori ar ofyniad llawn y polisi tai fforddiadwy, sy'n ganlyniad cadarnhaol iawn. Dylid nodi y penderfynwyd ynghylch y ceisiadau hyn o dan bolisïau'r CDLl blaenorol, cyn i'r polisi presennol gael ei fabwysiadu ym mis Mawrth 2024. Disgwyliwyd ychydig o wyro oddi wrth y polisi erioed, gan fod gofynion tai fforddiadwy wedi cael eu diweddaru ers hynny yn y CDLlN mabwysiedig.

Wrth edrych i'r dyfodol, disgwylir y bydd cynlluniau a gwblheir yn y blynyddoedd monitro nesaf yn adlewyrchu gofynion polisi'r CDLlN sydd wedi'i ddiweddaru. Rhoddir crynodeb isod o dai a gwblhawyd fesul is-ardal marchnad

Porthcawl – **30%** o gyfraniad tai fforddiadwy

Adeiladwyd dau ddatblygiad (lle bo'n ofynnol darparu tai fforddiadwy) yn ystod y cyfnod monitro ac roedd y ddau'n bodloni'r gofyniad polisi lleiaf, gydag un (cynllun dan arweiniad Landlord Cymdeithasol Cofrestredig) yn darparu 100% o dai fforddiadwy.

Pencoed –**15%** o gyfraniad tai fforddiadwy

Adeiladwyd tri datblygiad (lle bo'n ofynnol darparu tai fforddiadwy) yn ystod y cyfnod monitro. Darparodd dau (cynlluniau dan arweiniad Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig) 100% o dai fforddiadwy, tra'r oedd un heb ddarparu unrhyw dai fforddiadwy oherwydd ystyriaethau hyfywedd a aseswyd yng ngham y cais cynllunio.

Pen-y-bont ar Ogwr –**15%** o gyfraniad tai fforddiadwy

Adeiladwyd un datblygiad (lle bo'n ofynnol darparu tai fforddiadwy) yn ystod y cyfnod monitro, a oedd yn fwy na'r gofyniad polisi, drwy ddarparu swm cymudedig a dalwyd gan y datblygwr.


Y Pîl, Mynydd Cynffig a Gogledd Corneli – **0%** o gyfraniad tai fforddiadwy

| | |
|---|---|
| Ni adeiladwyd unrhyw ddatblygiadau lle bo'n ofynnol darparu tai fforddiadwy yn ystod y cyfnod monitro yn yr ardal marchnad dai hon.<br><br><u>Porth y Cymoedd –**10%** o gyfraniad tai fforddiadwy</u><br>Ni adeiladwyd unrhyw ddatblygiadau lle bo'n ofynnol darparu tai fforddiadwy yn ystod y cyfnod monitro yn yr ardal marchnad dai hon.<br><br><u>Maesteg a Chwm Llynfi –**0%** o gyfraniad tai fforddiadwy</u><br>Ni adeiladwyd unrhyw ddatblygiadau lle bo'n ofynnol darparu tai fforddiadwy yn ystod y cyfnod monitro yn yr ardal marchnad dai hon.<br><br><u>Cymoedd Ogwr a Garw –**0%** o gyfraniad tai fforddiadwy</u><br>Adeiladwyd dau ddatblygiad yn ystod y cyfnod monitro yn yr ardal hon, a bodlonodd y ddau ohonynt ofynion y polisi, er na ddarparwyd unrhyw dai fforddiadwy. | |
| **Perfformiad:** | |
| **Gweithredu:** | Parhau i fonitro |

Cymariaethau Data Taflwybrau Tai


Mae Ffigur 1 isod yn dangos y Taflwybr Tai ar adeg cyhoeddi'r CDLIN.

## Ffigur 1. Graff y Taflwybr Datblygu Tai Gwreiddiol 2018 - 2033



Er cymhariaeth, mae Ffigur 2 isod yn dangos yr un graff taflwybr fel y'i diwygiwyd i ddangos cynnydd gwirioneddol ar ddiwedd 2024/2025.

### Ffigur 2. Taflwybr Datblygu Tai wedi'i Ddiweddaru, (Diweddariad 2024/25)



Cyfradd Adeiladu Flynyddol Disgwyliedig – Cymharu'r Data

### Tabl 1. Cyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyliedig wrth Fabwysiadu'r CDLIN

| Blwyddyn y CDLl | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 | 24/25 | 25/26 | 26/27 | 27/28 | 28/29 | 29/30 | 30/31 | 31/32 | 32/33 |
| Blynyddoedd sy'n weddill | 15 | 14 | 13 | 12 | 11 | 10 | 9 | 8 | 7 | 6 | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 |
| Cyfanswm y Ddarpariaeth Tai | 8628 | 8628 | 8628 | 8628 | 8628 | 8628 | 8628 | 8628 | 8628 | 8628 | 8628 | 8628 | 8628 | 8628 | 8628 |
| Cyfanswm gofyniad tai'r CDLl | 7575 | 7575 | 7575 | 7575 | 7575 | 7575 | 7575 | 7575 | 7575 | 7575 | 7575 | 7575 | 7575 | 7575 | 7575 |
| Nifer gwirioneddol a gwblhawyd ar safleoedd mawr yn ystod y flwyddyn | 521 | 423 | 296 | 195 | 298 | | | | | | | | | | |
| Nifer gwirioneddol a gwblhawyd ar safleoedd bach yn ystod y flwyddyn | 58 | 54 | 50 | 53 | 50 | | | | | | | | | | |
| Cwblhau disgwyliedig ar safleoedd dyranedig yn ystod y flwyddyn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 70 | 235 | 582 | 793 | 712 | 635 | 610 | 610 | 610 |
| Cwblhau disgwyliedig banc tir yn ystod y flwyddyn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 408 | 128 | 60 | 60 | 60 | 60 | 25 | 0 | 0 | 0 |
| Cwblhau disgwyliedig ar hap-safleoedd mawr yn ystod y flwyddyn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 44 | 44 | 44 | 44 | 44 | 44 | 44 | 44 |
| Cwblhau disgwyliedig ar hap-safleoedd bach yn ystod y flwyddyn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 62 | 62 | 62 | 62 | 62 | 62 | 62 | 62 | 62 | 62 |
| **Cyfanswm a gwblhawyd** | **579** | **477** | **346** | **248** | **348** | **470** | **260** | **401** | **748** | **959** | **878** | **766** | **716** | **716** | **716** |
| Blynyddol Disgwyliedig Cyfradd Adeiladu | | | | | 0 | 395 | 219 | 337 | 629 | 807 | 739 | 644 | 602 | 602 | 602 |
| Cyfanswm y cwblhadau cronnus a ragwelir | 579 | 1056 | 1402 | 1650 | 1998 | 2393 | 2612 | 2949 | 3579 | 4385 | 5124 | 5768 | 6370 | 6973 | 7575 |
| Tai sy'n weddill i'w cwblhau | 6996 | 6519 | 6173 | 5925 | 5577 | 5182 | 4963 | 4626 | 3996 | 3190 | 2451 | 1807 | 1205 | 602 | 0 |

## Tabl 2. Cyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyliedig, Diweddarwyd 2024/25

| Blwyddyn y CDLl | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 | 24/25 | 25/26 | 26/27 | 27/28 | 28/29 | 29/30 | 30/31 | 31/32 | 32/33 |
| Blynyddoedd sy'n weddill | 15 | 14 | 13 | 12 | 11 | 10 | 9 | 8 | 7 | 6 | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 |
| Cyfanswm y Ddarpariaeth Tai | 8628 | 8628 | 8628 | 8628 | 8628 | 8628 | 8628 | 8628 | 8628 | 8628 | 8628 | 8628 | 8628 | 8628 | 8628 |
| Cyfanswm gofyniad tai'r CDLl | 7575 | 7575 | 7575 | 7575 | 7575 | 7575 | 7575 | 7575 | 7575 | 7575 | 7575 | 7575 | 7575 | 7575 | 7575 |
| Nifer gwirioneddol a gwblhawyd ar safleoedd mawr yn ystod y flwyddyn | 521 | 423 | 296 | 195 | 298 | 123 | 111 | | | | | | | | |
| Nifer gwirioneddol a gwblhawyd ar safleoedd bach yn ystod y flwyddyn | 58 | 54 | 50 | 53 | 50 | 12 | 13 | | | | | | | | |
| Cwblhau disgwyliedig ar safleoedd dyranedig yn ystod y flwyddyn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 95 | 567 | 808 | 757 | 675 | 635 | 610 | 610 |
| Cwblhau disgwyliedig banc tir yn ystod y flwyddyn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 381 | 60 | 60 | 60 | 66 | 0 | 0 | 0 |
| Cwblhau disgwyliedig ar hap-safleoedd mawr yn ystod y flwyddyn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 44 | 44 | 44 | 44 | 44 | 44 |
| Cwblhau disgwyliedig ar hap-safleoedd bach yn ystod y flwyddyn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 62 | 62 | 62 | 62 | 62 | 62 | 62 | 62 |
| **Cyfanswm a gwblhawyd** | **579** | **477** | **346** | **248** | **348** | **135** | **124** | **538** | **689** | **974** | **923** | **847** | **741** | **716** | **716** |
| Blynyddol Disgwyliedig Cyfradd Adeiladu o'r CDLlN Mabwysiedig | | | | | | 395 | 219 | 337 | 629 | 807 | 739 | 644 | 602 | 602 | 602 |

6.6 Mae'r data monitro diweddaraf yn dangos bod yr CAFDd ar hyn o bryd yn is na'r lefel a ddisgwyliwyd yn wreiddiol yn y CDLl mabwysiedig. Mae hyn yn bennaf yn adlewyrchu'r ffaith nad yw'r safleoedd i'w cwblhau o'r banc tir presennol wedi dod ymlaen mor gyflym â'r disgwyl. Fodd bynnag, bydd y safleoedd hynny'n dod yn eu blaen yn y tymor byr, ac mae gwaith wedi dechrau ar fwyafrif y safleoedd, neu i fod i ddechrau'n fuan.

6.7 Er bod y taflwybr byrdymor yn dangos lefel is o ddarpariaeth na'r disgwyl, nid yw hyn yn destun pryder ar hyn o bryd. Mae'r banc tir yn parhau i ddarparu lefel gyson o anheddau wedi'u cwblhau, a rhagwelir y bydd y niferoedd hyn yn cynyddu yn y blynyddoedd nesaf wrth i safleoedd banc tir fynd drwy'r broses ddatblygu. Bydd anheddau a gwblheir wrth i safleoedd a ddyrannwyd ddod yn eu blaen a chyfrannu at y cyfenwad hefyd yn cryfhau'r taflwybr. Mae cynnydd da yn cael ei wneud ar amryw o'r dyraniadau, a disgwylir iddynt ddechrau darparu anheddau yn y tymor byr.

6.8 I grynhoi, er bod y ddarpariaeth ar hyn o bryd yn is na'r taflwybr mabwysiedig, nid yw hyn yn arwydd o broblem sylfaenol yn strategaeth y cynllun. Mae'r cyfraniad a ddisgwylir yn y dyfodol o ymrwymiadau presennol a safleoedd wedi'u dyrannu yn rhoi hyder y bydd y ddarpariaeth yn adennill tir dros gyfnod y cynllun, ac nad oes angen unrhyw ymyriad penodol ar hyn o bryd y tu hwnt i fonitro parhaus.

| Amcan: Amcan Strategol 2, 'Creu Cymunedau Egnïol, Iach, Cydlynol, Cynhwysol a Chymdeithasol' | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod Polisi: SP6** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun** |
| 17: Hyfywedd – tueddiadau mewn prisiau tai, gwerthoedd tir, costau adeiladu. | Dim targed. | Dim pwynt sbarduno. |

| Canlyniad Perfformiad: | |
|---|---|
| **Y flwyddyn flaenorol** | **AMB 2024/25** |
| Gweler isod | Gweler isod |

**Dadansoddiad:**

Dangosir isod y prisiau tai cyfartalog canolrifol a delir ym mhob ardal ledled y fwrdeistref sirol. Mae'r cyfartaleddau hyn yn deillio o Ddata Pris a Dalwyd y Gofrestrfa Tir.

Prisiau Tai

**2023/2024:**

Pen-y-bont ar Ogwr a'r Cyffiniau - £220,000
Cwm Garw - £110,000
Cwm Llynfi - £121,000
Cwm Ogwr – £119,975
Pencoed a Heol y Cyw - £215,000
Porthcawl - £323,500
Y Pîl, Cynffig a Chorneli - £166,500
Porth y Cymoedd - £181,000
**Cyfartaledd cyffredinol – £173,750**

**2024/2025:**

Pen-y-bont ar Ogwr a'r Cyffiniau - £226,000

Cwm Garw - £113,000

Cwm Llynfi - £125,000

Cwm Ogwr – £118,000

Pencoed a Heol y Cyw - £225,000

Porthcawl - £310,000

Y Pîl, Cynffig a Chorneli - £179,975

Porth y Cymoedd - £189,995

**Cyfartaledd cyffredinol – £184,985**

Premiwm Adeilad Newydd yn y Fwrdeistref Sirol

| Ardal y Farchnad Dai | Pris Canolrifol ar gyfer Adeilad nad yw'n Newydd (23/24 – 24/25) | Pris Canolrifol Adeilad Newydd (23/24 – 24/25) | Pris Canolrifol Cyffredinol (23/24 – 24/25) |
|---|---|---|---|
| Pen-y-bont ar Ogwr a'r Cyffiniau | £222,000 (1,463) | £278,495 (84) | £250,2478 |
| Cwm Garw | £112,000 (183) | Amh. (0) | £112,000 |
| Cwm Llynfi | £120,000 (485) | £201,000 (12) | £160,500 |
| Cwm Ogwr | £118,000 (227) | £260,000 (2) | £189,000 |
| Pencoed a Heol Y Cyw | £220,000 (252) | Amh. (0) | £220,000 |
| Porthcawl | £310,000 (511) | £490,498 (34) | £400,249 |
| Y Pîl, Cynffig a Chorneli | £174,000 (362) | Amh. (0) | £174,000 |
| Porth y Cymoedd | £175,000 (353) | £269,995 (68) | £222,498 |

* Mae'r niferoedd mewn cromfachau yn adlewyrchu nifer y trafodion a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r prisiau cyfartalog.

**2023/24:**

Anheddau wedi'u hadeiladu o'r newydd: £284,495

Anheddau nad ydynt yn rhai newydd: £184,975

Premiwm adeiladu o'r newydd: **+53.8%**

**2024/25:**
Anheddau wedi'u hadeiladu o'r newydd: £279,995
Anheddau nad ydynt yn rhai newydd: £200,000
Premiwm adeiladu o'r newydd: **+40%**

Er bod y ffigurau uchod yn dangos y premiwm cyfartalog ar gyfer adeiladu o'r newydd ar draws y fwrdeistref sirol, dylid dehongli'r rhain yn ofalus. Mae cartrefi wedi'u hadeiladu o'r newydd wedi'u crynhoi mewn ardaloedd penodol, felly efallai na fydd cyfartaledd ar draws y fwrdeistref yn rhoi adlewyrchiad cywir o'r premiymau a geir o fewn yr ardaloedd marchnad dai leol lle mae'r cartrefi a adeiledir o'r newydd yn fwyaf cyffredin.

Yn 2023/24, Pen-y-bont ar Ogwr a gofnododd y nifer uchaf o gartrefi wedi'u hadeiladu o'r newydd yn y Fwrdeistref Sirol, gyda 63 o drafodion (gyda chyfartaledd premiwm adeiladu o'r newydd o +53.8%). Yn 2024/25, fodd bynnag, roedd gwerthiant cartrefi newydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gymharol isel sef 21, sy'n cyfrannu at y premiwm llai a welwyd ledled y fwrdeistref (+40%). I'r gwrthwyneb, yn ardal marchnad dai Porth y Cymoedd y cafodd y nifer fwyaf o gartrefi newydd eu gwerthu yn 2024/25 (38), gan gyflawni premiwm adeiladau newydd sylweddol o 59%.

<u>Costau Adeiladu</u>
Ar hyn o bryd nid yw'n ofynnol i adeiladwyr tai gyfrannu at gronfa ddata genedlaethol o gostau adeiladu, felly nid yw gwybodaeth gyfannol o'r diwydiant am gostau adeiladu ar gael ar hyn o bryd. Heb set ddata gwbl gytbwys o'r diwydiant, nid oes modd monitro costau adeiladu blynyddol yn fanwl er mwyn cymharu rhwng y naill flwyddyn a'r llall. Fodd bynnag, bydd yr ACLl yn monitro ac yn adolygu unrhyw wybodaeth am gostau adeiladu a gyflwynir yn rhan o unrhyw arfarniadau hyfywedd a gyflwynir i gefnogi ceisiadau cynllunio yn y dyfodol.

<u>Gwerthoedd Tir</u>
Nid oes set ddata gyfannol ar werthoedd tir. Mae gwerthoedd tir cymharol yn rhy fras ac anwadal i gynhyrchu cyfartaledd cadarn gan nad ydynt yn codi ac yn gostwng yn yr un ffordd â phrisiau tai na chostau adeiladu. Gall 'cyfartaledd' a sefydlir mewn un flwyddyn droi'n ddiwerth os ceir cynnydd neu ostyngiad sydyn mewn gwerthoedd yn y flwyddyn ganlynol. Mae tuedd uchel hefyd i werthiannau tir annormal (yn seiliedig ar newidynnau safle-benodol)

| | |
|---|---|
| effeithio ar feintiau sampl bach. Serch hynny, bydd gwerthoedd tir safle-benodol yn parhau i gael eu monitro fel rhan o unrhyw anghydfodau hyfywedd sy'n codi drwy gydol cyfnod y cynllun.<br><br>Dadansoddiad<br>Bydd yr ACLI yn parhau i fonitro tueddiadau'r farchnad dai, gan gynnwys y premiwm adeiladu o'r newydd a newidynnau cysylltiedig, yn flynyddol drwy'r AMR. | |
| **Perfformiad:** | |
| **Gweithredu:** | Parhau i fonitro |

6.9 **Dangosydd 18/19** - Mae'r CDLl yn cydnabod anghenion llety penodol Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn fel rhan o ddull cyfannol o ddarparu cymunedau cydlynol sydd wedi'u cysylltu'n dda. Comisiynodd y Cyngor GTAA yn 2020. Yn seiliedig ar y dystiolaeth, dyrannwyd un safle parhaol yn y CDLl o dan Bolisi SP7. Yn ogystal â hyn, mae Polisi COM8 yn amlinellu'r angen i sicrhau dull teg, rhesymol, realistig ac effeithiol o benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio fel bo modd darparu safleoedd priodol. Fel hyn gellir sicrhau darpariaeth ar gyfer unrhyw anghenion llety yn y dyfodol, neu anghenion llety annisgwyl.

| **Amcan: Amcan Strategol 2, 'Creu Cymunedau Egnïol, Iach, Cydlynol, Cynhwysol a Chymdeithasol'** | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod Polisi: SP7, COM8** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun** |
| 18: Cwblhau safleoedd Sipsiwn a Theithwyr i ddiwallu'r angen a nodwyd. | Yr angen a nodwyd yn GTAA (2020) i gael ei fodloni'n llawn erbyn 2033. | Dim caniatâd cynllunio ar safleoedd a ddyrannwyd, lle bo angen wedi'i nodi yn dal heb ei fodloni. |
| **Canlyniad Perfformiad:** | | |
| **Y flwyddyn flaenorol** | **AMB 2024/25** | |
| Amh. | Amh. | |
| **Dadansoddiad:** | | |
| Mae'r CDLl yn ceisio sicrhau y bydd gan Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn (fel y'u diffinnir yn Adran 108, Deddf Tai (Cymru) 2014) fynediad sy'n gyfartal â phob aelod arall o'r gymuned at lety sy'n briodol yn ddiwylliannol.<br><br>Yn Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr 2020 nodwyd bod angen saith llain ychwanegol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr dros gyfnod y cynllun (pump ar gyfer pum mlynedd cyntaf y GTAA, a dau arall ar gyfer gweddill y cyfnod – 2018 - 2033).<br><br>Mae'r angen hwn wedi'i fodloni'n llawn (cyn mabwysiadu'r CDLlN) drwy roi caniatâd cynllunio ar gyfer 7 llain ar draws tri safle preifat. | | |
| **Perfformiad:** | | |
| **Gweithredu:** | Parhau i fonitro | |

| Amcan: Amcan Strategol 2, 'Creu Cymunedau Egnïol, Iach, Cydlynol, Cynhwysol a Chymdeithasol' | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod Polisi: COM8** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun** |
| 19: Bodloni unrhyw angen newydd sy'n codi am safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn sy'n codi y tu allan i'r GTAA. | Bodloni'r angen yn unol â COM8 a Chylchlythyr 005/2018. | Y ddarpariaeth heb ei chyflawni yn unol â Pholisi COM8. |

| Canlyniad Perfformiad: | |
|---|---|
| **Y flwyddyn flaenorol** | **AMB 2024/25** |
| Amh. | 0 |

| Dadansoddiad: |
|---|
| Mae Polisi COM8 yn cefnogi datblygu safleoedd newydd ac ymestyn safleoedd awdurdodedig presennol ar gyfer llety Sipsiwn, Teithwyr a Phobl Sioe, ar yr amod bod meini prawf penodol yn cael eu bodloni.<br><br>Ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau newydd yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025. Mae'r angen a nodwyd eisoes wedi'i fodloni'n llawn ar gyfer cyfnod y cynllun. |

| Perfformiad: | |
|---|---|
| **Gweithredu:** | Parhau i fonitro |

6.10 **Dangosydd 20** – Mae Polisi SP9 ac SP10 yn nodi bod ansawdd bywyd pob preswylydd yn bwysig a bod angen ei gynnal a darparu ar ei gyfer. Mae'n bwysig felly cadw neu wella cyfleusterau fel cyfleusterau addysg a hyfforddiant, cyfleusterau iechyd a lles, cyfleusterau sy'n cefnogi'r Gymraeg, llyfrgelloedd, seilwaith gwyrdd, a hamdden awyr agored (gan gynnwys parciau, caeau chwarae, ardaloedd chwarae gyda chyfarpar, ardaloedd hamdden anffurfiol, mannau agored, coetiroedd, gwlyptiroedd ac ymylon ffyrdd), cyfleusterau hamdden dan do, adeiladau cymunedol, rhandiroedd, mynwentydd. Bydd angen i ddatblygwyr hefyd sicrhau y bydd pob datblygiad newydd wedi'i gefnogi gan seilwaith presennol neu seilwaith newydd er mwyn sicrhau bod gan drigolion fynediad da at wasanaethau a chyfleusterau yn eu hardal leol.

| **Amcan: Amcan Strategol 2, 'Creu Cymunedau Egnïol, Iach, Cydlynol, Cynhwysol a Chymdeithasol'** | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod Polisi: SP9, SP10** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun** |
| 20: Nifer y cyfleusterau cymunedol a gollwyd oherwydd datblygiad. | Ni roddwyd caniatâd am ddatblygiad a oedd yn groes i SP9, a allai arwain at golli cyfleusterau cymunedol i raddau annerbyniol mewn ardaloedd o angen. | 1 neu fwy o geisiadau cynllunio wedi'u caniatáu yn groes i SP9. |
| **Canlyniad Perfformiad:** | | |
| **Y flwyddyn flaenorol** | **AMB 2024/25** | |
| Amh. | 0 | |
| **Dadansoddiad:** | | |
| | | |

| | |
|---|---|
| Mae Polisi SP9 o'r CDLIN yn ceisio cadw neu wella cyfleusterau i sicrhau nad oes unrhyw ran o'r gymuned wedi'i heithrio rhag cael mynediad at wasanaethau sylfaenol, gyda'r nod cyffredinol o greu cymunedau cynaliadwy a chynhwysol. Mae'n hanfodol bod ansawdd bywyd holl drigolion y fwrdeistref sirol yn cael ei gynnal a'i fodloni'n ddigonol, a bod gwasanaethau cymunedol a chyfleusterau cymdeithasol yn parhau i fodloni eu hanghenion ac nad ydynt yn cael eu lleihau na'u tanseilio gan dwf a gynllunnir. Mae defnyddiau ac/neu gyfleusterau cymdeithasol a chymunedol yn cynnwys ysgolion, cyfleusterau chwaraeon, hamdden a diwylliannol, gwasanaethau iechyd, llyfrgelloedd, cyfleusterau dysgu cymunedol, mentrau hyfforddi, mynwentydd, a phob math o adeiladau cymunedol gan gynnwys mannau addoli.<br><br>Ni chaniatawyd unrhyw gynigion a oedd yn groes i Bolisi SP9 yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025. | |
| **Perfformiad:** | |
| **Gweithredu:** | Parhau i fonitro |

6.11 **Dangosydd 21/22** - Mae Polisi SP11 yn nodi y bydd unrhyw gyfleoedd am dwf economaidd yn cael eu cyfeirio i'r lleoliadau mwyaf priodol a chynaliadwy, gan gefnogi cynlluniau i ehangu busnesau presennol a sicrhau aliniad gofodol cryf rhwng twf tai a chyflogaeth. Mae'r strategaeth hon yn dyrannu 68.8 hectar o dir cyflogaeth newydd i'w ddwyn ymlaen ac i ddarparu ar gyfer hyd at 7,500 o swyddi ychwanegol dros gyfnod y CDLI. Mae Polisi ENT1 yn cefnogi SP11 drwy ddyrannu 68.8 hectar o dir cyflogaeth newydd ar gyfer datblygiad. Bydd darparu cyfleoedd newydd am dwf economaidd o gymorth i gadw lefelau cymudo, neu newidiadau i broffiliau ymfudo, mor isel ag sy'n bosibl. Fel arall, gallai diffyg sbardun economaidd digonol i annog a darparu ar gyfer swyddi pellach yrru'r lefelau i'r cyfeiriad arall.

<table>
<tr><th colspan="3">Amcan: Amcan Strategol 3, 'Creu Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus</th></tr>
<tr><th colspan="3">Cyfeirnod Polisi: SP11, ENT1</th></tr>
<tr><th>Dangosydd</th><th>Targed</th><th>Sbardun</th></tr>
<tr><td>21: Defnydd tir cyflogaeth yn erbyn dyraniadau.</td><td>Defnydd o dir cyflogaeth yn unol ag SP11.</td><td>0ha o dir cyflogaeth wedi'i feddiannu ar safleoedd cyflogaeth wedi'u dyrannu am 2 flynedd yn olynol o leiaf.</td></tr>
<tr><th colspan="3">Canlyniad Perfformiad:</th></tr>
<tr><th>Y flwyddyn flaenorol</th><th colspan="2">AMB 2024/25</th></tr>
<tr><td>4.89ha</td><td colspan="2">0.71ha</td></tr>
<tr><th colspan="3">Dadansoddiad:</th></tr>
<tr><td colspan="3">Mae angen ymateb cadarnhaol o ran tir cyflogaeth i sicrhau cydbwysedd rhwng cartrefi newydd, gweithlu llafur medrus sy'n tyfu a chyfleoedd am swyddi er mwyn ysgogi'r economi leol i ranbarthol. Gan hynny, 68.8ha o dir cyflogaeth wedi'i ddyrannu dros gyfnod y cynllun. Mae hyn yn cyfateb i gyfartaledd o 4.6 hectar y flwyddyn. Fodd bynnag, y ffigur uchaf yw hwn yn hytrach na tharged, er mwyn galluogi'r CDLIN i ymateb yn gadarnhaol ac i roi hwb i'r gweithlu llafur sy'n gysylltiedig â'r twf demograffig y cynllunnir amdano.<br><br>Cafodd dwy ardal o dir cyflogaeth (P/23/368/FUL: Plot 2600, Parc Canolog oddi ar Rhodfa'r Gorllewin, Ystâd Ddiwydiannol Pen-y-bont ar Ogwra P/07/226/FUL: Hufenfa Pen-y-bont ar Ogwr, Ystâd Ddiwydiannol Pen-y-bont ar Ogwr), sydd gyda'i gilydd yn hafal i 0.71ha eu meddiannu ar safleoedd cyflogaeth wedi'u dyrannu yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2024 - 31 Mawrth 2025. Bydd hyn yn cyfrannu at y defnydd cyffredinol o dir cyflogaeth dros gyfnod y cynllun. Bydd defnydd yn y dyfodol yn cael ei fonitro'n briodol, wrth i ddyraniadau preswyl a strategol cysylltiedig ddod yn eu blaenau.</td></tr>
<tr><th>Perfformiad:</th><td colspan="2"></td></tr>
</table>

| Gweithredu: | Parhau i fonitro |
|---|---|

| Amcan: Amcan Strategol 3, 'Creu Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod Polisi: SP11, ENT1** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun** |
| 22. Galluogi twf swyddi. | Creu hyd at 500 o swyddi newydd y flwyddyn yn unol ag SP11. | Amrywiad o 10% o'r targed disgwyliedig am o leiaf 3 blynedd yn olynol, i ganiatáu adferiad ar ôl y pandemig. |
| **Canlyniad Perfformiad:** | | |

| Y flwyddyn flaenorol | AMB 2024/25 |
|---|---|
| Amh. | Gweler isod |

**Dadansoddiad:**

Mae Polisi SP11 yn nodi y bydd strategaeth tir cyflogaeth y CDLl newydd yn dyrannu digon o dir cyflogaeth i ddarparu ar gyfer hyd at 7,500 o swyddi newydd dros gyfnod y cynllun. Mae SP11 yn gosod y fframwaith fel bo modd darparu lefel gytbwys o dir cyflogaeth er mwyn darparu ar gyfer y swyddi newydd a nodir drwy'r Strategaeth Adfywio a Thwf Cynaliadwy.

Dengys Ffigurau Llywodraeth Cymru (StatsCymru –*Cyfradd gyflogaeth yn ôl ardal leol yng Nghymru a blwyddyn*) mai lefelau cyflogaeth y fwrdeistref sirol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 oedd cyfanswm o 64,400 (cyfradd cyflogaeth o 73.5%). Dyma gynnydd o **10,200 (11.3%)** o'r flwyddyn gynt. Dylid nodi bod y ffigurau hyn yn cynrychioli chyflogaeth ymhlith trigolion y fwrdeistref sirol ac nad ydynt yn adlewyrchu nifer y swyddi sydd wedi'u lleoli'n ddaearyddol yn yr ardal. Maent yn cynnwys trigolion sy'n gweithio mewn mannau eraill, boed hynny o bell neu drwy gymudo i fan gwaith y tu allan i'r

| | |
|---|---|
| fwrdeistref sirol. Mae data sy'n dangos swyddi wedi'u creu/lleoli ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gael drwy Gofrestr Busnes ac Arolwg Cyflogaeth (BRES) Nomis. Fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd y BRES ond ar gael hyd at a chan gynnwys 2023. Bydd y broses o ryddhau data yn cael ei monitro yn rhan o'r AMBau nesaf.<br><br>Mae'r cynnydd o 10,200 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ymhell uwchlaw'r targed o hyd at 500 o swyddi newydd y flwyddyn. Fodd bynnag, cydnabyddir bod y ffigur ar gyfer swyddi *wedi'u creu* yn debygol o fod yn wahanol am y rhesymau a amlinellir uchod. | |
| **Perfformiad:** | |
| **Gweithredu:** | Parhau i fonitro |

6.12 **Dangosyddion 23/34/25** - Mae Polisi SP12 yn hyrwyddo'r canol trefi, y canolfannau ardal a'r canolfannau lleol fel hwbiau ar gyfer gweithgareddau economaidd-gymdeithasol. Y canolfannau hyn yw'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy a phriodol ar gyfer unrhyw ddatblygiad manwerthu, hamdden a masnachol ategol newydd. Bydd sicrhau bod y cyfleusterau a'r gwasanaethau hyn mewn lleoliadau addas yn helpu i gefnogi iechyd a bywiogrwydd yn y tymor hir, ac yn creu lleoedd cyfleus a deniadol i weithio, byw, cymdeithasu, siopa, astudio a chael mynediad at wasanaethau ynddynt. Mae'r CDLl wedi nodi nifer o safleoedd adfywio allweddol o dan Bolisi ENT6 a fydd yn sicrhau bod datblygiad yn digwydd yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy a wasanaethir yn dda gan rwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus presennol. Mae Polisi ENT7 yn helpu i amddiffyn Prif Ganolfannau Siopa rhag colli eu statws manwerthu i'r graddau na allant weithredu fel canolfannau siopa hyfyw mwyach. Er mwyn sicrhau'r cymysgedd gorau posibl a chynyddu bywiogrwydd a hyfywedd y canolfannau hyn, mae angen taro cydbwysedd rhwng defnyddiau manwerthol a defnyddiau anfanwerthol. Mae ENT9 yn ceisio amddiffyn unrhyw gynigion datblygu sydd y tu allan i Ganolfannau Manwerthu a Masnachol a fyddai'n arwain at golli arwynebedd llawr manwerthu a masnachol. Drwy’r broses gynllunio, rhaid i ymgeiswyr ddangos bod yr eiddo wedi cael ei farchnata’n weithredol am o leiaf 12 mis cyn cyflwyno’r cais. Dylid cyflwyno strategaeth farchnata i'r ACLl a sicrhau cytundeb yr ACLl ar ei chyfer cyn cynnal y strategaeth honno.

| Amcan: Amcan Strategol 3, 'Creu Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod Polisi: SP12, ENT6, ENT9** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun** |
| 23: Swm y datblygiad manwerthu mawr (m sgwâr) a ganiateir y tu allan i ffiniau sefydledig trefi a chanolfannau lleol. | Ni chaniateir unrhyw ddatblygiad manwerthu mawr (m sgwâr) y tu allan i ffiniau sefydledig canol trefi a chanolfannau lleol. | 1 neu fwy o geisiadau wedi'u caniatáu am ddatblygiad manwerthu mawr yn groes i Bolisi ENT9 mewn unrhyw flwyddyn. |

| Canlyniad Perfformiad: | |
|---|---|
| **Y flwyddyn flaenorol** | **AMB 2024/25** |
| Amh. | 0 |

**Dadansoddiad:**

Mae polisïau SP12, ENT6 ac ENT9 y CDLlN yn cyfeirio datblygiad manwerthu i ardaloedd sydd oddi mewn i ffiniau sefydledig trefi a chanolfannau lleol. Canol trefi a chanolfannau masnachol presennol yw'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy ar gyfer datblygiadau manwerthu newydd, o safbwynt amgylcheddol a chymdeithasol. Cefnogir hyn gan Bolisi Cynllunio Cymru sy'n cydnabod mai canolfannau yw'r lleoliad gorau ar gyfer defnyddiau manwerthol/hamdden.

Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau cynllunio am ddatblygiad manwerthu mawr yn groes i Bolisi ENT9 yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025.

| Perfformiad: | |
|---|---|
| **Gweithredu:** | Parhau i fonitro |

| Amcan: Amcan Strategol 3, 'Creu Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod Polisi: SP12** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun** |
| 24: Cyfraddau gwag blynyddol eiddo masnachol yng nghanol trefi'r Fwrdeistref Sirol. | Mae cyfraddau gwagedd eiddo masnachol yng Nghanol Trefi Pen-y-bont ar Ogwr, Maesteg neu Borthcawl yn parhau i fod yn is na 15% drwy gydol y cynllun. | Mae cyfraddau gwagedd eiddo masnachol yng nghanol trefi Pen-y-bont ar Ogwr, Maesteg neu Borthcawl yn cynyddu i fwy na 15%. |

**Canlyniad Perfformiad:**

| Y flwyddyn flaenorol | AMB 2024/25 |
|---|---|
| • Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr: 20%<br>• Canol Tref Porthcawl: 6%<br>• Canol Tref Maesteg: 12.7% | • Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr: 19.2%<br>• Canol Tref Porthcawl: 7%<br>• Canol Tref Maesteg: 16.2% |

**Dadansoddiad:**

Mae cyfraddau gwagedd eiddo masnachol wedi gwaethygu ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yn rhannol oherwydd cystadleuaeth gan leoliadau siopa cymharu y tu allan i ganol y dref, ond hefyd gan fod tuedd gynyddol i bobl siopa ar-lein. Mae'r Cyngor yn awyddus i sicrhau bod cyfraddau swyddi gwag yn parhau'n isel yng nghanolfannau manwerthu allweddol y fwrdeistref sirol er mwyn annog pobl i ymweld a gwario arian yn lleol. Mae mesurau o'r fath i wella perfformiad canol trefi yn cynnwys gwella ansawdd yr amgylchedd siopa a hyrwyddo mwy o hyblygrwydd drwy gynyddu'r ystod o gyfleusterau cymunedol, hamdden

| | |
|---|---|
| a chymdeithasol sydd ar gael. Bydd annog ystod ehangach o ddefnyddiau yn helpu i leihau cyfraddau unedau gwag, sy'n uwch na lefelau cyfartalog y DU.<br><br>Er bod cyfraddau unedau gwag yn sylweddol is na 15% yng Nghanol Tref Porthcawl, roedd y cyfraddau ychydig yn uwch nag 15% yng Nghanol Tref Maesteg ac ychydig yn uwch eto yng Nghanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr. Cyn gynted ag y bo'r safleoedd strategol sydd wedi'u dyrannu yn y CDLlN yn dechrau dod yn eu blaenau a thai newydd yn cael eu darparu, rhagwelir y bydd gweithgarwch economaidd-gymdeithasol ar draws canol trefi'r fwrdeistref sirol, gan helpu i leihau cyfraddau unedau gwag yn y lleoliadau hyn. Mae hyn yn cyd-fynd â'r pwyslais cryf ar ddatblygu cymdogaethau 20 munud, sy'n anelu i wella mynediad cerddwyr, beicwyr a defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus at ganol trefi, gan gefnogi cynnydd ym mywiogrwydd a nifer yr ymwelwyr ag ardaloedd masnachol lleol. | |
| **Perfformiad:** | |
| **Gweithredu:** | Mae dogfen *Canllawiau Cynllunio Atodol Datblygiadau Manwerthu a Masnachol* yn cael ei pharatoi er mwyn helpu i egluro polisïau manwerthu'r CDLlN a bydd yn cael ei mabwysiadu tua diwedd 2025. |

| **Amcan: Amcan Strategol 3, 'Creu Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus** | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod Polisi: SP12, ENT7** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun** |
| 25: Y gyfran o ddefnyddiau manwerthol A1 yn y Prif Ardaloedd Siopa | Mae 60% neu fwy o unedau o fewn y Prif Ardaloedd Siopa yn cael eu defnyddio ar gyfer A1. | Mae llai na 60% o unedau o fewn y Prif Ardaloedd Siopa yn cael eu defnyddio ar gyfer A1. |
| **Canlyniad Perfformiad:** | | |
| **Y flwyddyn flaenorol** | **AMB 2024/25** | |

| | |
|---|---|
| Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr: 59.8%<br>Canol Tref Porthcawl: 67%<br>Canol Tref Maesteg: 56.2% | Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr: 60.8%<br>Canol Tref Porthcawl: 65.9%<br>Canol Tref Maesteg: 53.3% |
| **Dadansoddiad:** | |
| Mae angen sicrhau nad yw canolfannau masnachol yn colli eu 'crynswth critigol' o unedau manwerthu, i'r graddau na allant mwyach weithredu fel canolfan siopa hyfyw. Mae perygl y gallai cynigion am ddefnyddiau eraill fod yn drech na chynigion am ddefnyddiau manwerthol, ac y byddai hynny'n amharu ar y ganolfan fasnachol. Yn unol â hynny, mae angen taro cydbwysedd rhwng defnyddiau manwerthol a defnyddiau anfanwerthol mewn canolfannau masnachol er mwyn sicrhau'r gymysgedd orau bosibl, a thrwy hynny, gwella bywiogrwydd a hyfywedd y canolfannau hynny. Mae Polisi ENT7 o'r CDLIN yn cydnabod bod angen diogelu Prif Ardaloedd Siopa yng nghanol trefi'r fwrdeistref sirol yn benodol rhag defnyddiau cystadleuol. Mae'r Polisi'n gorfodi meini prawf llym i ddiogelu eu hyfywedd a'u bywiogrwydd.<br><br>At ei gilydd, roedd dros 60% o unedau o fewn y Prif Ardaloedd Siopa yn cael eu defnyddio at ddefnydd A1 yng Nghanol Trefi Pen-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025, sy'n cyd-fynd â tharged y dangosydd hwn. Fodd bynnag, cyfran y siopau a ddefnyddir ar gyfer A1 yng Nghanol Tref Maesteg yw 53.3%, sy'n is na'r targed penodedig. Roedd y broblem hon yn bodoli cyn mabwysiadu'r CDLIN a bwriedir i bolisïau manwerthu a fabwysiedir ddiogelu defnyddiau A1 mewn Prif Ardaloedd Siopa. Mae CCA Manwerthu yn cael eu paratoi i gynorthwyo swyddogion ac ymgeiswyr yn hyn o beth. | |
| **Perfformiad:** | |
| **Gweithredu:** | Mae dogfen *Canllawiau Cynllunio Atodol Datblygiadau Manwerthu a Masnachol* yn cael ei pharatoi er mwyn helpu i egluro polisïau manwerthu'r CDLIN a byddwn yn symud ymlaen i'w mabwysiadu tua diwedd 2025. |

6.13 **Dangosydd 26/27** - Bydd Polisi SP13 yn ceisio cynorthwyo'r fwrdeistref sirol i drawsnewid i system ynni carbon isel, ddatganoledig sy'n gweithio i'w hunigolion, i'w chymunedau a'i busnesau drwy annog prosiectau ynni adnewyddadwy a charbon isel/dim carbon. Mae Polisi ENT10 yn anelu i sicrhau bod pob cartref newydd yn y fwrdeistref sirol yn garbon sero net yn y lle cyntaf drwy sicrhau bod uwchgynllun ynni yn cael ei gyflwyno i gyd-fynd ag unrhyw geisiadau cynllunio, a'i fod yn dangos bod systemau gwresogi wedi cael eu dewis yn unol â'r meini prawf a amlinellir yn y CDLl.

<table>
<tr><th colspan="3">Amcan: Amcan Strategol 3, 'Creu Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus</th></tr>
<tr><th colspan="3">Cyfeirnod Polisi: SP13, ENT10</th></tr>
<tr><th>Dangosydd</th><th>Targed</th><th>Sbardun</th></tr>
<tr><td>26. Nifer y ceisiadau cynllunio mawr a gyflwynir ar y cyd ag 'Uwchgynllun Ynni', yn unol â Pholisi ENT10</td><td>Ceir uwchgynllun ynni yn i gyd-fynd â 100% o'r holl geisiadau cynllunio mawr yn unol â Pholisi ENT10.</td><td>1 neu fwy o geisiadau cynllunio mawr wedi'u caniatáu heb gyflwyno uwchgynllun ynni yn unol â Pholisi ENT10 mewn unrhyw flwyddyn.</td></tr>
<tr><th colspan="3">Canlyniad Perfformiad:</th></tr>
<tr><th>Y flwyddyn flaenorol</th><th colspan="2">AMB 2024/25</th></tr>
<tr><td>Amh.</td><td colspan="2">0</td></tr>
<tr><th colspan="3">Dadansoddiad:</th></tr>
<tr><td colspan="3">Mae Polisi ENT10 y CDLIN yn mynnu bod pob datblygiad mawr newydd yn cynhyrchu uwchgynllun ynni i ddangos bod y systemau gwresogi ac oeri mwyaf cynaliadwy wedi cael eu dewis. Dylai cynlluniau allu dangos eu bod yn addas ar gyfer system ynni carbon sero net, neu fel arall bydd angen ôl-osodiadau costus yn y dyfodol i sicrhau bod targedau carbon yn cael eu cyrraedd.<br><br>Ni chafodd unrhyw geisiadau am ddatblygiad mawr (fel y'i diffinnir ym mharagraff ategol 5.4.96 y CDLIN) a gyflwynwyd ar ôl mabwysiadu'r CDLIN eu caniatáu heb uwchgynllun ynni yn unol â Pholisi ENT10 yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025.</td></tr>
<tr><th>Perfformiad:</th><td colspan="2"></td></tr>
<tr><th>Gweithredu:</th><td colspan="2">Parhau i fonitro</td></tr>
</table>

| **Amcan: Amcan Strategol 3, 'Creu Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus** | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod Polisi: SP13** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun** |
| 27. Nifer a chapasiti (MW) datblygiadau ynni adnewyddadwy, carbon isel a dim carbon a gymeradwywyd / a weithredwyd. | Targedau ar gyfer defnyddio adnoddau yn seiliedig ar ardal yn unol â Thabl 10, Pennod 5. | Dim caniatâd wedi'i roi na'i weithredu o fewn 5 mlynedd. |

| **Canlyniad Perfformiad:** | |
|---|---|
| **Y flwyddyn flaenorol** | **AMB 2024/25** |
| Amh. | 14.9MW |

**Dadansoddiad:**

Mae Polisi SP13 y CDLIN yn cefnogi darparu datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel i leihau allyriadau carbon a helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd. Bydd y polisi hwn (a pholisïau rheoli datblygu ategol) yn cynorthwyo'r fwrdeistref sirol i drawsnewid i system ynni carbon isel, ddatganoledig sy'n gweithio i'w hunigolion, i'w chymunedau a'i busnesau drwy annog prosiectau ynni adnewyddadwy a charbon isel/dim carbon.

Cymeradwywyd cyfanswm o dri chynllun gyda chapasiti cynhyrchu hyd at 14.9MW yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025. Dyma nhw:

- Fferm solar (0.5MW) (P/24/548/FUL: Aviation House, Rhodfa Brocastle, Waterton)
- Tyrbin gwynt sengl, fferm solar, electrolysydd hydrogen (4.4MW) (P/24/578/SOR: Tir yn Llaethdy Tŷ Tanglwyst, Y Pîl)
- Cyfleuster cynhyrchu hydrogen gwyrdd gydag electrolysyddion (>10MW) (P/23/218/FUL: Tir ym Mrynmenyn a Bryncethin)

| | |
|---|---|
| Mae Tabl 10, Pennod 5 yn y CDLl yn dangos targed i gynhyrchu cyfanswm o 340MW o bŵer ar draws cyfnod y cynllun. Mae'r cynlluniau a restrir uchod yn cynrychioli cynnydd tuag at y targedau ynni adnewyddadwy a nodir yn fframwaith monitro'r CDLl, gan ddangos buddsoddiad parhaus mewn seilwaith carbon isel a thaflwybr cadarnhaol tuag at gyflawni nodau cynaliadwyedd a datgarboneiddio tymor hwy. | |
| **Perfformiad:** | |
| **Gweithredu:** | Parhau i fonitro |

6.14 **Dangosyddion 29/28** - Mae canllawiau rhanbarthol a chenedlaethol yn cefnogi dull cryf a chynaliadwy o gynllunio mwynau, gan sicrhau ar yr un pryd bod adnoddau gwerthfawr cyfyngedig yn cael eu diogelu fel bo modd eu hechdynnu yn y dyfodol. O ran cyflenwi agregau, hyrwyddir y defnydd mwyaf posibl o agregau eilaidd ac agregau wedi'u hailgylchu o ffynonellau masnachol a dymchwel yn hytrach nag agregau crai. Mae Polisi SP14 yn nodi y bydd mwynau'n cael eu defnyddio'n effeithlon ac yn briodol ledled y fwrdeistref sirol. Ei nod yw annog ailddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau addas fel dewis arall yn lle agregau a geir o ffynonellau crai, fel y nodir yn y meini prawf ar gyfer Polisi SP14. Mae SP14 yn nodi, fel isafswm, y bydd banc tir 10 mlynedd o gerrig wedi'u malu yn cael ei gynnal drwy gydol cyfnod y cynllun. Mae gan y CDLl bolisi hefyd i ddiogelu rhag datblygiadau ataliol parhaol. Cyn y gall datblygiad ddigwydd, rhaid i ymgeiswyr ddangos y gellir echdynnu'r mwynau a/neu fod y mwynau o faint neu ansawdd mor wael fel mai ychydig o werth sydd i echdynnu'r mwynau fel adnodd cyfyngedig, os o gwbl, neu na fydd y datblygiad yn cael rhyw lawer o effaith ar yr adnodd oherwydd ei faint/leoliad.

| Amcan: Amcan Strategol 3, 'Creu Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod Polisi: SP14** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun** |
| 28. Banc tir agregau ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr mewn blynyddoedd. | Cynnal adnodd agregau am o leiaf 10 mlynedd. | Llai na 10 mlynedd o fanc tir ar gyfer cronfeydd agregau wedi'i ganiatáu mewn unrhyw flwyddyn. |

| Canlyniad Perfformiad: | |
|---|---|
| **Y flwyddyn flaenorol** | **AMB 2024/25** |
| 50+ mlynedd | 50+ mlynedd |

**Dadansoddiad:**

Mae Polisi SP14 y CDLIN yn nodi'r meini prawf y bydd pob cynnig ar gyfer datblygu mwynau yn cael ei asesu yn eu herbyn. Mae'n ceisio sicrhau bod agregau a mwynau i'w defnyddio yn cael eu diogelu mewn datblygiadau. Mae mwynau yn adnodd pwysig y dylid ei ddiogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol drwy leoli datblygiadau nad ydynt yn gysylltiedig â mwynau i ffwrdd o ardaloedd y ceir mwynau oddi tanynt sydd o bwysigrwydd economaidd, lle bo'n ymarferol.

Cyfrifodd Adroddiad Blynyddol SWRAWP 2023 (a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2025) fod y banc tir agregau 10 mlynedd yn fwy na 50 mlynedd. Mae'r CDLIN felly'n cyrraedd ei darged o ddarparu adnodd agregau am o leiaf 10 mlynedd.

| | |
|---|---|
| **Perfformiad:** | |
| **Gweithredu:** | Parhau i fonitro |

| Amcan: Amcan Strategol 3, 'Creu Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod Polisi: SP14, ENT12** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun** |
| 29: Swm y datblygiadau ataliol parhaol a ganiatawyd o fewn Ardal Diogelu Mwynau. | Ni roddwyd caniatâd am ddatblygiad o fewn Ardaloedd Diogelu Mwynau yn groes i Bolisi ENT12. | 1 neu fwy o geisiadau wedi'u caniatáu i ddatblygu o fewn Ardal Diogelu Mwynau, yn groes i Bolisi ENT12, mewn unrhyw flwyddyn. |
| **Canlyniad Perfformiad:** | | |

| Y flwyddyn flaenorol | AMB 2024/25 |
|---|---|
| Amh. | 0 |

**Dadansoddiad:**

Mae Polisi ENT12 y CDLlN yn ceisio diogelu mynediad at agregau i'w defnyddio ar gyfer datblygu. Yn y rhan fwyaf o achosion, gall datblygiad fynd rhagddo o fewn ardaloedd diogelu ar yr amod bod datblygwyr yn dangos nad oes rhyw lawer o'r adnodd ar gael/bod ansawdd yr adnodd yn wael, ac na fyddai'n economaidd ymelwa arno, neu na fyddai natur y datblygiad dan sylw yn amharu ar y gallu i ymelwa arno.

Ni roddwyd caniatâd ar gyfer unrhyw ddatblygiadau o fewn Ardaloedd Diogelu Mwynau yn groes i Bolisi ENT12 yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025.

| | |
|---|---|
| **Perfformiad:** | |
| **Gweithredu:** | Parhau i fonitro |

6.15 **Dangosydd 30** - Bu twf dramatig mewn cyfleusterau gwastraff yn ystod y blynyddoedd diwethaf i gefnogi'r targedau rhanbarthol a chenedlaethol i leihau'r gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi. Mae'n debygol y bydd y duedd hon yn parhau i dyfu dros gyfnod y cynllun cyfredol. Mae Polisi SP15 yn nodi safleoedd cyflogaeth presennol y bydd datblygiad cyfleusterau gwastraff newydd yn cael ei gyfeirio iddynt yn unol â'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol a TAN21.

| **Amcan: Amcan Strategol 3, 'Creu Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus** | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod Polisi: SP15** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun** |
| 30: Y capasiti i ddarparu ar gyfer gwastraff y Fwrdeistref Sirol. | Cadw digon o gapasiti i ddarparu ar gyfer gwastraff y fwrdeistref sirol (i'w gadarnhau ar lefel ranbarthol) yn unol â TAN 21. | Sbardunau i'w sefydlu ar lefel ranbarthol yn unol â TAN 21. |
| **Canlyniad Perfformiad:** | | |
| **Y flwyddyn flaenorol** | **AMB 2024/25** | |
| Amh. | Gweler isod. | |
| **Dadansoddiad:** | | |
| Mae lleihau gwastraff a'i reoli'n gynaliadwy yn hanfodol i ddiogelu'r amgylchedd a chefnogi'r newid i economi gylchol. Mae Polisi SP15 y CDLIN yn hyrwyddo rheoli gwastraff cynaliadwy drwy sicrhau bod digon o gapasiti ar gael i fodloni anghenion gwastraff y fwrdeistref sirol nawr ac yn y dyfodol.<br><br>Mae Dangosydd 30 yn trafod a ellir rheoli (ailgylchu, trin, gwaredu) yr holl wastraff sy'n deillio o Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o fewn y cyfleusterau sydd ar gael, naill ai'n lleol neu | | |

| | |
|---|---|
| drwy drefniadau rhanbarthol cytunedig. Mae TAN21 yn ei gwneud yn ofynnol i ACLlau sicrhau, drwy gyfleusterau lleol neu ranbarthol, fod digon o seilwaith rheoli gwastraff a ganiateir (ailgylchu, trin, tirlenwi) i ymdrin â'r holl wastraff sy'n deillio o'r Fwrdeistref Sirol, gan gymhwyso'r hierarchaeth gwastraff, hunangynhaliaeth, a'r egwyddor agosrwydd.<br><br>Mae'r data diweddaraf sydd ar gael i ddangos capasiti rheoli gwastraff wedi'u cynnwys yn Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff (WPMR) 2020/21 ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru, a oedd ar y pryd yn cynnwys Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Ers hynny, mae sir Pen-y-bont ar Ogwr wedi cael ei hymgorffori yn rhanbarth cynllunio gwastraff De-ddwyrain Cymru. Fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oes unrhyw WPMR wedi cael ei gyhoeddi ar gyfer De-ddwyrain Cymru ers gweithredu'r newid hwn. Yn unol â hynny, mae'r AMB hwn yn adrodd yn erbyn y data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer 2020/21, a bydd gwybodaeth fwy cyfredol yn cael ei hymgorffori yn y dyfodol wedi i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r wybodaeth honno.<br><br>Mae adroddiad 2020/21 yn cadarnhau bod gan ranbarth De-orllewin Cymru ddigon o le gwag mewn safleoedd tirlenwi i fodloni'r gofynion a nodir yn TAN21 ac, ar hyn o bryd, bod gwastraff gweddilliol a gwastraff bwyd yn cael ei reoli'n ddigonol. Mae'r dystiolaeth hon yn cefnogi'r safbwynt bod digon o gapasiti ar ôl i reoli gwastraff y Fwrdeistref Sirol yn unol â gofynion TAN21. | |
| **Perfformiad:** | |
| **Gweithredu:** | Parhau i fonitro |

6.16 **Dangosydd 31** - Mae twristiaeth yn chwarae rhan allweddol er mwyn cyfrannu at fuddion economaidd a cyflogaeth o fewn y fwrdeistref sirol. Mae Polisi SP16 yn cefnogi hyn drwy geisio diogelu a gwella cyfleusterau twristiaeth presennol, yn cefnogi cynigion am gyfleusterau twristiaeth newydd o ansawdd uchel a fydd yn cynyddu nifer yr ymwelwyr, ac yn annog mentrau twristiaeth gynaliadwy.

| Amcan: Amcan Strategol 3, 'Creu Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod Polisi: SP16** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun** |
| 31: Nifer blynyddol yr ymwelwyr â'r fwrdeistref sirol. | Cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn nifer yr ymwelwyr â'r fwrdeistref sirol | Gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr â'r fwrdeistref sirol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. |
| **Canlyniad Perfformiad:** | | |

| Y flwyddyn flaenorol | AMB 2024/25 |
|---|---|
| Gweler isod | Gweler isod |

**Dadansoddiad:**

Mae Polisi SP16 y CDLlN yn cefnogi twf sector twristiaeth cynaliadwy a bywiog drwy lywio datblygiadau priodol sy'n gwella ansawdd ac apêl yr hyn a gynigir i ymwelwyr yn lleol. Drwy annog llety o ansawdd uchel, cyfleusterau wedi'u huwchraddio, a phrofiad twristiaeth amrywiol – gan gynnwys atyniadau sy'n seiliedig ar weithgareddau, atyniadau diwylliannol, ac atyniadau sy'n seiliedig ar ddigwyddiadau – mae'r polisi'n anelu i gryfhau'r diwydiant twristiaeth lleol a denu mwy o ymwelwyr i'r ardal. Mae hefyd yn sicrhau bod digon o alw a seilwaith priodol i gefnogi cynigion twristiaeth newydd, a bod y cynigion hynny'n osgoi niwed annerbyniol i'r amgylchedd neu gymunedau lleol.

Y targed ar gyfer y dangosydd hwn yw cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn nifer yr ymwelwyr â'r Fwrdeistref Sirol. Mae'r adroddiad STEAM a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar (2023) yn darparu cymhariaeth rhwng 2022 a 2023, gan ddangos bod nifer yr ymwelwyr wedi gostwng ychydig o 3.645 miliwn yn 2022 i 3.565 miliwn yn 2023, sef gostyngiad o 2.2% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Er nad yw'r gostyngiad hwn yn bodloni'r targed twf o'r naill flwyddyn i'r nesaf, dylid nodi nad yw data adroddiad STEAM yn cyd-fynd yn union â'r cyfnod monitro. Ni fydd yr adroddiad STEAM sy'n trafod cyfnod monitro'r AMB hwn yn cael ei gyhoeddi hyd fis Ebrill 2026, ond mae data a ddarparwyd gan adran Rheoli

| |
|---|
| Cyrchfannau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn dangos y cafwyd cyfanswm o 3,421,439 o ymwelwyr ag atyniadau a digwyddiadau gyda'i gilydd yn ystod 2024, sy'n dangos gostyngiad pellach o gymharu â'r flwyddyn gynt. Gan edrych i'r dyfodol, wrth i safleoedd preswyl a masnachol barhau i ddod yn eu blaenau, mae'n debygol y bydd gweithgarwch economaidd o fewn y Fwrdeistref Sirol yn cynyddu. Disgwylir i hyn yn ei dro gyfrannu at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn y blynyddoedd i ddod. |

| | |
|---|---|
| **Perfformiad:** | |
| **Gweithredu:** | Parhau i fonitro |

6.17 Mae gan yr awdurdod gyfrifoldeb i ddiogelu llety presennol i ymwelwyr a sicrhau bod unrhyw golled yn cael ei rheoli'n briodol, fel y cynghorir yn TAN13. Caniateir colli llety i ymwelwyr mewn rhai achosion, ac yn ôl Polisi ENT17 ni fydd llety ond yn cael ei golli os nad yw'n addas neu'n hyfyw mwyach, neu os nad yw ei golli yn cael effaith andwyol ar ystod ac ansawdd y llety sydd ar gael o fewn y Fwrdeistref Sirol.

| **Amcan: Amcan Strategol 3, 'Creu Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus** | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod Polisi: ENT17** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun** |
| 32: Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd a fyddai'n arwain at golli cyfleusterau twristiaeth, hamdden neu adloniant. | Ni roddwyd unrhyw ganiatâd yn groes i Bolisi ENT17 a fyddai'n arwain at golli cyfleusterau twristiaeth, hamdden neu adloniant i raddau annerbyniol. | 1 neu fwy o geisiadau wedi'u caniatáu yn groes i Bolisi ENT17. |
| **Canlyniad Perfformiad:** | | |
| **Y flwyddyn flaenorol** | **AMB 2024/25** | |

| | |
|---|---|
| Amh. | 0 |
| **Dadansoddiad:** | |
| Mae Polisi ENT17 yn ceisio diogelu darpariaeth llety i ymwelwyr o fewn y fwrdeistref sirol drwy sicrhau bod unrhyw golled a gynigir wedi'i chyfiawnhau'n llawn. Mae'r polisi'n cydnabod gwerth arlwy amrywiol o ansawdd uchel i ymwelwyr, ac felly'n mynnu tystiolaeth gadarn nad yw eiddo'n hyfyw mwyach, ac nad oes galw amdano at ddefnydd twristiaeth. Rhaid i gynigion sy'n cynnwys colli cyfleusterau o'r fath ddangos na fyddai'r newid yn tanseilio ystod nac ansawdd y llety sydd ar gael yn lleol, ac nad yw parhau â'r defnydd twristiaeth yn ymarferol nac yn gynaliadwy.<br><br>Ni chaniatawyd unrhyw gynigion datblygu yn groes i Bolisi ENT17 a fyddai'n arwain at golli cyfleusterau twristiaeth, hamdden neu adloniant heb gyfiawnhad yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025. | |
| **Perfformiad:** | |
| **Gweithredu:** | Parhau i fonitro |

6.18 Mae Polisi SP17 y CDLl yn ceisio cynnal a gwella ansawdd y dirwedd fel rhan o'r amgylchedd naturiol o fewn y fwrdeistref sirol. Mae'r polisi hefyd yn diogelu safleoedd dynodedig fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a Safleoedd Ramsar. Mae Polisi DNP1 yn y CDLl yn ceisio gwarchod cefn gwlad rhag datblygu amhriodol drwy sicrhau mai ond mewn achosion eithriadol y bydd datblygiad yn dderbyniol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod cyfanrwydd cefn gwlad yn cael ei gadw a'i wella. Rhaid gwarchod pob ardal o gefn gwlad, o ran ei thirwedd, ei chynefin, ei rhywogaethau a'i daeareg, a dim ond datblygiadau a fydd o fudd i'r economi wledig, gan gynnal a gwella'r amgylchedd, a gaiff eu hystyried. Mae Polisi DNP4 y CDLl yn ceisio diogelu Ardaloedd Tirwedd Arbennig. Y pwyslais yw diogelu cymeriad ac ansawdd y dirwedd rhag datblygiadau amhriodol drwy sicrhau bod y datblygiadau hynny'n gydnaws â'r dirwedd o'u cwmpas, yn hytrach na chyfyngu'n ormodol ar ddatblygiadau derbyniol. Gan adeiladu ar Bolisi SP17, nod Polisi DNP5 yw diogelu cadwraeth natur a Safleoedd o Bwysigrwydd er

Cadwraeth Natur, Gwarchodfeydd Natur Lleol a Safleoedd Geoamrywiaeth Pwysig y Rhanbarth. Mae'n ceisio lleihau'r effaith ar y safle neu ddarparu mesurau iawndal/lliniaru i wrthbwyso unrhyw ddifrod. Mae Polisi DNP6 yn darparu amddiffyniad ar gyfer bioamrywiaeth, rhwydweithiau ecolegol, cynefinoedd a rhywogaethau a bydd angen i ddatblygiadau ystyried lleoliad, dyluniad a chynllun yn ogystal ag unrhyw adnoddau cadwraeth natur cyfagos.

| **Amcan: Amcan Strategol 4, 'Diogelu a Gwella Mannau Unigryw a Naturiol** | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod Polisi: SP17, DNP1** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun** |
| 33. Swm y tir yng nghefn gwlad (ha) a gollwyd i ddatblygiad a ganiatawyd drwy gais i wyro oddi wrth Bolisi DNP1. | Ni chollwyd unrhyw dir yng nghefn gwlad i ddatblygiad a ganiatawyd drwy gais i wyro oddi wrth Bolisi DNP1. | Caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer 1 neu fwy o geisiadau yn groes i Bolisi DNP1. |

| **Canlyniad Perfformiad:** | |
|---|---|
| **Y flwyddyn flaenorol** | **AMB 2025/26** |
| Amh. | 0 |
| **Dadansoddiad:** | |
| Mae Polisi DNP1 yn nodi rhagdybiaeth gref yn erbyn datblygiad amhriodol yng nghefn gwlad, gyda'r nod o warchod a gwella cymeriad, tirwedd ac adnoddau naturiol ardaloedd y tu allan i ffiniau aneddiadau diffiniedig. Mae'r polisi'n sicrhau mai ond rhai mathau o ddatblygiad a gefnogir mewn lleoliadau gwledig, fel arfer os ydynt yn bodloni meini prawf penodol neu angen y gellir ei gyfiawnhau. Lle bo datblygiad yn dderbyniol mewn egwyddor, rhaid iddo fod ar ffurf gynaliadwy, gwneud defnydd doeth o adnoddau naturiol, a, lle | |

| | |
|---|---|
| bynnag y bo modd, defnyddio adeiladau presennol neu dir a ddatblygwyd yn flaenorol cyn ystyried opsiynau adeiladu o'r newydd.<br><br>Ni chollwyd unrhyw dir i ddatblygiad a ganiatawyd drwy wyro oddi wrth Bolisi DNP1 yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025. | |
| **Perfformiad:** | |
| **Gweithredu:** | Parhau i fonitro |

| **Amcan: Amcan Strategol 4, 'Diogelu a Gwella Mannau Unigryw a Naturiol** | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod Polisi: DNP4** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun** |
| 34: Nifer y datblygiadau a ganiatawyd a allai gael effaith andwyol ar Ardal Tirwedd Arbennig. | Ni roddwyd unrhyw ganiatâd ar gyfer datblygiad yn groes i Bolisi DNP4 a fyddai'n achosi niwed annerbyniol i Ardaloedd Tirwedd Arbennig. | Caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer 1 neu fwy o geisiadau yn groes i Bolisi DNP4. |
| **Canlyniad Perfformiad:** | | |

| **Y flwyddyn flaenorol** | **AMB 2025/26** |
|---|---|
| Amh. | 0 |
| **Dadansoddiad:** | |
| Mae Polisi DNP4 yn ceisio diogelu cymeriad ac ansawdd nodedig tirweddau'r fwrdeistref sirol – yn enwedig o fewn ei naw Ardal Tirwedd Arbennig ddynodedig – drwy sicrhau bod datblygiad yn gydnaws â'r hyn sydd o'i amgylch ac yn lleihau unrhyw niwed hyd yr eithaf. Er nad yw'r polisi'n anelu i gyfyngu'n ormodol ar ddatblygiad derbyniol yng nghefn gwlad, | |

| | |
|---|---|
| mae'n sefydlu meini prawf llym i ddiogelu a gwella tirweddau gwerthfawr drwy ddylunio sensitif, rheoli, a lle bo'n briodol, creu nodweddion tirwedd newydd.<br><br>Ni chaniatawyd unrhyw gynigion datblygu yn groes i Bolisi DNP4 a fyddai'n achosi niwed annerbyniol i Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025, sy'n cyrraedd y targed ar gyfer Dangosydd 34. | |
| **Perfformiad:** | |
| **Gweithredu:** | Parhau i fonitro |

| **Amcan: Amcan Strategol 4, 'Diogelu a Gwella Mannau Unigryw a Naturiol** | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod Polisi: SP17, DNP5** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun** |
| 35: Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd a fyddai'n achosi niwed i werth cadwraeth cyffredinol Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur, Safleoedd Geoamrywiaeth Pwysig y Rhanbarth a Gwarchodfeydd Natur Lleol. | Ni roddwyd unrhyw ganiatâd am ddatblygiad sy'n groes i Bolisi DNP5 | Caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer 1 neu fwy o geisiadau yn groes i Bolisi DNP5. |
| **Canlyniad Perfformiad:** | | |

| **Y flwyddyn flaenorol** | **AMB 2025/26** |
|---|---|
| Amh. | 0 |
| **Dadansoddiad:** | |
| | |

| |
|---|
| Mae Polisi DNP5 yn darparu ail haen hanfodol o ddiogelwch ar gyfer safleoedd o bwys lleol a rhanbarthol, gan gynnwys Gwarchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd Pwysigrwydd er Cadwraeth Natur a Safleoedd Geoamrywiaeth Pwysig y Rhanbarth. Mae'n ceisio sicrhau bod unrhyw ddatblygiad o fewn neu'n gyfagos â'r ardaloedd yn gydnaws â'u bioamrywiaeth neu eu 1gwerth gwyddonol, gan gefnogi eu potensial addysgiadol hefyd. Dim ond lle mae'r buddion yn amlwg yn drech na'r effaith y caniateir datblygiad a allai achosi niwed i'r safleoedd hyn, a lle gellir lliniaru neu wneud iawn am y niwed yn briodol.<br><br>Ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau a oedd yn groes i Bolisi DNP5 yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025, sy'n cyd-fynd â'r targed ar gyfer y dangosydd hwn. |

| | |
|---|---|
| **Perfformiad:** | |
| **Gweithredu:** | Parhau i fonitro |

| **Amcan: Amcan Strategol 4, 'Diogelu a Gwella Mannau Unigryw a Naturiol** | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod Polisi: SP17, DNP6** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun** |
| 36: Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd a fyddai’n achosi niwed i gynefinoedd neu rywogaethau a warchodir yn gyfreithiol. | Ni roddwyd unrhyw ganiatâd am ddatblygiad sy'n groes i Bolisi DNP6. | Caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer 1 neu fwy o geisiadau yn groes i Bolisi DNP6. |

| **Canlyniad Perfformiad:** | |
|---|---|
| **Y flwyddyn flaenorol** | **AMB 2025/26** |
| Amh. | 0 |
| **Dadansoddiad:** | |

| | |
|---|---|
| Nod Polisi DNP6 yw sicrhau bod datblygiad yn cyfrannu at ddiogelu, gwella a chydnerthedd bioamrywiaeth ac ecosystemau yn unol â dyletswyddau'r Cyngor o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'n ceisio taro cydbwysedd gofalus rhwng galluogi datblygiad priodol a diogelu cynefinoedd a rhywogaethau sy'n cynnal rhwydwaith ecolegol ehangach y fwrdeistref sirol. Rhaid lleoli a dylunio cynigion datblygu mewn ffordd sensitif i warchod bioamrywiaeth ar y safle ac ystyried gwerth unrhyw asedau cadwraeth natur cyfagos.<br><br>Ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau am ddatblygiadau sy'n groes i Bolisi NNP6 yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2024 - 31 Mawrth 2025, sy'n cyd-fynd â'r targed ar gyfer y dangosydd hwn. | |
| **Perfformiad:** | |
| **Gweithredu:** | Parhau i fonitro |

## 7.0 Monitro Arfarniad Cynaliadwyedd

7.1 Dylai trefniadau monitro'r CDLl gydymffurfio â'r gofynion ar gyfer monitro perfformiad cynaliadwyedd y CDLl drwy broses yr Asesiad Amgylcheddol Strategol / Arfarniad Cynaliadwyedd. Mae monitro drwy Arfarniad Cynaliadwyedd yn ehangu'r asesiad o berfformiad y CDLl yn erbyn amcanion monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd. Bwriedir i'r amcanion hyn fesur effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y CDLl. Mae Adran 6 o'r AMB yn archwilio perfformiad y CDLl yn erbyn amcanion monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd.

7.2 Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn cael eu monitro yn rhan o'r AMB er mwyn cofnodi cynnydd y CDLl. Mae'r Fframwaith Monitro yn cynnwys mecanweithiau'n benodol i fonitro'r effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd yn sgil y CDLl, fel y rhagwelir drwy broses yr Arfarniad Cynaliadwyedd.

7.3 Mae'r Fframwaith Monitro yn cynnwys mecanweithiau i asesu a yw polisïau allweddol sy'n hanfodol i gyflawni'r Cynllun yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd a heb unrhyw ganlyniadau niweidiol annisgwyl. Yn benodol, bydd yr 14 o amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn cael eu hasesu yn erbyn y dangosyddion a nodwyd yn fwyaf perthnasol.

| **Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd** | **Dangosyddion Fframwaith Monitro y CDLl Newydd** | **Gwyrdd/Ambr/Coch** |
|---|---|---|
| **1.** Iechyd a Llesiant: Gwella iechyd a lles y boblogaeth, gan gynnwys o iechyd corfforol a meddyliol, lles | • 2: Ceisiadau a ganiatawyd yn groes i Bolisi *SP3:* Dylunio Da a Chreu Lleoedd Cynaliadwy | |

| | | |
|---|---|---|
| cymdeithasol a diogelwch cymunedol. | • 20: Nifer y cyfleusterau cymunedol a gollwyd oherwydd datblygiad. | |
| **2.** Cydraddoldeb a Chynhwysiant Cymdeithasol: Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb, mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol a hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol, gan gynnwys drwy wella mynediad at gyfleusterau cymunedol. | • 2: Ceisiadau a ganiatawyd yn groes i Bolisi *SP3:* Dylunio Da a Chreu Lleoedd Cynaliadwy | |
| | • 15: Deiliadaeth y tai fforddiadwy a gwblheir | |
| | • 18: Cwblhau safleoedd Sipsiwn a Theithwyr i ddiwallu'r angen a nodwyd. | |
| | • 19: Bodloni unrhyw angen newydd sy'n codi am safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn sy'n codi y tu allan i'r GTAA. | |
| | • 20: Nifer y cyfleusterau cymunedol a gollwyd oherwydd datblygiad. | |
| **3.** Cyflogaeth a Sgiliau: Cynyddu nifer ac ansawdd cyfleoedd cyflogaeth i fodloni anghenion a nodwyd, gan | • 21: Defnydd tir cyflogaeth yn erbyn dyraniadau. | |
| | • 22: Galluogi twf swyddi. | |

| | | |
|---|---|---|
| wella lefel cyrhaeddiad addysgol a sgiliau ymhlith trigolion ar yr un pryd. | • 24: Cyfraddau gwag blynyddol eiddo masnachol yng nghanol trefi'r Fwrdeistref Sirol. | |
| **4.** Trafnidiaeth a Chyfathrebu: Gwella hygyrchedd gwasanaethau cyhoeddus, cyfleoedd economaidd a marchnadoedd drwy wella seilwaith a chreu rhwydwaith trafnidiaeth cynaliadwy, gan sicrhau mynediad at wasanaethau cyfathrebu a chyfleustodau o ansawdd uchel hefyd. | • 10: Ceisiadau a ganiatawyd yn groes i Bolisi SP5: Trafnidiaeth Gynaliadwy a Hygyrchedd. | |
| | • 24: Cyfraddau gwag blynyddol eiddo masnachol yng nghanol trefi'r Fwrdeistref Sirol. | |
| | • 25: Y gyfran o ddefnyddiau manwerthol A1 yn y Prif Ardaloedd Siopa | |
| **5.** Tai: Darparu nifer ac ystod ddigonol o dai o ansawdd da a fforddiadwy mewn lleoliadau cynaliadwy i fodloni'r anghenion a nodwyd. | • 1: Dosbarthiad gofodol datblygiadau tai | |
| | • 11: Nifer yr anheddau fforddiadwy net ac anheddau'r farchnad a adeiledir yn ardal yr ACLl. | |
| | • 12: Lefel flynyddol y tai a gwblheir wedi'i monitro yn erbyn y Gyfradd Adeiladu | |

| | | |
|---|---|---|
| | Flynyddol Ddisgwyliedig (CAFDd). | |
| | • 13: Cyfanswm y niferoedd cronnus a gwblhawyd a gafodd eu monitro yn erbyn y gyfradd gwblhau gronnus ddisgwyliedig. | |
| | • 14: Lefel y tai fforddiadwy a gwblhawyd wedi'i monitro yn erbyn targed cyffredinol y cynllun. | |
| | • 15: Deiliadaeth y tai fforddiadwy a gwblheir | |
| | • 16: Cyflawni'r polisi tai fforddiadwy - trothwyon a thargedau canrannol ar gyfer pob ardal is-farchnad. | |
| **6.** Twf Economaidd: Cyflawni twf economaidd cynaliadwy a chynyddu i'r eithaf gyfraniad economaidd ardal CBSP at Ranbarth Prifddinas | • 1: Dosbarthiad gofodol datblygiadau tai | |
| | • 11: Nifer yr anheddau fforddiadwy net ac anheddau'r farchnad a | |

| | | |
|---|---|---|
| Caerdydd, gan gynnwys drwy arallgyfeirio a chryfhau'r sylfaen economaidd leol. | adeiledir yn ardal yr ACLl. | |
| | • 17: Hyfywedd – tueddiadau mewn prisiau tai, gwerthoedd tir, costau adeiladu. | |
| | • 22: Galluogi twf swyddi. | |
| **7.** Ansawdd yr Aer: Atal a lleihau allyriadau a chrynodiadau o lygryddion atmosfferig niweidiol, a lleihau amlygiad i ansawdd aer gwael. | • 10: Ceisiadau a ganiatawyd yn groes i Bolisi SP5: Trafnidiaeth Gynaliadwy a Hygyrchedd. | |
| | • 27: Nifer a chapasiti (MW) datblygiadau carbon ynni adnewyddadwy, isel a sero | |
| **8.** Y Newid yn yr Hinsawdd: Mabwysiadu mesurau lliniaru ac addasu priodol i leihau effeithiau newid hinsawdd ac ymateb iddynt. | • 8: Nifer y datblygiadau a ganiateir o fewn ardaloedd Gorlifdir C1 nad ydynt yn bodloni holl brofion TAN 15. | |
| | • 9: Graddfa/math o ddatblygiad bregus iawn a ganiateir o fewn ardaloedd risg llifogydd C2. | |

| | | |
|---|---|---|
| | • 10: Ceisiadau a ganiatawyd yn groes i Bolisi *SP5: Trafnidiaeth Gynaliadwy a Hygyrchedd.* | |
| | • 26: Nifer y ceisiadau cynllunio mawr a gyflwynir ar y cyd ag 'Uwchgynllun Ynni', yn unol â Pholisi ENT10 | |
| | • 27: Nifer a chapasiti (MW) datblygiadau carbon ynni adnewyddadwy, isel a sero | |
| **9.** Bioamrywiaeth, Geoamrywiaeth a Phridd: Cadw, amddiffyn a gwella buddiannau bioamrywiaeth a geoamrywiaeth, gan gynnwys drwy ddiogelu safleoedd a rhywogaethau pwysig, gwella darpariaeth seilwaith gwyrdd a diogelu adnoddau pridd pwysig. | • 28: Banc tir agregau ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr mewn blynyddoedd. | |
| | • 29: Swm y datblygiadau ataliol parhaol a ganiatawyd o fewn Ardal Diogelu Mwynau. | |
| | • 33: Swm y tir yng nghefn gwlad (ha) a gollwyd i ddatblygiad a ganiatawyd drwy gais i wyro oddi wrth Bolisi DNP1. | |

| | | |
|---|---|---|
| | • 36: Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd a fyddai'n achosi niwed i gynefinoedd neu rywogaethau a warchodir yn gyfreithiol. | |
| **10.** Dŵr a Risg Llifogydd: Cadw, diogelu a gwella amgylcheddau dŵr ac arfordirol, ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr, gan leihau'r risg o lifogydd ar yr un pryd. Rhaid lleoli datblygiadau fel nad ydynt yn cynyddu'r risg o lifogydd, a dylid eu llywio i ffwrdd o ardaloedd sydd â'r risg fwyaf. | • 8: Nifer y datblygiadau a ganiateir o fewn ardaloedd Gorlifdir C1 nad ydynt yn bodloni holl brofion TAN 15. | |
| | • 9: Graddfa/math o ddatblygiad bregus iawn a ganiateir o fewn ardaloedd risg llifogydd C2. | |
| **11.** Deunyddiau a Gwastraff: Cyfrannu at weithredu'r economi gylchol, rheoli gwastraff gan greu'r effeithiau amgylcheddol lleiaf posibl a sicrhau defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol, gan gynnwys ar gyfer cynhyrchu ynni a darparu cyflenwad digonol o fwynau a deunyddiau ar gyfer adeiladu. | • 28: Banc tir agregau ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr mewn blynyddoedd. | |
| | • 29: Swm y datblygiadau ataliol parhaol a ganiatawyd o fewn Ardal Diogelu Mwynau. | |
| | • 30: Y capasiti i ddarparu ar gyfer | |

| | | |
|---|---|---|
| | gwastraff y Fwrdeistref Sirol. | |
| **12.** Creu Lleoedd Cynaliadwy: Gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o dir a seilwaith a gwella ansawdd dylunio i greu lleoedd gwych i bobl. | • 2: Ceisiadau a ganiatawyd yn groes i Bolisi *SP3: Dylunio Da a Chreu Lleoedd Cynaliadwy* | |
| | • 3a-7a: Nifer yr anheddau a ddarparwyd ar Safleoedd Strategol, Defnydd Cymysg | |
| | • 3b-7b: Gofynion seilwaith ac egwyddorion Creu Lleoedd wedi'u cyflawni ar Safleoedd Defnydd Cymysg Strategol. | |
| | • 23: Swm y datblygiad manwerthu mawr (m sgwâr) a ganiateir y tu allan i ffiniau sefydledig trefi a chanolfannau lleol. | |
| **13.** Treftadaeth Ddiwylliannol: Cadw, diogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol | • 31: Nifer blynyddol yr ymwelwyr â'r fwrdeistref sirol. | |

| | | |
|---|---|---|
| ac asedau diwylliannol, gan gynnwys y defnydd o'r Gymraeg. | • 32: Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd a fyddai'n arwain at golli cyfleusterau twristiaeth, hamdden neu adloniant. | |
| | • 35: Nifer y ceisiadau a fyddai'n achosi niwed i werth cadwraeth cyffredinol Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur, Safleoedd Geoamrywiaeth Pwysig y Rhanbarth a Gwarchodfeydd Natur Lleol. | |
| **14.** Y Dirwedd: Diogelu a gwella cymeriad y dirwedd, amwynder gweledol ac eglurder aneddiadau yn ardal CBSP. | • 33: Swm y tir yng nghefn gwlad (ha) a gollwyd i ddatblygiad a ganiatawyd drwy gais i wyro oddi wrth Bolisi DNP1. | |
| | • 34: Nifer y datblygiadau a ganiatawyd a allai gael effaith andwyol ar Ardal Tirwedd Arbennig. | |

| | | |
|---|---|---|
| | • 35: Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd a fyddai'n achosi niwed i werth cadwraeth cyffredinol Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur, Safleoedd Geoamrywiaeth Pwysig y Rhanbarth a Gwarchodfeydd Natur Lleol. | |

## 8.0 Casgliadau ac Argymhellion

8.1 Mae'r AMB yn darparu asesiad pwysig o gynnydd wrth gyflawni amcanion y CDLIN. Nid yw'r canfyddiadau'n dangos unrhyw bryderon sylfaenol o ran cyflawni'r strategaeth twf a gofodol, er gwaethaf y ffaith bod nifer y tai a gwblhawyd wedi bod yn is nag a ragwelwyd ym mlynyddoedd cynnar y taflwybr tai. Disgwylir i'r broblem hon ei datrys ei hun wrth i ymrwymiadau presennol gael eu cwblhau a dyraniadau newydd ddod yn eu blaenau.

8.2 Gwnaed cynnydd hefyd o ran cryfhau'r cyflenwad o dir ar gyfer cyflogaeth ac o ran hyrwyddo amcanion hinsawdd a chynaliadwyedd.

8.3 Mae'r canlyniadau monitro yn tynnu sylw at bwysigrwydd cydweithio parhaus rhwng y Cyngor, datblygwyr, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, a rhanddeiliaid allweddol i fynd i'r afael â'r heriau a nodwyd a sicrhau y cyflawnir datblygiadau cynaliadwy sydd wedi'u cynllunio'n dda. Mae'r CDLIN eisoes wedi cael ei ategu drwy fabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy yn ystod y cyfnod monitro, a gwnaed cynnydd sylweddol wrth lunio CCAau eraill yn gysylltiedig â Manwerthu, Hamdden a Thai Amlfeddiannaeth. Ni ystyrir bod unrhyw agwedd yn destun pryder ar hyn o bryd.

8.4 Bydd canfyddiadau'r AMB hwn ac AMBau dilynol yn llywio'r gwaith o baratoi unrhyw adolygiad o'r CDLIN yn y dyfodol, gan sicrhau bod y strategaeth yn parhau i ymateb i amgylchiadau sy'n newid ac yn gallu cyflawni Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y CDLIN.

## Atodiad A. Amseriad a Chyfnodau Dyraniadau a Safleoedd â Chaniatâd Cynllunio (2018-203, Diweddarwyd 2024/25)

### Tabl 1. Amseriad a Chyfnodau Dyraniadau

| **Enw'r safle a ddyrannwyd** | **Cyfanswm capasiti'r safle** | **Oedi hyd at adeiladu mewn misoedd** | | | **Cyfnodau datblygu (2018-33)** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Amser ar gyfer trafodaethau cyn-ymgeisio/ymgynghoriad cyn ymgeisio | Amser rhwng cyflwyno cais cynllunio a phenderfynu ynghylch y cais | Amser a gymerir o roi caniatâd cynllunio hyd at gyflawni amodau perthnasol fel bo modd dechrau adeiladu ar y safle | Cwblhadau | U/C | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 | 24/25 | 25/26 | 26/27 | 27/28 | 28/29 | 29/30 | 30/31 | 31/32 | 32/33 | Unedau wedi'u graddoli y tu hwnt i gyfnod y cynllun |
| Tir i'r De o Ben-y-bont ar Ogwr | 788 | Cyn-ymgeisio: 7 wythnos (fesul cyfnod)<br><br>Ymgynghori Cyn Ymgeisio: 7 wythnos (Isafswm o 4 wythnos gyda chyfnod o 3 wythnos i goladu a chynhyrchu adroddiad Ymgynghori Cyn Ymgeisio) | 14 wythnos (fesul cyfnod) | 8 wythnos (fesul cais) | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 68 | 120 | 120 | 120 | 120 | 120 | 120 | 0 |
| Tir i'r Gorllewin o Ben-y-bont ar Ogwr | 850 | Cyn-ymgeisio: 7 wythnos (fesul cyfnod)<br><br>Ymgynghori Cyn Ymgeisio: 7 wythnos (Isafswm o 4 wythnos gyda chyfnod o 3 wythnos i goladu a chynhyrchu adroddiad Ymgynghori Cyn Ymgeisio) | 14 wythnos (fesul cyfnod) | 8 wythnos (fesul cais) | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 30 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 120 |
| Craig y Parcau, Pen-y-bont ar Ogwr | 108 | Cyn-ymgeisio: 6 wythnos<br><br>Ymgynghori Cyn Ymgeisio: 6 wythnos (Isafswm o 4 wythnos gyda chyfnod o 2 wythnos i goladu a chynhyrchu adroddiad Ymgynghori Cyn Ymgeisio) | 10 wythnos | 8 wythnos | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | 50 | 48 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Glannau Porthcawl | 1100 | Cyn-ymgeisio: 9 wythnos (fesul cyfnod) | 16 wythnos (fesul cyfnod) | 8 wythnos (fesul cais) | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 60 | 120 | 120 | 120 | 120 | 120 | 120 | 320 |

| Enw'r safle a ddyrannwyd | Cyfanswm capasiti'r safle | Oedi hyd at adeiladu mewn misoedd | | | Cyfnodau datblygu (2018-33) | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Amser ar gyfer trafodaethau cyn-ymgeisio/ymgynghoriad cyn ymgeisio | Amser rhwng cyflwyno cais cynllunio a phenderfynu ynghylch y cais | Amser a gymerir o roi caniatâd cynllunio hyd at gyflawni amodau perthnasol fel bo modd dechrau adeiladu ar y safle | Cwblhadau | U/C | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 | 24/25 | 25/26 | 26/27 | 27/28 | 28/29 | 29/30 | 30/31 | 31/32 | 32/33 | Unedau wedi'u graddoli y tu hwnt i gyfnod y cynllun |
| | | Ymgynghori Cyn Ymgeisio: 8 wythnos (Isafswm o 4 wythnos gyda chyfnod o 4 wythnos i goladu a chynhyrchu adroddiad Ymgynghori Cyn Ymgeisio) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Tir i'r Dwyrain o Bencoed | 804 | 6 wythnos (fesul cyfnod)<br><br>Ymgynghori Cyn Ymgeisio: 7 wythnos (Isafswm o 4 wythnos gyda chyfnod o 3 wythnos i goladu a chynhyrchu adroddiad Ymgynghori Cyn Ymgeisio) | 14 wythnos (fesul cyfnod) | 8 wythnos (fesul cais) | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 84 | 120 | 120 | 120 | 120 | 120 | 120 | 0 |
| Tir i'r Dwyrain o'r Pîl | 2003 | Cyn-ymgeisio:<br>9 wythnos (fesul cyfnod)<br><br>Ymgynghori Cyn Ymgeisio: 8 wythnos (Isafswm o 4 wythnos gyda chyfnod o 4 wythnos i goladu a chynhyrchu adroddiad Ymgynghori Cyn Ymgeisio) | 16 wythnos (fesul cyfnod) | 8 wythnos (fesul cais) | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 70 | 150 | 150 | 150 | 150 | 150 | 150 | 1033 |
| Tir i'r De-orllewin o Bont Rhyd-y-cyff | 130 | Cyn-ymgeisio: 6 wythnos<br><br>Ymgynghori Cyn Ymgeisio: 6 wythnos Isafswm o 4 wythnos gyda chyfnod o 2 wythnos i goladu a chynhyrchu adroddiad Ymgynghori Cyn Ymgeisio) | 10 wythnos | 8 wythnos | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | 45 | 45 | 30 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Tir i'r De-ddwyrain o | 140 | Cyn-ymgeisio: 6 wythnos | 10 wythnos | 8 wythnos | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | 25 | 40 | 40 | 25 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| Enw'r safle a ddyrannwyd | Cyfanswm capasiti'r safle | Oedi hyd at adeiladu mewn misoedd | | | Cyfnodau datblygu (2018-33) | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Amser ar gyfer trafodaethau cyn-ymgeisio/ymgynghoriad cyn ymgeisio | Amser rhwng cyflwyno cais cynllunio a phenderfynu ynghylch y cais | Amser a gymerir o roi caniatâd cynllunio hyd at gyflawni amodau perthnasol fel bo modd dechrau adeiladu ar y safle | Cwblhadau | U/C | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 | 24/25 | 25/26 | 26/27 | 27/28 | 28/29 | 29/30 | 30/31 | 31/32 | 32/33 | Unedau wedi'u graddoli y tu hwnt i gyfnod y cynllun |
| Bont Rhyd-y-cyff | | Ymgynghori Cyn Ymgeisio: 42 o ddiwrnodiau (Isafswm o 28 diwrnod gyda chyfnod o 14 diwrnod i goladu a chynhyrchu adroddiad Ymgynghori Cyn Ymgeisio) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Tir i'r De o Bont Rhyd-y-cyff | 102 | Cyn-ymgeisio: 6 wythnos<br><br>Ymgynghori Cyn Ymgeisio: 6 wythnos (Isafswm o 4 wythnos gyda chyfnod o 2 wythnos i goladu a chynhyrchu adroddiad Ymgynghori Cyn Ymgeisio) | 10 wythnos | 8 wythnos | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 15 | 25 | 25 | 37 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Hen Safle Cooper Standard, Heol Ewenni, Maesteg | 205 | Cyn-ymgeisio: 6 wythnos<br><br>Ymgynghori Cyn Ymgeisio: 6 wythnos (Isafswm o 4 wythnos gyda chyfnod o 2 wythnos i goladu a chynhyrchu adroddiad Ymgynghori Cyn Ymgeisio) | 10 wythnos | 8 wythnos | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 20 | 40 | 40 | 40 | 40 | 25 | 0 | 0 | 0 |

### Tabl 2. Amseriad a Chyfnodau Safleoedd â Chaniatâd Cynllunio (2018-2033)

| Haen aneddiadau / Ardal twf | Cais cynllunio | Enw'r Safle | Cyfanswm capasiti'r safle | Cyfnodau datblygu (2018-33) | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Cwblhadau | U/C | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 | 24/25 | 25/26 | 26/27 | 27/28 | 28/29 | 29/30 | 30/31 | 31/32 | 32/33 | Unedau wedi'u graddoli y tu hwnt i gyfnod y cynllun |
| Porth y Cymoedd (Prif Anheddiad) | P/19/915/RES | TIR ODDI AR HEOL MAESTEG, TONDU | 405 | 99 | 30 | | | | | 20 | 32 | 47 | 60 | 60 | 60 | 60 | 66 | | | | |
| Pen-y-bont ar Ogwr (Prif Anheddiad Allweddol, Ardal Twf Cynaliadwy) | P/18/983/FUL | HEOL SUNNYSIDE (TIR ODDI AR), PEN-Y-BONT AR OGWR | 59 | 0 | 50 | | | | | 0 | 0 | 0 | 59 | | | | | | | | |
| Pen-y-bont ar Ogwr (Prif Anheddiad Allweddol, Ardal Twf Cynaliadwy) | P/15/693/FUL | 69-73 HEOL Y BONT-FAEN (Y TU ÔL I), PEN-Y-BONT AR OGWR | 10 | 0 | 0 | | | | | 0 | 0 | 0 | 10 | | | | | | | | |
| Pen-y-bont ar Ogwr (Prif Anheddiad Allweddol, Ardal Twf Cynaliadwy) | P/16/610/FUL | STRYD Y PARC, COED PARC, PEN-Y-BONT AR OGWR | 15 | 6 | 3 | | | 3 | 1 | 0 | 0 | 2 | 9 | | | | | | | | |
| Porth y Cymoedd (Prif Anheddiad) | P/19/182/RES (Cyfnod 2) | PARC TYN Y COED, BRYNCETHIN | 273 | 267 | 6 | | | | | 1 | 2 | 0 | 6 | | | | | | | | |
| Porthcawl (Prif Anheddiad, Ardal Twf Adfywio) | P/19/352/RES P/21/60/FUL P/21/273/FUL P/23/695/FUL P/23/711/FUL | CWFAINT ST CLARES, CLEVIS HILL, PORTHCAWL | 11 | 5 | 5 | | | | | 3 | 2 | 0 | 6 | | | | | | | | |
| Pen-y-bont ar Ogwr (Prif Anheddiad Allweddol, Ardal Twf Cynaliadwy) | P/14/185/FUL P/20/638/NMA | PLASTY A LÔN WATERTON (TIR YN), WATERTON, PEN-Y-BONT AR OGWR | 39 | 26 | 0 | | | | | 26 | 0 | 0 | 13 | | | | | | | | |
| Y Pîl, Mynydd Cynffig a Gogledd Corneli (Prif Anheddiad, | P/18/829/FUL | TIR YN HEOL CROFFT GOCH, CYNFFIG | 21 | 0 | 0 | | | | | 0 | 0 | 0 | 21 | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ardal Twf Cynaliadwy) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Maesteg a Chwm Llynfi (Prif Anheddiad, Ardal Twf Adfywio) | P/14/390/FUL P/21/547/RLX | TIR YNG NGHLWB RYGBI A PHÊL DROED NANTYFYLLON, STRYD BLOSSE, MAESTEG | 36 | 23 | 4 | | | | | 23 | 0 | 0 | 13 | | | | | | | | |
| Porthcawl (Prif Anheddiad, Ardal Twf Adfywio) | P/20/415/FUL | GLAMORGAN HOLIDAY HOME GYNT, Y SGWÂR | 52 | 0 | 0 | | | | | 0 | 0 | 0 | 52 | | | | | | | | |
| Porth y Cymoedd (Prif Anheddiad) | P/21/1092/FUL | HEN GARTREF GOFAL GLAN YR AFON HEOL YR YSGOL YNYSAWDRE | 35 | 0 | 35 | | | | | 0 | 0 | 0 | 35 | | | | | | | | |
| Porth y Cymoedd (Prif Anheddiad) | P/14/838/FUL | TIR I'R DWYRAIN O GWM FELIN AC I'R DE O CRAIG TERRACE / EBENEZER TERRACE, MELIN IFAN DDU | 28 | 0 | 0 | | | | | | 0 | 0 | 28 | | | | | | | | |
| Maesteg a Chwm Llynfi (Prif Anheddiad, Ardal Twf Adfywio) | P/22/34/FUL | HEN YSGOL FABANOD BLAENLLYNFI, TERAS GROSVENOR, MAESTEG | 20 | 0 | 20 | | | | | | 0 | 0 | 20 | | | | | | | | |
| Porthcawl (Prif Anheddiad, Ardal Twf Adfywio) | P/18/758/FUL | HEN WESTY PORTHCAWL 7-11 STRYD IOAN PORTHCAWL | 17 | 0 | 17 | | | | | | 0 | 0 | 17 | | | | | | | | |
| Cwm Garw (Anheddiad Lleol) | P/23/699/FUL | TIR YN HEN GLWB CYMDEITHASOL BETWS, BETWS | 20 | 0 | 20 | | | | | | | 0 | 20 | | | | | | | | |
| Cwm Garw (Anheddiad Lleol) | P/22/597/FUL | HEN GLWB FFALDAU / TIR I'R DWYRAIN O STRYD OXFORD | 12 | 0 | 0 | | | | | | | 0 | 12 | | | | | | | | |
| Pen-y-bont ar Ogwr (Prif Anheddiad Allweddol, Ardal Twf Cynaliadwy) | P/21/379/FUL | TIR AR OCHR ORLLEWINOL GENTLE WAY, BROADLANDS, PEN-Y-BONT AR OGWR | 10 | 0 | 0 | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Porthcawl (Prif Anheddiad, Ardal Twf Adfywio) | P/20/263/FUL | HEN YSGOL SANT YSGOL JOHN, DRENEWYDD YN NOTAIS, PORTHCAWL | 57 | 57 | 0 | | | | | 24 | 30 | 3 | | | | | | | | | |
| Pen-y-bont ar Ogwr (Prif Anheddiad | P/18/1006/FUL | YSGOL BRYN CASTELL (CAM 2), PEN-Y-BONT AR OGWR | 127 | 127 | 0 | | | | 13 | 57 | 43 | 14 | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Allweddol, Ardal Twf Cynaliadwy) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Pencoed (Prif Anheddiad, Ardal Twf Cynaliadwy) | P/20/214/FUL | HEN GLWB CYMDEITHASOL PENCOED, HEOL Y GROES, PENCOED | 24 | 24 | 0 | | | | | 0 | 0 | 24 | | | | | | | | | |
| Pencoed (Prif Anheddiad, Ardal Twf Cynaliadwy) | P/09/435/OUT | TIR I'R DE O HEOL HENDRE, PENCOED | 205 | 205 | 0 | 2 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | | | | | | | | | |
| Porthcawl (Prif Anheddiad, Ardal Twf Adfywio) | P/22/115/FUL | HEN IARD YR ORSAF<br>HEN ORSAF MOT PORTHCAWL | 20 | 20 | 0 | | | | | 0 | 0 | 20 | | | | | | | | | |
| Cwm Ogwr (Anheddiad Lleol, Ardal Adfywio) | P/04/252/FUL<br>P/21/831/NMA<br>P/22/65/FUL | CWRT TŶ MAWR, HEOL Y GOGLEDD, BRO OGWR | 13 | 13 | | | | | | 6 | 1 | | | | | | | | | | |
| Pencoed (Prif Anheddiad, Ardal Twf Cynaliadwy) | P/20/99/FUL | CAPEL Y DRINDOD, HEOL PEN-Y-BONT, PENCOED | 12 | 12 | 0 | | | | | 0 | 12 | | | | | | | | | | |
| Betws (Anheddiad Lleol) | P/19/147/FUL | HEOL DEWI SANT (Y TU ÔL I), BETWS | 23 | 23 | 0 | | | | | 0 | 1 | | | | | | | | | | |
| Pen-y-bont ar Ogwr (Prif Anheddiad Allweddol, Ardal Twf Cynaliadwy) | P/19/624/FUL<br>P/19/656/RES | PARC DERWEN, PEN-Y-BONT AR OGWR | 1577 | 1506 | 0 | 157 | 94 | 19 | 51 | 71 | | | | | | | | | | | |
| Pen-y-bont ar Ogwr (Prif Anheddiad Allweddol, Ardal Twf Cynaliadwy) | P/18/145/RES | TIR YN HEOL LLANGEWYDD, CEFN GLAS, PEN-Y-BONT AR OGWR | 194 | 194 | 0 | 1 | 61 | 47 | 51 | 34 | | | | | | | | | | | |
| Pen-y-fai (Anheddiad Lleol) | P/17/1073/FUL | HEOL YR HOLL SAINT (TIR I'R DE O), PEN-Y-FAI | 20 | 20 | 0 | | | 7 | 10 | 3 | | | | | | | | | | | |
| Cefn Cribwr (Anheddiad Lleol) | P/18/286/NMA | HEOL BEDFORD, CEFN CRIBBWR | 10 | 10 | 0 | | | | | 10 | | | | | | | | | | | |
| Porthcawl (Prif Anheddiad, Ardal Twf Adfywio) | P/16/609/FUL | 47 - 49 WOODLAND AVENUE (Tir Rhwng), PORTHCAWL | 10 | 10 | 0 | | | | | 10 | | | | | | | | | | | |
| Porth y Cymoedd (Prif Anheddiad) | P/18/1012/FUL | YR HEN FECWS, HEOL MAESTEG, TONDU | 10 | 10 | 0 | | | | | 10 | | | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Porthcawl (Prif Anheddiad, Ardal Twf Adfywio) | P/18/920/FUL | RONNIES COMMERCIAL, CLOS YR ORSAF, PORTHCAWL | 10 | 0 | | | | | 10 | | | | | | | | | | | | |
| Porthcawl (Prif Anheddiad, Ardal Twf Adfywio) | P/18/908/FUL | MEADOW LANE (TIR AR), PORTHCAWL | 24 | 0 | | | | | 24 | | | | | | | | | | | | |
| Porthcawl (Prif Anheddiad, Ardal Twf Adfywio) | P/17/273/RLX, P/19/30/RLX | CARTREF GWELLA THE REST, PORTHCAWL | 69 | 69 | | | 24 | 10 | 35 | | | | | | | | | | | | |
| Pen-y-bont ar Ogwr (Prif Anheddiad Allweddol, Ardal Twf Cynaliadwy) | P/13/246/OUT, P/14/464/OUT | ARDAL ADFYWIO GOGLEDD-DDWYRAIN BRACLA, PEN-Y-BONT AR OGWR | 558 | 558 | | 147 | 178 | 112 | | | | | | | | | | | | | |
| Pen-y-bont ar Ogwr (Prif Anheddiad Allweddol, Ardal Twf Cynaliadwy) | P/15/379/FUL | JUBILEE CRESCENT, PEN-Y-BONT AR OGWR | 48 | 48 | | 48 | | | | | | | | | | | | | | | |
| Pen-y-bont ar Ogwr (Prif Anheddiad Allweddol, Ardal Twf Cynaliadwy) | P/16/985/FUL | FFERM Y PARC, GOGLEDD DDWYRAIN PARC DERWEN, PEN-Y-BONT AR OGWR | 24 | 24 | | 24 | | | | | | | | | | | | | | | |
| Trelales (Anheddiad Lleol) | P/12/476/FUL, P/13/354/FUL, P/13/357/FUL | TAFARN OYSTERCATCHER, MAES PARCIO A THIR Y TU ÔL I'R STRYD FAWR, TRELALES | 10 | 10 | | 1 | 1 | 1 | | | | | | | | | | | | | |
| Pen-y-bont ar Ogwr (Prif Anheddiad Allweddol, Ardal Twf Cynaliadwy) | P/16/111/FUL, P/18/64/FUL | COURT ROAD 11, ADEILADAU GAYLARD, PEN-Y-BONT AR OGWR | 17 | 17 | | 17 | | | | | | | | | | | | | | | |
| Pen-y-bont ar Ogwr (Prif Anheddiad Allweddol, Ardal Twf Cynaliadwy) | P/16/606/FUL | HEN GLWBDY OCLP, ELM CRESCENT, PEN-Y-BONT AR OGWR | 18 | 18 | | 18 | | | | | | | | | | | | | | | |
| Porth y Cymoedd | P/15/62/FUL | YSGOL GYFUN OGWR, BRYNCETHIN | 117 | 117 | | 53 | 7 | | | | | | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| (Prif Anheddiad) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Porth y Cymoedd (Prif Anheddiad) | P/16/600/FUL | HEN YSGOL YR ARCHESGOB MCGRATH (TIR YN) - SAFLE A, TONDU | 44 | 44 | | 44 | | | | | | | | | | | | | | | |
| Pen-y-bont ar Ogwr (Prif Anheddiad Allweddol, Ardal Twf Cynaliadwy) | P/15/60/FUL, P/17/433/FUL | CANOLFAN SIOPA RHIW / STRYD BRACLA, PEN-Y-BONT AR OGWR | 38 | 38 | | | 10 | | | | | | | | | | | | | | |
| Maesteg a Chwm Llynfi (Prif Anheddiad, Ardal Twf Adfywio) | P/16/607/FUL | HEOL PEN-Y-BONT AR OGWR, HEN GAE CHWARAE'R YSGOL, MAESTEG | 37 | 37 | | | 37 | | | | | | | | | | | | | | |
| Pen-y-bont ar Ogwr (Prif Anheddiad Allweddol, Ardal Twf Cynaliadwy) | P/17/393/FUL, P/18/410/FUL | BRYN BRAGL, BRACLA, PEN-Y-BONT AR OGWR | 14 | 14 | | | | 14 | | | | | | | | | | | | | |
| Pencoed (Prif Anheddiad, Ardal Twf Cynaliadwy) | P/18/174/FUL | YSGOL GYNRADD PENCOED | 40 | 40 | | | | 40 | | | | | | | | | | | | | |
| Heol-y-Cyw (Anheddiad Lleol) | P/18/759/FUL | YSGOL GYNRADD HEOL Y CYW | 13 | 13 | | | | 13 | | | | | | | | | | | | | |
| Y Pîl, Mynydd Cynffig a Gogledd Corneli (Prif Anheddiad, Ardal Twf Cynaliadwy) | P/15/856/FUL | AEL Y BRYN 65 - 66 (TIR Y TU ÔL I), GOGLEDD CORNELI | 23 | 23 | | | | 23 | | | | | | | | | | | | | |
| Porth y Cymoedd (Prif Anheddiad) | P/14/742/OUT | TIR YN FFERM ABERGARW, BRYNMENYN | 26 | 26 | | 9 | 9 | 6 | | | | | | | | | | | | | |

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND
County Borough Council